# Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor
a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2010

Cm 7972 £19.75

**© Hawlfraint y Goron 2010**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu anfonwch lythyr at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu neges e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar ddeunydd yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn breakingthecycle@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101797221

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2401841 12/10

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% ohono'n ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Rhagair Gweinidogol

Mae diogelwch dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Glymblaid. Mae gan bawb hawl i deimlo'n ddiogel yn ei gartref ac yn ei gymuned. Pan fydd bygythiad i'r diogelwch hwnnw, dylai'r rheini sy'n gyfrifol wynebu ymateb cyflym ac effeithiol. Rydym yn dibynnu ar y system cyfiawnder troseddol i roi'r ymateb hwnnw, sef cosbi troseddwyr, diogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn ymdrin â phob un o'r tair blaenoriaeth hyn, gan egluro sut y bydd fframwaith dedfrydu deallus, ynghyd ag ailsefydlu mwy effeithiol, yn ein galluogi i dorri'r cylch o droseddu a charchar sy'n creu dioddefwyr newydd bob diwrnod. Er bod y gyllideb ar gyfer carchardai a rheoli troseddwyr wedi cynyddu 50% yn y deng mlynedd ddiwethaf, bydd bron hanner yr holl droseddwyr sy'n oedolion a ryddheir o'r ddalfa yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Nid yw'n dderbyniol chwaith fod 75% o droseddwyr a gaiff eu dedfrydu i ddalfeydd pobl ifanc yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Os na fyddwn yn atal ac yn mynd i'r afael â throseddu gan bobl ifanc, bydd troseddwyr ifanc heddiw yn troi'n droseddwyr cyson a pharhaus y dyfodol.

Mae llawer o waith i'w wneud mewn system cyfiawnder troseddol y mae cymaint o angen ei diwygio. Rwyf yn derbyn yn llawen fod rhai cyflawniadau wedi bod ochr yn ochr â'r methiannau. Paratowyd y ffordd ar gyfer sefydlu'r cynllun peilot cyntaf ar gyfer talu yn ôl canlyniadau, yng ngharchar Peterborough. Cyflwynwyd mesurau newydd i wneud rhai dedfrydau cymunedol yn fwy cosbol a gweladwy. Gellir hyd yn oed ddadlau bod o leiaf rywfaint o gynnydd wedi bod yn niogelwch y cyhoedd tra oedd mwy a mwy o droseddwyr o dan glo.

Gwaetha'r modd, cafwyd bod y dull gweithredu hwn yn un trychinebus pan nad oedd lle ar ôl mewn carchardai a charcharorion yn cael eu rhyddhau'n gynnar. Y gwendid sylfaenol mewn polisi fu'r diffyg o ran canolbwyntio'n bendant ar ddiwygio ac ailsefydlu, fel bod y rhan fwyaf o droseddwyr yn dal i gyflawni mwy o droseddau yn erbyn mwy o ddioddefwyr ar ôl eu rhyddhau i fynd yn ôl i'r strydoedd.

Ni all y system cyfiawnder troseddol barhau fel ffordd ddrud o roi seibiant i'r cyhoedd oddi wrth droseddwyr, cyn iddynt ddychwelyd i gyflawni mwy o droseddau. Rydym yn bwriadu trawsnewid y gweinyddu ar gosbau yn y wlad hon i'w wneud yn fwy cadarn a chredadwy. Bydd carchardai'n troi'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a diwydrwydd, yn hytrach na segurdod gorfodol. Bydd mwy o ddefnydd o waith trwm, di-dâl fel rhan o ddedfryd gymunedol ochr yn ochr â'r defnydd o dagio a chyrffywiau, a gyflawnir yn fuan ar ôl dedfrydu. Lle y mae dirwy'n ddedfryd synhwyrol, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar orfodi a chasglu. Byddwn yn rhoi pwyslais mwy o lawer ar ddigolledu dioddefwyr troseddau.

Byddwn yn treialu o leiaf chwe rhaglen ailsefydlu newydd, a ddarperir ar sail talu yn ôl canlyniadau. Bydd darparwyr yn cael eu talu i ostwng aildroseddu, gan ariannu hynny yn y tymor hir drwy'r arbedion i'r trethdalwr a ddisgwylir o'r

dull gweithredu newydd hwn. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr annibynnol, gyda chymorth buddsoddi moesegol, yn cefnogi'r camau cynnar yn y chwyldro hwn mewn ailsefydlu. Ni ddylid cyfyngu egwyddorion talu yn ôl canlyniadau i'r sectorau preifat a gwirfoddol. Byddwn yn treialu ffyrdd i bartneriaethau lleol allu cymryd rhan, a'r rheini'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn cydweithio â'r Adran Iechyd i ddargyfeirio mwy o'r troseddwyr llai difrifol sydd â salwch meddwl a dibyniaeth ar gyffuriau i driniaeth yn hytrach na'r carchar, ar yr amod na fydd perygl i ddiogelwch y cyhoedd. Dylai troseddwyr sy'n wladolion tramor gael eu hallgludo ar ddiwedd eu dedfryd, oni bai fod ganddynt hawl gyfreithiol i aros yma. Rydym yn ymchwilio i ganfod sut y gallai cosbau i'r troseddwyr hyn gynnwys camau i'w symud ar unwaith, yn hytrach na'u carcharu yma ar draul y trethdalwr.

Mae ein diwygiadau mewn dedfrydu wedi'u seilio ar yr angen am fwy o eglurder a synnwyr cyffredin, gan ategu egwyddorion annibyniaeth farnwrol a'r angen i weld bod cyfiawnder wedi'i wneud. Byddwn yn symleiddio ac yn lleihau crynswth mawr o ddeddfwriaeth. Drwy gael dedfrydu symlach ynghyd â mwy o dryloywder yn ein llysoedd ceir mwy o gysondeb a thegwch a bydd yn haws i ddioddefwyr a'r cyhoedd ddeall natur y dedfrydau a roddir gan y llysoedd.

Er mwyn osgoi ansicrwydd, hoffwn nodi hefyd beth **nad** ydym yn ei wneud. Ni fyddwn yn rhoi diwedd ar ddedfrydau byr, a fydd yn parhau'n offeryn pwysig i ynadon, yn enwedig ar gyfer aildroseddwyr cyson sydd heb ymateb i gosbau cymunedol neu ddirwyon. Yn sicr, ni fyddwn yn arbed lladron, bwrgleriaid a'r rheini sy'n defnyddio cyllyll rhag dedfrydau o garchar. Ni fyddwn yn gadael i'n carchardai lenwi fel nad oes ynddynt le ar ôl ac ni fyddwn yn cyflwyno unrhyw gynlluniau rhyddhau cynnar.

Credaf ei bod yn briodol galw'r diwygiadau hyn yn rhai radicalaidd ac ymarferol. Er hynny, ffolineb fyddai edrych arnynt ar eu pen eu hunain. Maent yn sefyll ochr yn ochr â newidiadau yn y Swyddfa Gartref i greu mwy o atebolrwydd i ddinasyddion ynghylch plismona lleol; diwygiadau hanesyddol yn y system les gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i hybu cyflogaeth a gostwng yn sylweddol nifer yr aelwydydd sydd heb waith; a gwaith yn yr Adran Addysg i weld sut mae ymyrraeth gynnar ym mywydau plant sydd yn y perygl mwyaf yn gallu ei gwneud yn llai tebygol iddynt ddilyn llwybrau troseddol. Byddwn yn seilio ein cynlluniau ar yr un ddealltwriaeth sy'n ysgogi diwygiadau ar draws Llywodraeth: cynyddu cystadleuaeth; datganoli rheolaeth; hyrwyddo tryloywder; cryfhau atebolrwydd; a thalu yn ôl canlyniadau. Byddwn yn gwneud defnydd o sgiliau'r sector preifat a chymdeithas sifil, yn ogystal â galluogi cyrff y sector cyhoeddus i gystadlu mewn marchnadoedd newydd.

Mae ein cynlluniau'n dangos newid llwyr o bolisïau drud ac aflwyddiannus y gorffennol. Eu pwrpas yw darganfod beth sy'n gweithio – y dulliau cosbi ac ailsefydlu sy'n llwyddo i ostwng troseddu drwy leihau nifer y troseddwyr. Credaf eu bod yn cynnig gweledigaeth bendant ar gyfer cosbau mwy effeithiol, mwy o gamau i wneud iawn, a thrwy dorri'r cylch o droseddu, mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagymadrodd: diwygio sylfaenol ac ymarferol** | **5** |
| Crynodeb o'r penodau | 9 |
| **1. Cosbi a thalu'n ôl** | **14** |
| Bydd carchardai'n troi'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a diwydrwydd | 14 |
| Dedfrydau cymunedol sy'n cosbi troseddwyr ac yn gwneud iddynt dalu'n ôl i gymdeithas ac i'r trethdalwr | 17 |
| Bydd troseddwyr yn gwneud mwy o iawn ariannol â dioddefwyr a'r trethdalwr | 20 |
| Bydd dioddefwyr yn ymwneud â chyfiawnder troseddol ar eu telerau hwy | 21 |
| **2. Ailsefydlu troseddwyr er mwyn gostwng troseddu** | **24** |
| Dull integredig newydd o reoli troseddwyr | 25 |
| Ailsefydlu troseddwyr: helpu troseddwyr i roi'r gorau i gyffuriau am byth | 27 |
| Ailsefydlu troseddwyr: gwneud iddynt dalu eu ffordd | 32 |
| Rheoli troseddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl | 36 |
| **3. Talu yn ôl canlyniadau** | **38** |
| Cynllunio'r model talu yn ôl canlyniadau | 39 |
| Talu darparwyr yn ôl canlyniadau | 44 |
| Diwygio gwasanaethau | 46 |
| **4. Diwygio dedfrydu** | **49** |
| Fframwaith dedfrydu symlach y mae'n haws i lysoedd ei weithredu ac i'r cyhoedd ei ddeall | 49 |
| Gwneud gwell defnydd o ddedfrydau carcharol a chymunedol i gosbi troseddwyr a gwella diogelwch cyhoeddus | 52 |
| Dedfrydu sy'n well o ran ategu ein nodau ar gyfer ailsefydlu gwell a gwneud mwy o iawn â dioddefwyr a chymdeithas | 57 |
| **5. Cyfiawnder ieuenctid** | **67** |
| Atal troseddu gan bobl ifanc | 67 |
| Dedfrydu effeithiol ar gyfer troseddwyr ifanc | 70 |
| Ariannu cyfiawnder ieuenctid a thalu yn ôl canlyniadau | 72 |
| Gwella tryloywder ac atebolrwydd yn y system cyfiawnder ieuenctid | 75 |

**6. Gweithio gyda chymunedau i ostwng troseddu** **77**
Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 77
Diwygio'r llysoedd i roi cyfiawnder mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau 78
**7. Ymgynghori** **87**
**Atodiad A – Amserlen cyflawni** **88**
**Atodiad B – Rhestr lawn o gwestiynau ymgynghori** **89**

# Rhagymadrodd: diwygio sylfaenol ac ymarferol

## Yr achos dros newid

1. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer newidiadau sylfaenol yn y system cyfiawnder troseddol.

2. Mae'r diwygiadau hyn yn sylfaenol ac yn angenrheidiol. Er gwaethaf y gwariant mwyaf erioed a'r boblogaeth uchaf erioed mewn carchardai nid ydym yn cyflawni'r hyn sy'n wirioneddol bwysig: gwell diogelwch cyhoeddus drwy gosbau mwy effeithiol sy'n ei gwneud yn llai tebygol i droseddwyr aildroseddu dro ar ôl tro.

3. Bydd y newidiadau hyn yn ceisio torri'r cylch dinistriol o droseddu ac yn golygu y bydd mwy o droseddwyr yn gwneud iawn â dioddefwyr a chymunedau am y niwed y maent wedi'i achosi.

4. Ni allwn gyflawni'r trawsnewid hwn ar ein pen ein hunain. Yn genedlaethol, mae ein cynlluniau wedi'u hategu gan newidiadau ar draws Llywodraeth, o ddiwygio sylfaenol mewn plismona i newidiadau sylfaenol yn y gwasanaeth iechyd. Mae hon yn rhaglen ddiwygio gyffrous, ac rydym am i bawb fod yn rhan ohoni. Yn y pen draw, pobl leol, nid llywodraeth ganolog, sy'n gwybod orau beth a wnaiff weithio yn eu hardal. Rhaid i ni wneud defnydd o'r wybodaeth hon er lles y cyhoedd yn gyffredinol.

5. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn rhyddhau rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr lleol o reolaeth ganolog. Byddwn yn gwneud defnydd o arbenigedd pawb sy'n gallu cyfrannu, pa un a ydynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu mewn mannau eraill. Wrth wneud hynny, byddwn yn creu chwyldro mewn ailsefydlu a fydd yn newid y cymunedau hynny y mae eu bywyd yn dioddef oherwydd troseddu.

## Beth sydd wedi mynd o'i le

6. Mae gan gymdeithas hawl i ddisgwyl y caiff troseddwyr eu cosbi'n effeithiol. Er hynny, y peth mwyaf amlwg yng nghyd-destun diwygio diweddar fu'r cynnydd yn y niferoedd mewn carchardai yn hytrach na chamau yn erbyn aildroseddu . Mae'r niferoedd mewn carchar wedi dyblu bron er 1993. Talwyd yn ddrud am y cynnydd cyflym ac, er gwaethaf rhaglen adeiladu gostus a pharhaus, roedd y system garchardai wedi'i gorymestyn gymaint ar brydiau fel bod carcharorion yn cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu a'r llysoedd. Yn y diwedd, cyflwynwyd cynllun i ryddhau carcharorion o'r carchar yn gynnar er mwyn lleddfu'r pwysau ar yr ystad carchardai.

7. Rhoddwyd llawer o garcharorion dan glo am gyfnod byr heb fawr o ymdrech i'w hailsefydlu. Nid yw'n syndod i lawer ohonynt ddychwelyd i fywyd o droseddu ar ôl eu rhyddhau, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod bron 50% o droseddwyr a ryddheir o'r carchar yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Yn gyffredinol, treuliodd un ym mhob pump o droseddwyr rywfaint o amser yn y ddalfa yn y flwyddyn ar ôl eu rhyddhau

o'r carchar neu dechrau dedfryd gymunedol. Roedd bron tri chwarter o'r rheini a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa neu a ddechreuodd ar orchymyn cymunedol yn chwarter cyntaf 2000 wedi'u cael yn euog eto o gyflawni trosedd arall o fewn naw mlynedd.

### Pam y mae hyn wedi digwydd

8. Mae ymagwedd "Whitehall sy'n gwybod orau" wedi mygu arloesedd ar lefel genedlaethol a lefel leol. Nid yw cosbau wedi rhoi digon o bwyslais ar wneud iawn â dioddefwyr. Mae rhai o'n problemau mwyaf dybryd yn aros heb eu datrys. A chymryd un enghraifft, cododd y cyfraddau aildroseddu ar gyfer dedfrydau byr o garchar o lai na 12 mis o 58% yn 2000 i 61% yn 2008.

9. Yn ôl amcangyfrif gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mae costau cymdeithasol ac economaidd yr aildroseddu gan y rheini a ryddheir o ddedfrydau byr yn unig rhwng £7 biliwn a £10 biliwn y flwyddyn.

10. Mae nifer cymharol fach o droseddwyr tra chyson yn gyfrifol am gyfran anghyfartal o droseddau. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod grŵp o tua 16,000 o droseddwyr gweithredol ar unrhyw adeg benodol, a phob un ohonynt wedi cael mwy na 75 o gollfarnau blaenorol. Ar gyfartaledd maent wedi bod yn y carchar 14 o weithiau, am lai na 12 mis fel arfer, ac wedi cael naw dedfryd gymunedol a 10 dirwy. Mae'r troseddwyr hyn yn achosi niwed aruthrol i fywydau dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith sy'n byw'n agos iddynt. Ni fyddwn yn gadael i hyn fynd ymlaen.

11. Mae dedfrydau byr o garchar yn opsiwn hollbwysig o hyd i lysoedd, yn enwedig ar gyfer y troseddwyr mwyaf mynych sy'n methu ag ymateb i gosbau eraill. Yn ogystal â hynny, mae tystiolaeth gynyddol bod dedfrydau cymunedol sy'n cael eu gorfodi'n briodol sy'n cyfuno cosb, talu'n ôl ac ailsefydlu yn gallu bod yn ymateb effeithiol. Yn 2007, roedd yr aildroseddu gan y troseddwyr hynny a ddechreuodd ar orchmynion cymunedol yn 7% yn is nag ar gyfer troseddwyr tebyg a oedd wedi cwblhau dedfrydau byr o garchar.

12. Mae hyder wedi'i danseilio gan y ffaith nad yw dedfrydau cymunedol, a rhai dan y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn enwedig, yn cael eu cwblhau'n briodol weithiau. Yn 2008/09 roedd chwarter y troseddwyr ar orchmynion cymunedol neu ar drwydded heb gwblhau eu dedfryd o ganlyniad i dorri amodau'r gorchymyn neu'r drwydded dan sylw. Er bod y rhan fwyaf o orfodi'n foddhaol, mae'r gyfradd annerbyniol hon ar gyfer torri amodau'n fygythiad i ddiogelwch cyhoeddus ac yn golygu bod cyfle wedi'i golli i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynharach.

13. Drwy ddull gweithredu o'r brig i lawr canolbwyntiwyd ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau. Aseswyd carchardai a gwasanaethau prawf yn ôl a oeddent yn cyrraedd targedau amryfal ac a oeddent wedi cydymffurfio â gofynion canolog manwl. Ni roddwyd digon o sylw i ganfod a oeddent yn sicrhau'r canlyniad iawn i'r cyhoedd a chymunedau.

14. Roedd deddfau newydd yn cael eu cynnig yn rheolaidd fel ateb i'r problemau hyn. Yn hytrach na gwella'r sefyllfa, y canlyniad yw fframwaith dedfrydu sy'n rh y gymhleth, yn ddrud ac yn cymryd amser i'w ddehongli a'i weinyddu, ac sy'n anodd i'r cyhoedd ei ddeall. Mae angen i ni wneud mwy o newidiadau yn y gyfraith i unioni hyn, ond dim ond drwy newid yr hyn a gyflawnir ar lawr gwlad y ceir canlyniadau gwell.

### Egwyddorion ein diwygiadau arfaethedig

15. Er mwyn datrys y problemau hyn, rhaid wrth ddull gweithredu hanfodol wahanol. Ein prif amcan yw gwneud y cyhoedd yn fwy diogel drwy dorri'r cylch o droseddu. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn egluro sut yr ydym yn bwriadu cyflawni hyn, ar sail pedair egwyddor:

    - diogelu'r cyhoedd;
    - cosbi ac ailsefydlu troseddwyr;
    - tryloywder ac atebolrwydd;
    - datganoli.

16. Mae cwtogi ar droseddu a sicrhau diogelwch cyhoeddus wrth wraidd ein strategaeth. Byddwn bob amser yn darparu digon o leoedd mewn carchardai ar gyfer troseddwyr difrifol a pheryglus, a byddwn yn parhau â'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd dibynadwy i reoli risg pan gaiff y troseddwyr hynny eu rhyddhau i'r gymuned.

17. Cyn hir bydd y Llywodraeth yn disgrifio dull newydd o gwtogi ar droseddu wrth gyhoeddi Strategaeth  Droseddu ar ddechrau 2011. Bydd hon yn cynnwys ein cynlluniau i drawsnewid y ffordd o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn adeiladu ar sail y newid sylfaenol mewn atebolrwydd lleol dros droseddu a phlismona a geir drwy gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig, a fydd yn atebol i'r cyhoedd drwy'r blwch pleidleisio. Bydd y diwygiadau hyn, ochr yn ochr â'r rheini sydd wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd hwn, yn ein helpu i gwtogi ar droseddu a gwneud y cyhoedd yn fwy diogel. Rhaid cosbi troseddwyr yn briodol, ond rhaid eu hailsefydlu'n briodol hefyd i'w hatal rhag cyflawni mwy o droseddau.

18. Cyflawnir cyfran sylweddol o droseddau gan droseddwyr sydd â phroblemau lluosog. Mae tystiolaeth yn dangos i ni fod:

    - 64% o garcharorion newydd eu dedfrydu wedi rhoi gwybod iddynt ddefnyddio cyffur yn ystod y cyfnod o bedair wythnos cyn mynd i'r ddalfa (30% heroin, 28% crac cocên);[1]
    - 44% o droseddwyr a aseswyd yn 2008 yn rhai a oedd â phroblemau ynghylch camddefnyddio alcohol a allai fod wedi galw am driniaeth.[2]

---

[1] Compendium of reoffending statistics and analysis, cyhoeddwyd fis Tachwedd 2010, ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/compendium-reoffending.htm.

19. Mewn astudiaeth ddiweddar o garcharorion[3] cafwyd hefyd fod:
    - 37% o garcharorion wedi datgan y bydd arnynt angen cymorth i ddod o hyd i le i fyw pan gânt eu rhyddhau o'r carchar;
    - 12% wedi dweud bod ganddynt salwch meddwl neu iselder fel salwch hirsefydlog, tra dywedodd 20% fod arnynt angen cymorth â phroblem iechyd emosiynol neu feddyliol;
    - 24% wedi dweud iddynt gael eu derbyn i ofal fel plentyn;
    - bron hanner (47%) wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau;
    - 13% wedi dweud nad ydynt erioed wedi bod â swydd â chyflog.

20. Mae hyn yn amlygu rhai o'r ffactorau pwysicaf sy'n gysylltiedig â throseddu yn ogystal â maint a graddfa'r broblem. Rhaid i ni fynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar gyffuriau, y salwch meddwl a'r addysg wael sy'n hybu ymddygiad troseddol.

21. Byddwn yn darparu gwybodaeth well fel y bydd perfformiad gwasanaethau lleol yn fwy tryloyw. Bydd hyn yn galluogi'r cyhoedd i ddal gwasanaethau'n atebol ac yn caniatáu i ddarparwyr eraill gyflwyno'r achos dros wneud pethau'n wahanol.

22. Byddwn yn dangos bod newid llwyr yn dilyn y tueddiadau yn y gorffennol at ffrwyno a chanoli drwy ymrwymo'n glir i ddatganoli. Byddwn yn rhoi mwy o ryddid i weithwyr proffesiynol y rheng flaen o ran y ffordd y byddant yn rheoli troseddwyr. Bydd ardaloedd lleol yn canolbwyntio ar y troseddwyr sy'n achosi'r problemau mwyaf yn eu cymunedau. Bydd llai o dargedau i ddarparwyr a llai o gyfarwyddo ynghylch y ffordd y mae gwahanol asiantaethau'n cydweithio.

23. Bydd ein dull o ddatganoli'n golygu symud oddi wrth wasanaethau wedi'u rheoli'n ganolog gan y sector cyhoeddus yn bennaf, tuag at system fwy cystadleuol sy'n gwneud defnydd o'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r arloesedd mewn set fwy eang o lawer o gyrff ym mhob un o'r sectorau.

### Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y dyfodol

24. Bydd y diwygiadau arfaethedig sydd wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd hwn yn golygu newidiadau arwyddocaol.

25. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i chwarae ei rhan wrth leihau gwariant er mwyn adfer twf economaidd yn y wlad. Bydd ein cynigion yn cyflawni hyn drwy ganolbwyntio i fwy o raddau ar ddiogelu'r

---

[2] A compendium of Research and Analysis on the Offender Assessment System, 2006–2009, cyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2009.

[3] O sampl o 1,435 o garcharorion ar adeg eu derbyn a gafodd eu dedfrydu i'r carchar am gyfnodau o un mis i bedair blynedd, yng Nghymru a Lloegr, yn 2005/06. Compendium of reoffending statistics and analysis, cyhoeddwyd fis Tachwedd 2010, ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/compendium-reoffending.htm.

cyhoedd drwy ailsefydlu troseddwyr a'u troi oddi wrth fywyd o droseddu. Dylai hyn arwain at gyflawni llai o droseddau'n gyffredinol, gan atal y cynnydd anghynaliadwy ym mhoblogaeth y carchardai a sicrhau gostyngiad yn y pen draw ym maint yr arian a gaiff ei wario ar y system cyfiawnder troseddol. Bydd mwy o dalu'n ôl i ddioddefwyr a chymunedau a bydd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu'n well.

26. Oherwydd hyn bydd cymunedau lleol yn fwy diogel. Ar gyfer y rhai tlotaf mewn cymdeithas sy'n dioddef fwyaf oherwydd troseddu, bydd yn golygu llai o ofid oherwydd caethiwed i gyffuriau a'r troseddu lefel isel sy'n mynd law yn llaw â hynny. Dylid cael llai o droseddau ac, felly, llai o ddioddefwyr.

27. Dylai'r diwygiadau arwain at well canlyniad i ddioddefwyr, lle bydd mwy ohonynt yn cael ad-daliad ariannol uniongyrchol gan droseddwyr. Byddant yn cael budd o wasanaethau y telir amdanynt yn uniongyrchol o bocedi troseddwyr. Byddant yn cael cynnig cyfleoedd yn amlach i roi datganiad personol i'r llys ac i gymryd rhan mewn dulliau cyfiawnder adferol.

28. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cynnig cyfle o'r math a geir unwaith ym mhob cenhedlaeth i ddarparwyr newydd ym mhob sector weithio ochr yn ochr â staff yn y system cyfiawnder troseddol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yn hytrach na'u bod yn gweithredu dan reolaeth ganolog fanwl, rydym am ddatgloi proffesiynoldeb, arloesedd a brwdfrydedd yr arbenigwyr o bob cefndir sydd am wneud eu strydoedd yn fwy diogel a'u trefi a dinasoedd yn lleoedd gwell i fyw.

29. Gall troseddwyr ddisgwyl cael cosbau caled, mwy effeithiol, a bydd carchardai'n troi'n lleoedd i ddysgu am y cysylltiad rhwng gweithio'n galed a chael gwobr, ac i wneud iawn â dioddefwyr. Ar gyfer y rheini yn y gymuned bydd yn golygu cosbau mwy pendant a thrwyadl sy'n eu gorfodi i ad-dalu eu dyledion i gymdeithas. Bydd hefyd yn rhoi mwy o sylw i ailsefydlu, fel y bydd mwy o gyfle gan droseddwyr sy'n ymrwymo i ddiwygio i ddychwelyd i gymdeithas fel dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith.

30. Drwy wneud hyn byddwn yn adfer ymddiriedaeth, yn cyflenwi cosbau mwy effeithiol, yn gwella diogelwch cyhoeddus ac yn dechrau torri'r cylch troseddu. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn disgrifio'n fanwl sut byddwn yn dechrau ar y dasg hollbwysig hon.

## Crynodeb o'r penodau

### Cosbi a thalu'n ôl

31. Dylai troseddwyr wynebu'r cosbau cadarn ac ymestynnol y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl. Rhaid wynebu canlyniadau am dorri'r gyfraith. Mae gwaith caled i droseddwyr wrth wraidd ein cynlluniau i wneud cosbau'n fwy trwyadl. Yn fwyfwy, bydd carcharorion yn wynebu'r ddisgyblaeth lym o weithio oriau rheolaidd. Mae hyn wedi bod yn absennol o gyfundrefnau carchardai am gyfnod rhy hir. Rhaid i

ddedfrydau cymunedol fod yn galetach ac yn ddwysach, gyda chymunedau lleol yn elwa'n uniongyrchol o waith caled gan droseddwyr.

32. Rhaid i'n diwygiadau arwain hefyd at well bargen i ddioddefwyr. Byddwn yn cymell llawer mwy o ddefnydd o orchmynion digolledu ac yn ymestyn y cynllun gordal dioddefwyr fel y bydd mwy o droseddwyr yn gwneud iawn ariannol. Byddwn yn sicrhau bod troseddwyr yn gwneud iawn am eu troseddau ac yn cymryd gwell camau i gywiro'r niwed y maent wedi'i wneud i ddioddefwyr a chymdeithas gyfan.

33. Mae Pennod 1 yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- cyflwyno 'carchardai gweithio' lle mae carcharorion yn gorfod gweithio wythnos waith lawn;
- mwy o ddefnydd o gyrffywiau caled a thagiau electronig;
- gwneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn fwy dwys ac uniongyrchol;
- creu dyletswydd ar ddedfrydwyr i ystyried gwneud gorchymyn digolledu mewn unrhyw achos lle mae dioddefwr uniongyrchol;
- gweithredu Deddf Enillion Carcharorion fel y bydd yn ofynnol i garcharorion dalu tuag at gost gwasanaethau i ddioddefwyr.

### Ailsefydlu troseddwyr er mwyn gostwng troseddu

34. Y ffordd briodol i wella diogelwch cyhoeddus a lleihau nifer y dioddefwyr yw diwygio troseddwyr er mwyn gostwng aildroseddu. Byddwn bob amser yn cosbi troseddwyr yn briodol. Bydd troseddwyr sy'n cwblhau dedfrydau cymunedol neu sydd wedi'u rhyddhau o'r ddalfa yn wynebu ymateb cadarn a chydgysylltiedig gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i droseddwyr fynd i'r afael â'r problemau sydd wrth wraidd eu gweithgarwch troseddol, ond yn golygu hefyd y cânt eu dal yn gyflym a'u cosbi os byddant yn cyflawni mwy o droseddau.

35. Mae Pennod 2 yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- y gwasanaeth prawf, yr heddlu a gwasanaethau lleol eraill yn rheoli troseddwyr mewn modd integredig;
- peri i droseddwyr sy'n dibynnu ar gyffuriau roi'r gorau i gymryd cyffuriau drwy gyflwyno adeiniau adfer cyffuriau newydd a rhoi prawf ar opsiynau ar gyfer triniaeth ddwys yn y gymuned;
- dysgu'r gwersi o'r dull o reoli troseddwyr sy'n fenywod a'u cymhwyso'n fwy cyffredinol;
- gwneud troseddwyr yn gymwys i gael mynediad i'r Rhaglen Waith i wella'r cyfleoedd iddynt gael cyflogaeth onest;
- cydweithio â'r Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref i dreialu a chyflwyno gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio ar gyfer troseddwyr sydd â salwch meddwl.

### Talu yn ôl canlyniadau

36. Mae symiau sylweddol o arian cyhoeddus wedi'u gwario ar ailsefydlu troseddwyr heb ddal gwasanaethau'n atebol mewn modd priodol am y canlyniadau y maent yn eu sicrhau. Byddwn yn mabwysiadu dull newydd o weithredu lle bydd darparwyr yn cael eu talu fwyfwy yn ôl y canlyniadau y maent yn eu cael wrth ostwng aildroseddu.

37. Diwygiad radicalaidd yw hwn a fydd yn arwain at ddatganoli. Byddwn yn rhoi i ddarparwyr y rhyddid y mae ei angen i arloesi, yn rhoi mwy o ddisgresiwn iddynt er mwyn mynd â'r maen i'r wal, ac yn agor y farchnad i ddarparwyr newydd o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol. Erbyn 2015 byddwn wedi cymhwyso egwyddorion y dull hwn o weithredu at yr holl ddarparwyr.

38. Mae Pennod 3 yn egluro sut byddwn yn gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y ddwy flynedd nesaf drwy'r canlynol:

    - sefydlu o leiaf chwe phrosiect newydd ar gyfer talu yn ôl canlyniadau a fydd yn cynnwys cyfran sylweddol o'r boblogaeth o droseddwyr;
    - lleihau rheolaeth ganolog uniongyrchol fel bod gan weithwyr proffesiynol y rheng flaen y rhyddid y mae ei angen i arloesi o ran y modd y maent yn gweithio gyda throseddwyr;
    - cyhoeddi strategaeth gystadleuaeth gynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau carchardai a phrawf ym Mehefin 2011.

### Diwygio dedfrydu

39. Rhaid i'r fframwaith dedfrydu roi ystod o opsiynau i lysoedd i gosbi ac ailsefydlu troseddwyr a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Nid yw'r fframwaith dedfrydu wedi datblygu mewn modd trefnus ac oherwydd hyn mae'n rhy gymhleth, yn anodd ei ddehongli a'i weinyddu, ac yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall. Mae angen i ni wneud gwell defnydd o ddedfrydau carcharol a chymunedol er mwyn cosbi troseddwyr a gwella diogelwch cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, mae angen i ni sicrhau bod dedfrydu'n ategu ein nodau ar gyfer ailsefydlu gwell a mwy o dalu'n ôl i ddioddefwyr a chymdeithas.

40. Mae Pennod 4 yn disgrifio ein cynigion i ddiwygio'r dedfrydu ar oedolion fel y byddwn yn gwneud y canlynol:

    - symleiddio'r fframwaith dedfrydu a lleihau elfennau yn y gyfraith sy'n cyfyngu disgresiwn barnwrol;
    - sicrhau bod troseddwyr difrifol a pheryglus yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod y risg sy'n gysylltiedig â hwy wedi'i leihau drwy ddefnydd priodol o'r carchar a thrwy'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd;
    - sicrhau ymatebion effeithiol i droseddau â chyllyll fel bod pob oedolyn sy'n cyflawni trosedd gan ddefnyddio cyllell yn gallu disgwyl cael ei anfon i'r carchar, a throseddwyr difrifol yn gallu disgwyl dedfryd hir. Ar gyfer troseddwyr ifanc, bydd dedfryd o garchar hefyd yn briodol ar gyfer troseddau difrifol;

- neilltuo Dedfrydau Amhenodol i Ddiogelu'r Cyhoedd ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol, a diwygio'r prawf rhyddhau a ddefnyddir gan y Bwrdd Parôl i gael cydbwysedd gwell. Bydd hyn yn fodd i ganoli cosbau amhenodol ar y rheini y mae'n amlwg eu bod yn peri risg difrifol iawn o achosi niwed yn y dyfodol;
- newid gorchmynion cymunedol i roi mwy o ddisgresiwn i ddarparwyr i oruchwylio troseddwyr a sicrhau'r gostyngiad gorau mewn aildroseddu;
- annog defnyddio cosbau ariannol a gwella'r casglu arnynt fel y bydd troseddwyr yn ad-dalu mwy o arian.

### Cyfiawnder ieuenctid

41. Nid yw'n dderbyniol bod 74% o droseddwyr a ddedfrydir i ddalfeydd pobl ifanc a 68% o bobl ifanc sy'n cwblhau dedfrydau cymunedol yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Mae atal a mynd i'r afael â throseddu gan bobl ifanc yn dasg hanfodol er mwyn atal troseddwyr ifanc rhag troi'n droseddwyr cyson a pharhaus y dyfodol.

42. Byddwn yn mabwysiadu dull o weithredu sy'n rhoi mwy o bwyslais o lawer ar dalu'n ôl i ddioddefwyr, ar dalu yn ôl canlyniadau, ac ar ddatganoli mwy o gyfrifoldeb i gymunedau lleol am atal a mynd i'r afael â throseddau ieuenctid.

43. Mae Pennod 5 yn disgrifio sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:
    - atal mwy o bobl ifanc rhag troseddu a'u troi oddi wrth fywyd o droseddu, gan gynnwys camau i symleiddio gwarediadau y tu allan i'r llys;
    - diogelu'r cyhoedd a sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i beri i droseddwyr ifanc dalu'n ôl i ddioddefwyr ac i'w cymunedau;
    - sicrhau defnydd effeithiol o ddedfrydu ar gyfer troseddwyr ifanc;
    - rhoi cymhellion i bartneriaid lleol i ostwng troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc drwy ddefnyddio modelau talu yn ôl canlyniadau;
    - datblygu llywodraethu mwy effeithiol drwy ddileu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ardaloedd lleol.

### Gweithio gyda chymunedau i ostwng troseddu

44. Mae rôl hollbwysig i'r heddlu a'r llysoedd, ynghyd â gwasanaethau lleol eraill fel iechyd ac addysg, wrth gydweithio â gwasanaethau carchardai a phrawf i wireddu'r chwyldro mewn ailsefydlu. Mae'r heddlu yn y rheng flaen wrth ddiogelu'r cyhoedd, ac maent yn chwarae rhan gynyddol wrth droi troseddwyr oddi wrth fywyd o droseddu. Y llysoedd yw canolbwynt y system cyfiawnder troseddol a rhaid i ni sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn wrth wella diogelwch cyhoeddus a gostwng troseddu.

45. Mae rôl cymunedau lleol yn bwysicach byth. Rydym am weld newid sylfaenol fel bod pobl leol yn chwarae rhan fwy canolog mewn cyfiawnder

troseddol. Rhaid i ni symud y ffocws o'r canol i ardaloedd lleol; creu mwy o gyfleoedd i ddarparwyr eraill gyflenwi gwasanaethau; a chynyddu tryloywder fel bod mwy o allu gan gymunedau lleol i ddal gwasanaethau'n atebol.

46. Mae Pennod 6 yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- cryfhau rôl yr heddlu o ran troi troseddwyr oddi wrth fywyd o droseddu a pharatoi ar gyfer ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau am y tro cyntaf ym Mai 2012;
- sicrhau bod llysoedd yn mynd yn fwy effeithlon ac effeithiol ac yn chwarae mwy o ran wrth ddelio â throseddwyr a gostwng troseddu;
- rhoi prawf ar effeithioldeb Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth;
- rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ardaloedd lleol;
- rhoi gwybodaeth well i gymunedau ynghylch sut y rhoddir cyfiawnder, gan wneud gwasanaethau'n fwy tryloyw ac atebol i'r cyhoedd.

### Ymgynghori

47. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn egluro gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer diwygio, ynghyd â rhai cynigion penodol ar gyfer y modd y gallwn fynd â'r maen i'r wal. Ar gyfer rhai meysydd, mae ein cynigion wedi'u disgrifio'n eithaf manwl. Ar gyfer eraill rydym yn disgrifio bwriad clir o ran polisi ac yn ymgynghori ar yr opsiynau ar gyfer cyflawni hyn. Lle mae cynigion wedi symud ymlaen ymhellach, rydym am glywed eich barn am y manteision a'r heriau a fydd yn codi wrth eu gweithredu. Gallwch roi gwybod i ni am eich barn drwy anfon e-bost at breakingthecycle@justice.gsi.gov.uk neu drwy fynd i'n gwefan yn www.justice.gov.uk.

48. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 4 Mawrth 2011. Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a gawn ac yn cyhoeddi ymateb gan egluro ein cynlluniau ym Mai 2011. Yn dilyn hynny, bydd deddfwriaeth i wneud y newidiadau angenrheidiol yn y fframwaith dedfrydu yn cael ei chyflwyno yn y Senedd cyn gynted ag y bydd amser ar gael.

49. Rydym yn cydweithio â Chynulliad Cymru i ystyried sut i symud ymlaen â'n cynlluniau yn y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru. Byddwn yn croesawu sylwadau pellach ynghylch sut y gallwn gydweithio â gwasanaethau a darparwyr yng Nghymru ar y modd y gall ein cynlluniau helpu i ostwng aildroseddu a gwella diogelwch cyhoeddus yng Nghymru.

# 1. Cosbi a thalu'n ôl

Bydd troseddwyr yn wynebu'r cosbau cadarn ac ymestynnol y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl. Rhaid i'r canlyniadau am dorri'r gyfraith fod yn ddifrifol. Mae gwaith caled i droseddwyr yn rhan hanfodol o'n cynlluniau i wneud cosbau'n fwy trwyadl. Bydd carcharorion yn wynebu'r ddisgyblaeth lym o weithio oriau rheolaidd. Mae hyn wedi bod yn absennol o gyfundrefnau carchardai am gyfnod rhy hir. Rhaid i'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned fod yn ddwysach, yn fwy uniongyrchol a chael ei orfodi'n well, gyda chymunedau lleol yn elwa'n uniongyrchol o waith caled gan droseddwyr. Byddwn yn gwneud cyrffywiau'n fwy caled er mwyn cosbi troseddwyr a rhoi seibiant i gymunedau oddi wrth eu hymddygiad troseddol.

Rhaid i'n diwygiadau arwain hefyd at well bargen i ddioddefwyr. Byddwn yn cymell llawer mwy o ddefnydd o orchmynion digolledu ac yn ymestyn y cynllun gordal dioddefwyr fel y bydd mwy o droseddwyr yn gwneud iawn ariannol. Byddwn yn sicrhau bod troseddwyr yn gwneud iawn am eu troseddau ac yn cymryd gwell camau i gywiro'r niwed y maent wedi'i achosi i ddioddefwyr a chymdeithas gyfan.

Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- troi carchardai'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a diwydrwydd;
- dedfrydau cymunedol sy'n cosbi troseddwyr ac yn gwneud iddynt dalu'n ôl i gymdeithas ac i'r trethdalwr;
- troseddwyr yn gwneud mwy o iawn ariannol â dioddefwyr a'r trethdalwr;
- dioddefwyr yn ymwneud â chyfiawnder troseddol ar eu telerau eu hunain.

## Bydd carchardai'n troi'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a diwydrwydd

Er mwyn cyflawni ein huchelgais i garchardai ddod yn lleoedd ar gyfer gwaith caled a gweithgarwch ystyrlon, byddwn yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod mwy o garcharorion yn byw mewn amgylchedd trefnus a disgybledig lle mae disgwyl iddynt weithio wythnos waith lawn;
- defnyddio arbenigedd ac arloesedd y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol i helpu i ddatblygu'r carchar ar gyfer gweithio;
- gweithredu Deddf Enillion Carcharorion mewn cysylltiad â thaliadau i gronfeydd dioddefwyr, ac ymchwilio i ffyrdd eraill o gymryd didyniadau o gyflogau carcharorion at ddibenion sy'n cynnwys gwneud iawn â dioddefwyr a chymunedau.

50. Mae'r carchar yn amddifadu troseddwr o'i ryddid ac, oherwydd hynny, dyma'r sancsiwn eithaf o hyd. Mae dedfryd o garchar yn rhoi cosb galed ac uniongyrchol. Mae'n dangos yn glir i droseddwyr fod y troseddau y maent wedi'u cyflawni'n rhai mor ddifrifol fel na ellir goddef eu

presenoldeb am gyfnod mewn cymdeithas agored. Mae'n diogelu'r cyhoedd ac yn rhoi tawelwch meddwl am fod troseddwyr wedi'u carcharu a heb allu achosi mwy o niwed. Am y rhesymau hyn bydd carchar bob amser yn ddedfryd briodol i droseddwyr difrifol a pheryglus.

51. Ni ddylai carchardai ganiatáu i droseddwyr wneud dim ond cicio'u sodlau'n ddibwrpas. Yn hytrach, dylid gweld carchardai fel lleoedd lle mae niferoedd cynyddol o garcharorion yn ymgymryd â gwaith ymestynnol ac ystyrlon.

52. Mae rhai carcharorion sy'n oedolion yn gweithio. Yng ngharchardai'r sector cyhoeddus, er enghraifft, mae 9,000 o garcharorion wedi'u cyflogi mewn gweithdai carchar, ac mae llawer mwy'n cyflawni tasgau hanfodol i helpu i redeg carchardai yn esmwyth. Serch hynny, rydym am weld mwy o garchardai'n defnyddio'r ddisgyblaeth a'r drefn sydd ynglŷn ag oriau gwaith rheolaidd i feithrin ethos gwaith caled mewn carcharorion. Dylai'r carchar fod yn lle sy'n rhoi rhan ganolog i waith fel y cyfryw yn ei gyfundrefn, lle bydd troseddwyr yn dysgu sgiliau galwedigaethol mewn amgylcheddau sydd wedi'u trefnu fel eu bod yn dyblygu amodau gweithio gwirioneddol, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol ac yn briodol.

53. Er mwyn gwireddu'r trawsnewid hwn rydym yn datblygu math newydd o garchar – y carchar gweithio. Rydym yn rhagweld, mewn carchar gweithio:

- y bydd carcharorion yn gweithio wythnos waith lawn o hyd at 40 awr;
- y bydd y gyfundrefn a'r diwrnod craidd yn canolbwyntio ar hwyluso gwaith, gan fodloni'r gofynion i sicrhau cyfundrefn ddiogel, weddus a chadarn;
- y bydd addysg wedi'i chymhwyso'n bennaf at ddysgu sgiliau i gyflawni gwaith yn effeithiol a, hyd y gellir, dysgu sgiliau i garcharorion a fydd yn rhoi mwy o allu iddynt gael swydd ar ôl eu rhyddhau.

54. Gallai hyn weithio'n wahanol ar gyfer gwahanol fathau o garcharorion. Yn achos carcharorion a gafodd ddedfryd hwy, byddai'n sicrhau'n bennaf eu bod yn rhoi rhywbeth sydd o werth yn hytrach na bod yn faich ar y wladwriaeth yn unig. Bydd o gymorth hefyd i roi trefn gliriach i'w dedfryd. Yn achos carcharorion sydd ar fin gadael y carchar, dylai fod o gymorth i ddarparu'r sgiliau y mae eu hangen i fyw bywyd heb droseddu y tu allan. Gall y drefn waith arferol fod yn rhan hanfodol o hyn, ond mae'n brofiad nad yw llawer o garcharorion yn gwybod dim amdano. Mewn achosion o'r fath gellid cyfuno gwaith â phwyslais mwy ar hyfforddiant o'r tu allan ac ymgysylltu â chyflogwyr posibl er mwyn dod i wybod am swyddi neu brentisiaethau ar ôl eu rhyddhau.

55. Mewn rhai achosion, gallai'r carchar ddarparu'r gwaith. Mewn achosion eraill, gallai'r carchardai fod wedi gwneud contractau ag amryw o fathau o ddarparwyr allanol. Rydym am ei gwneud yn haws i'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol ddefnyddio eu harbenigedd ac arloesedd i ddatblygu'r carchar gweithio. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar sail y cyfraniad rhagorol gan gwmnïau fel DHL a Cisco wrth ddarparu gwaith a hyfforddiant mewn carchardai.

**Carchardai fel lleoedd ar gyfer gwaith caled a diwydrwydd**

Mae rhai enghreifftiau o garcharorion sy'n gweithio'n galed mewn amgylchedd disgybledig. Yng Ngharchar Manceinion mae bron 60 o garcharorion yn awr yn gweithio hyd at 40 awr yr wythnos mewn golchdy diwydiannol a gweithdy argraffu. Yng Ngharchar Ranby mae carcharorion yn gweithio tair sifft mewn gweithdy sy'n cynhyrchu nwyddau plastig, ac yn rhedeg 20 awr y diwrnod.

Mae rhai carchardai hefyd mewn partneriaethau â'r sector preifat. Mewn menter ar y cyd yng Ngharchar Kirkham â Calpac UK, mae tua 40 o garcharorion yn gweithio 37.5 awr yr wythnos yn pecynnu bwyd. Yng Ngharchar Ford, mae Travis Perkins yn rhedeg gweithdy â 30 o garcharorion sy'n ailwampio cyfarpar.

Bydd ein cynigion yn adeiladu ar sail yr enghreifftiau prin hyn, a bydd mwy o garcharorion yn gweithio'n galed ym mhob rhan o'r system carchardai .

56. Byddwn yn cyflwyno wythnos waith lawn mewn mwy o garchardai wrth i ni ddatblygu'r farchnad. Er mwyn gwireddu hyn, bydd angen i ni oresgyn y rhwystrau sy'n atal darparwyr annibynnol rhag ymwneud â diwydiant mewn carchardai. Byddwn yn ei gwneud yn haws iddynt weithio mewn partneriaeth â charchardai i ddarparu gwaith a hyfforddiant mewn ffyrdd nad ydynt yn ychwanegu cost gyffredinol.

57. Wrth fynd i bartneriaeth â'r sector preifat ar hyn o bryd, rhaid i bob carchar sicrhau nad yw'r gwaith arfaethedig yn golygu cystadleuaeth annheg ac nad yw'n lleihau nifer y swyddi sydd ar gael i ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith. Byddwn yn cymhwyso'r egwyddor hon at garchardai gweithio, yn ogystal ag ystyried pa fesurau pellach a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau y caiff swyddi eu diogelu yn yr hinsawdd economaidd anodd hon.

58. Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig i garcharorion weld bod gwaith yn ffordd i dalu'r ddyled sydd arnynt i gymdeithas ac i ddioddefwyr troseddau'n benodol. Er mwyn ategu hyn byddwn yn cyflawni'r ymrwymiad yng Nghytundeb y Glymblaid i weithredu Deddf Enillion Carcharorion 1996 mewn cysylltiad â gwneud iawn ariannol â dioddefwyr. Mae'r Ddeddf yn rhoi modd i gymryd didyniadau oddi ar garcharorion risg isel sy'n ennill cyflogau uwch wrth weithio ar drwydded cyn eu rhyddhau i'r gymuned. Rydym yn bwriadu codi tua £1 filiwn y flwyddyn o waith y carcharorion hyn tuag at wasanaethau sy'n cynorthwyo dioddefwyr. Byddwn yn dechrau cymryd y didyniadau hyn o fis Medi 2011. Yn ogystal â hynny, byddwn yn ymchwilio i ffyrdd eraill o gymryd didyniadau o gyflogau carcharorion ac yn ystyried sut y dylid eu defnyddio, gan gynnwys gwneud iawn â dioddefwyr a chymunedau.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C1.** Sut y dylem gyflawni ein nodau i wneud carchardai'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a disgyblaeth?

**C2.** Sut y dylem ddefnyddio arbenigedd ac arloesedd y sectorau preifat a gwirfoddol yn y modd gorau i helpu i ddatblygu'r carchar gweithio?

**C3.** Sut y gallwn ei gwneud yn bosibl i fwy o garcharorion wneud iawn, yn cynnwys gwneud iawn â dioddefwyr a chymunedau?

## Dedfrydau cymunedol sy'n cosbi troseddwyr ac yn gwneud iddynt dalu'n ôl i gymdeithas ac i'r trethdalwr

Er mwyn cosbi troseddwyr yn fwy effeithiol yn y gymuned rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- gwneud gorchmynion cyrffyw yn fwy llym i droseddwyr cyson er mwyn rhoi seibiant i gymunedau;
- gwneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn ddwysach ac yn fwy uniongyrchol;
- adeiladu ar sail dulliau gweithredu sy'n caniatáu i gymunedau ddylanwadu ar y math o waith a gyflawnir gan droseddwyr dan y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned.

59. Gall dedfrydau cymunedol dibynadwy a thrwyadl fod yn ffordd effeithiol hefyd i gosbi ac ailsefydlu rhai troseddwyr. Nid ydynt yn opsiwn hawdd, ond os ydym am wneud y defnydd gorau ohonynt rhaid i ni geisio eu gwneud yn fwy effeithiol a mwy trylwyr. Mae Pennod 4 yn egluro sut byddwn yn diwygio dedfrydau cymunedol, beth yw eu lle yn y fframwaith dedfrydu cyffredinol a sut byddwn yn gwella'r gorfodi arnynt. Yn yr adran hon eglurir sut byddwn yn gwneud dedfrydau cymunedol yn gosbau mwy effeithiol a thrwyadl.

### Defnydd llymach o dagio electronig

60. Mae gofynion ar gyfer cyrffywiau a chau allan yn gallu cosbi troseddwyr a chyfyngu eu rhyddid. Mae'r amodau caeth yn sicrhau bod troseddwyr yn cael eu monitro'n barhaus a'u cadw dan wyliadwriaeth fanwl, gan eu cosbi drwy gyfyngu ar eu rhyddid i symud o gwmpas. Rydym yn bwriadu adeiladu ar sail hyn a datblygu cyrffywiau sy'n llymach, yn fwy arloesol ac yn fwy effeithiol er mwyn rhoi mwy o seibiant i gymunedau lleol.

**Cyrffywiau wedi'u monitro'n electronig fel cosb effeithiol**

Mae'r gofyniad am gyrffyw mewn gorchymyn cymunedol yn gosb sy'n gosod amodau beichus ar droseddwyr. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu'r troseddwr i gyflawni mwy o droseddau, gan gynyddu diogelwch cyhoeddus. Tra bydd troseddwyr dan gyrffyw, bydd yn ofynnol iddynt fod mewn lle neilltuol ar adegau penodol yn ystod y diwrnod. Ar hyn o bryd, gall hyn fod am ddwy i 12 awr ar y tro, yn ôl dyfarniad y llys. Er enghraifft, gallai'r llys benderfynu bod rhaid i droseddwr dreulio 12 awr bob diwrnod yn ei gartref. Gellir eu targedu hefyd ar gyfnodau pan allai troseddwr fod yn fwyaf tebygol o droseddu, fel amseroedd cynnal gemau pêl-droed. Mae angen i droseddwyr ddal at reolau'r cyrffyw tra bydd y gofyniad yn para, sef hyd at chwe mis ar hyn o bryd.

61. Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr sydd dan ofyniad am gyrffyw yn cael eu monitro'n electronig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddedfryd. Cyflawnir y tagio electronig drwy osod tag am y ffêr, sy'n cadarnhau bod y troseddwr yn y lle iawn yn ystod oriau'r cyrffyw.

62. Bydd asiantaethau monitro electronig yn cymryd camau buan os byddant yn derbyn signal sy'n dangos bod y troseddwr wedi torri ei gyrffyw. Os

bydd y toriad yn llai difrifol, bydd y troseddwr yn cael rhybudd cychwynnol, ond os bydd y toriad yn fwy difrifol bydd achos am dor-amod yn ei erbyn fel y bydd yn dychwelyd i'r llys. Wedyn gallai'r llys osod cosbau llymach gan gynnwys ei gadw yn y ddalfa.

63. Cafwyd bod y dechnoleg monitro electronig yn ddull dibynadwy a manwl o wirio cydymffurfiad â gofynion cyrffyw ac mae goruchwyliaeth yn fwy cadarn o ganlyniad, gan nad oes angen i aelod staff fod yn bresennol bob amser. Yn ogystal â hynny, gall y dechnoleg roi gwybodaeth am wyliadwriaeth dros symudiadau troseddwyr sy'n neilltuol o ddefnyddiol ar gyfer rheoli troseddwyr cyson neu wella diogelwch cyhoeddus. Mae staff rhai o'r cyflenwyr offer monitro electronig wedi'u secondio i orsafoedd heddlu i'r diben hwn.

64. Rydym yn awyddus i adeiladu ar sail arloesedd lleol er mwyn gwella'r cydymffurfio â chosbau cymunedol. Mae rhai ardaloedd lleol yn gosod cyrffywiau gyda'r nos cyn sesiynau Gwneud Iawn â'r Gymuned. Mae gan eraill gynlluniau i anfon negeseuon testun i atgoffa troseddwyr pan yw eu cyrffyw ar fin dechrau. Er mwyn cymell mwy o ddefnydd o ddulliau o'r fath sydd wedi'u cychwyn yn lleol byddwn yn gwneud gwell defnydd o'r dechnoleg bresennol, yn ogystal ag ymchwilio i'r cyfle i ddefnyddio technoleg tracio â lloeren a'i chostau. Byddai hyn yn creu modd i fonitro symudiadau troseddwyr yn y gymuned yn fwy manwl ac yn cynnig cyfleoedd newydd am gosbau yn y gymuned o natur arloesol.

65. Credwn hefyd fod lle i fynd ymhellach drwy ymestyn yr oriau cyrffyw hwyaf i 16 awr y diwrnod a chyfnod hwyaf y cyrffyw o chwe mis i flwyddyn. Bydd targedu'r gofynion llymach hyn ar grwpiau priodol o droseddwyr yn helpu i wneud y cosbau hynny'n fwy llym gan leihau'r perygl i ddiogelwch cyhoeddus hefyd.

### Gwella'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned

66. Gwneud Iawn â'r Gymuned, lle mae'r troseddwr yn cyflawni gwaith di-dâl fel adfer darnau o dir diffaith ac adeiladau i'w defnyddio eto gan y cyhoedd, clirio sbwriel a dileu graffiti, yw'r gofyniad mwyaf cyffredin mewn dedfrydau cymunedol a ddefnyddir gan y llysoedd. Mae'r ddedfryd yn rhoi cosb a ffordd i wneud iawn ac yn helpu i feithrin yr arfer o wneud gwaith caled. Darperir bron naw miliwn o oriau o lafur am ddim i gymunedau bob blwyddyn ond mae angen i ni wneud mwy o lawer i sicrhau bod y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn cael ei orfodi'n drylwyr ac yn briodol.

67. Bydd cystadleuaeth i gyflenwi'r gwasanaethau'n rhan allweddol o'r camau i godi safonau. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi tri chorff i fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu cynlluniau Gwneud Iawn â'r Gymuned a byddwn yn defnyddio'r broses gystadlu i hybu ansawdd a safonau gwaith sy'n gwneud iawn â'r gymuned yn gyffredinol.

68. Bydd llysoedd yn dweud wrthym yn aml eu bod yn hoffi'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned, ond maent am weld troseddwyr yn dechrau gweithio'n gynharach ar ôl eu dedfrydu. Ein nod yw sicrhau bod y cynllun yn fwy dwys ac uniongyrchol fel ei fod yn fwy ymestynnol i'r troseddwr ac yn cael ei gyflawni cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl traddodi'r ddedfryd.

69. Byddwn yn gwirio'r ffyrdd gorau i gyflawni hyn ac yn lleihau costau drwy weithio mewn partneriaeth â mentrau cymdeithasol a diwydiannau. Byddwn yn sefydlu prosiectau Gwneud Iawn â'r Gymuned lle bydd troseddwyr di-waith yn gorfod gweithio cyfanswm oriau sy'n agosach o lawer i wythnos waith arferol. Ein nod yw rhoi hyn ar waith ledled y wlad wedi i ni ddatblygu a rhoi prawf ar fodel y credwn ei fod yn dod â buddion.

**Astudiaeth Achos Gwneud Iawn â'r Gymuned: Moss Lodge**

Mae Moss Lodge yn hen iard gludiant a nodwyd fel lle delfrydol i ganolfan amgylcheddol i'r gymuned. Gan nad oedd deiliad ar yr iard, roedd lefelau uchel o weithgareddau gwrthgymdeithasol yno a oedd yn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywydau yn y gymuned. Roedd y tir wedi'i halogi hefyd. Ar ôl ffurfio partneriaeth rhwng Cyngor St Helens a'r gwasanaeth Prawf, cytunwyd y byddai troseddwyr yn ymgymryd â'r gwaith o glirio'r safle. Nodwyd bod y prosiect yn un a fyddai'n sicrhau gwaith caled ac ymestynnol i droseddwyr, yn dod â budd i'r gymuned, yn sicrhau gwaith tra gweladwy i wneud iawn ac yn rhoi sgiliau a gwybodaeth i droseddwyr.

Cychwynnodd y prosiect yn 2005; mae troseddwyr wedi gweithio'n galed ym mhob tywydd i glirio rwbel, prysgwydd a malurion oddi ar y safle helaeth i baratoi'r lle ar gyfer tirweddu ac wedi codi ffens i ddiogelu'r safle. Maent wedi taenu symiau anferth o bridd ar y tir â rhaw i helpu i ddatrys y broblem halogi. Mae troseddwyr wedi creu llwybrau hefyd i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr anabl ac wedi cyflawni gwaith pellach i wneud y llecyn yn un dymunol i'r cyhoedd.

Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus am oddeutu pum mlynedd bellach, ac yn y cyfnod hwnnw mae gwaith caled y troseddwyr wedi trawsnewid y safle o fod yn ddarn o dir diffaith a halogedig i fod yn ardal sy'n lle diogel i blant chwarae ac ymwneud â materion amgylcheddol. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn iddo gan y gymuned leol.

70. Rydym hefyd am ehangu'r rhan sydd i'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned mewn gwneud dedfrydau cymunedol yn fwy tryloyw ac yn fwy atebol. Byddwn yn adeiladu ar sail cynlluniau peilot y Paneli Dinasyddion a'r gwefannau Gwneud Iawn â'r Gymuned sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd awgrymu prosiectau Gwneud Iawn â'r Gymuned a rhoi adborth ar waith sydd wedi'i gyflawni. Cafodd y 35 o ymddiriedolaethau prawf fwy na 1,200 o awgrymiadau y mis rhwng Ebrill a Mehefin eleni. Canolbwyntiwyd hyd yn hyn ar brosiectau a fydd yn gwella ardaloedd sydd wedi dirywio ac yn mynd i'r afael ag effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C4.** Sut y gallem dargedu gorchmynion cyrffyw llym fel y byddant mor effeithiol ag sy'n bosibl?

**C5.** Beth yw'r ffyrdd gorau i wneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn drylwyr ac yn ymestynnol?

**C6.** Sut y gall cymunedau gymryd mwy o ran mewn dylanwadu ar y math o waith a gyflawnir gan droseddwyr dan y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned?

**C7.** Sut y dylem geisio darparu'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned mewn partneriaeth â chyrff y tu allan i lywodraeth?

## Bydd troseddwyr yn gwneud mwy o iawn ariannol â dioddefwyr a'r trethdalwr

Er mwyn cynyddu'r iawn ariannol y mae troseddwyr yn ei wneud â dioddefwyr a chymunedau, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cymell mwy o ddefnydd o orchmynion digolledu, ac ymgynghori ar greu dyletswydd gadarnhaol ar ddedfrydwyr i ystyried gwneud gorchymyn digolledu os oes dioddefwr sydd wedi cael niwed neu ddifrod yn uniongyrchol;
- ymchwilio i weld ai'r model presennol ar gyfer gorfodi cosbau ariannol yw'r un mwyaf effeithiol ac a yw'n rhoi'r gwerth gorau am arian;
- ymestyn cynllun y gordal dioddefwyr er mwyn cynyddu nifer y troseddwyr sy'n cyfrannu at gost gwasanaethau i ddioddefwyr;
- fel y nodwyd uchod, gweithredu Deddf Enillion Carcharorion i gymryd didyniadau o gyflogau carcharorion i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr.

71. Rydym yn benderfynol y dylai mwy o droseddwyr wneud iawn ariannol am y niwed neu ddifrod y maent wedi'i achosi, â dioddefwyr yn uniongyrchol, ac yn fwy cyffredinol drwy gefnogi gwasanaethau i ddioddefwyr.

72. Er mwyn sicrhau bod ein diwygiadau mewn dedfrydu'n arwain at fwy o bwyslais ar gamau i wneud iawn â dioddefwyr, rydym am gymell mwy o ddefnydd o orchmynion digolledu. Drwy ddefnyddio'r rhain gall y llys orchymyn troseddwyr i wneud taliadau uniongyrchol i'r rhai sydd wedi dioddef o'u troseddau. Er mwyn cyflawni hyn rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

    - creu dyletswydd gadarnhaol ar lysoedd i ystyried gorfodi gorchymyn digolledu ym mhob achos lle mae dioddefwr wedi'i enwi;
    - annog llysoedd i ddefnyddio gorchmynion digolledu fel cosb ar eu pen eu hunain.

**Gorchmynion Digolledu**

Mae'r defnydd o Orchmynion Digolledu wedi cynyddu ond dim ond mewn lleiafrif o achosion y cânt eu defnyddio o hyd, ac yn anaml fel dedfryd annibynnol ar ei phen ei hun. Yn 2008, rhoddwyd gwerth £31.5 miliwn o orchmynion digolledu, a oedd yn gwneud iawn yn uniongyrchol â'r dioddefwyr cysylltiedig. Bwriad ein cynigion yw cymell mwy o ddefnydd ohonynt fel y byddwn yn cynyddu maint y digollediad a gaiff ei dalu i'r rheini y mae ymddygiad troseddol y troseddwr wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol.

73. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni adeiladu ar sail gwelliannau diweddar wrth orfodi cosbau ariannol. Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o wella'r gorfodi arnynt fel y ceir gwell gwerth am arian, a hynny'n cynnwys datblygu dull o dalu yn ôl canlyniadau. Mae ein dull o ymdrin â'r gorfodi ar gosbau ariannol, gan gynnwys dirwyon, wedi'i ddisgrifio ym Mhennod 4, lle'r ydym

hefyd yn egluro ein cynigion i wneud defnydd mwy cosbol o bwerau i atafaelu asedau troseddwyr.

74. Rydym hefyd am sicrhau bod cynifer o droseddwyr ag sy'n bosibl yn cyfrannu at gostau rhedeg gwasanaethau i gynorthwyo dioddefwyr. Mae eisoes yn ofynnol i droseddwyr a gafodd ddedfryd sy'n cynnwys dirwy dalu'r gordal dioddefwyr, lefi o £15 a ychwanegir at y ddirwy, a aiff at ariannu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion. Rydym yn ystyried ymestyn y gordal i gynnwys mathau eraill o ddedfryd a chynyddu'r swm a godir. Drwy ymestyn y gordal gellid sicrhau hefyd nad yw'r effaith ariannol yn disgyn yn anghyfartal ar y rheini sy'n cyflawni troseddau llai difrifol. Byddwn yn gwrthdroi dirywiad y canolfannau argyfwng trais drwy ystyried sut i ddefnyddio'r arian a godir drwy'r gordal dioddefwyr i ddarparu cyllid sefydlog, hirdymor i i'r canolfannau argyfwng trais presennol ac i sefydlu canolfannau newydd i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth.

## Bydd dioddefwyr yn ymwneud â chyfiawnder troseddol ar eu telerau hwy

Er mwyn cynnig mwy o ymgysylltu â chyfiawnder troseddol i ddioddefwyr byddwn yn gwneud y canlynol:

- rhoi cyfle i fwy o ddioddefwyr roi datganiad personol i'r llys;
- cynyddu'r defnydd o gyfiawnder adferol ar gyfer troseddau priodol, yn enwedig fel modd i wella bodlonrwydd dioddefwyr;
- defnyddio'r Papur Gwyrdd hwn fel y cam cyntaf tuag at ailystyried yn drylwyr y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion.

### Datganiad Personol Dioddefwr

75. Cyflwynwyd y Datganiad Personol Dioddefwr yn genedlaethol yn 2001 i ddarparu modd i ddioddefwyr egluro sut mae trosedd wedi effeithio arnynt, ac yn enwedig y niwed sydd wedi'i achosi gan y troseddwr. Ers cyflwyno'r cynllun, bu dryswch cyffredinol ynghylch a yw'r datganiad personol wedi'i fwriadu i helpu llysoedd i ddeall effaith trosedd penodol, i helpu asiantaethau perthnasol i asesu anghenion dioddefwyr, neu i roi cyfle i ddioddefwyr eu mynegi eu hunain. Nid yw'r dibenion hyn yn gwrthdaro o reidrwydd, ond mae diffyg eglurder ynghylch rôl y Datganiad Personol Dioddefwr wedi achosi dryswch i ddioddefwyr, llysoedd ac ymarferwyr.

76. O ganlyniad, nid yw dioddefwyr yn cael cyfle bob amser i ddefnyddio'r datganiadau ac egluro i'r llysoedd y niwed y mae'r trosedd wedi'i achosi iddynt. Yn 2009/10, dim ond 43% o ddioddefwyr a gofiai gael cynnig cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, ac roedd ymatebwyr du yn llai tebygol i raddau arwyddocaol o gofio cael y cynnig hwn nag ymatebwyr gwyn. Roedd amrywiadau arwyddocaol ledled Cymru a Lloegr: roedd 29% yn cofio cael y cynnig yn Llundain o'i gymharu â 63% yn Northumbria.

77. Byddem yn hoffi sicrhau bod dioddefwyr y mae eu hachosion yn cyrraedd llys yn cael cynnig cyfle fel arfer i wneud datganiad personol. Credwn mai'r prif bwrpas a ddylai fod iddo yw rhoi gwybodaeth i lysoedd am y niwed y mae gweithredoedd y troseddwr wedi'i achosi, i'w hystyried wrth benderfynu difrifoldeb y trosedd. Fel hyn, gall barhau'n gyson ag egwyddorion hirsefydlog ein system gyfiawnder wrthwynebol, gan ddal i ganiatáu i bawb sy'n gysylltiedig â'r achos ddeall yn llawn y niwed y mae'r troseddwr wedi'i achosi.

### Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio dulliau cyfiawnder adferol

78. Rydym wedi ymrwymo i ehangu ystod ac argaeledd dulliau cyfiawnder adferol er mwyn gwneud iawn. Cyfiawnder adferol yw'r enw a roddir ar brosesau sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr chwarae rhan bersonol mewn penderfynu sut bydd dioddefwr yn gwneud iawn. Yn aml gall hyn gynnwys gwneud iawn yn uniongyrchol. Byddai lleiafrif sylweddol o ddioddefwyr yn ystyried cwrdd â'r un sydd wedi cyflawni trosedd yn eu herbyn drwy broses cyfiawnder adferol a chofnodwyd lefelau uchel o fodlonrwydd ar gyfer y dioddefwyr hynny sy'n gwneud hynny. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r dull hwn gael effaith gadarnhaol hefyd ar y tebygolrwydd i'r troseddwr aildroseddu yn y dyfodol. Yn aml mae peri i droseddwr wynebu canlyniadau ei droseddau'n uniongyrchol yn gosb effeithiol am droseddau llai difrifol.

79. Er ei fod yn gysyniad sefydledig mewn cyfiawnder ieuenctid, mae cyfiawnder adferol i oedolion yn cael ei weld weithiau fel ôl-ystyriaeth wedi'r ddedfryd. Rydym yn edrych yn awr ar y modd y gallem newid hyn fel y bydd cyfiawnder adferol, mewn achosion priodol, yn rhan hanfodol o'r broses ddedfrydu. Yn gyntaf, mae hyn yn debygol o olygu defnyddio dulliau adferol fel dewis amgen yn lle camau cyfiawnder troseddol ffurfiol ar gyfer troseddwyr lefel isel lle mae'r troseddwr a'r dioddefwr yn cytuno ar y canlyniad, fel ymddiheuro, rhoi eitemau yn lle rhai sydd wedi'u dwyn, neu gywiro unrhyw ddifrod a achoswyd. Mae hyn yn gosb fwy effeithiol na rhybudd ar ei ben ei hun, ac mae'n adeiladu ar sail dulliau lleol sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan yr heddlu, a elwir fel arfer yn "ddatrys ar lefel y gymdogaeth".

80. Yn ail, lle mae achos llys yn debygol o arwain at ddirwy neu ddedfryd gymunedol, byddwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o'i ddefnyddio ar adeg cyhuddo. Yma, byddai cyfiawnder adferol yn cael ei roi fel rhan o warediad y tu allan i'r llys, er enghraifft, fel amod ar rybudd amodol. Byddai hyn yn gallu arwain at dalu digolledriad gan y troseddwr i'r dioddefwr, neu wneud iawn am ei drosedd mewn ffyrdd eraill a benderfynir gan y dioddefwr. Gallai hyn atal gofid i'r dioddefwr a rhoi cosb addas.

81. Yn drydydd, gellid rhoi adroddiadau i'r llys, gyda chaniatâd y dioddefwr, am gynadleddau cyfiawnder adferol a gynhelir cyn dedfrydu ar gyfer troseddwyr sy'n cyfaddef eu bod yn euog ac yn cytuno i gymryd rhan, gydag adroddiadau cyn dedfrydu. Felly gallai'r llys eu hystyried wrth benderfynu ynghylch math neu ddifrifoldeb y ddedfryd a draddodir. Mewn rhai achosion, ac ar gyfer rhai troseddau, gellid oedi dedfrydu wrth ddisgwyl cwblhau'r camau gweithredu a gytunwyd yn llwyddiannus.

### Dull newydd o gynorthwyo dioddefwyr a thystion

82. Yn gyffredinol, amcan y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn yw gwella diogelwch cyhoeddus fel y gallwn ostwng nifer y dioddefwyr yn y dyfodol. Mae mwy o ddefnydd o gyfiawnder adferol, fel y nodwyd uchod, yn gallu atal y teimlad o fod yn ddiymadferth sy'n aml yn dilyn ar ôl cael eich gwneud yn ddioddefwr. Bydd y defnydd cynyddol o ddigolledu a gwneud iawn yn dod â budd uniongyrchol i ddioddefwyr gan sefydlu'r egwyddor bod rhaid i droseddwyr dderbyn cyfrifoldeb personol am eu troseddau.

83. Fodd bynnag, mae llawer mwy y gallwn ei wneud. Mae nifer o adroddiadau diweddar sy'n ymchwilio i brofiadau dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y Cydadolygiad Thematig yn 2009, adroddiad yr Eiriolwr Dioddefwyr yn 2009, ac adolygiad y Farwnes Stern yn 2010 o'r dull o drafod cwynion ynghylch treisio, yn ategu'r angen i ailystyried yn drylwyr y modd yr ydym yn cynorthwyo dioddefwyr a thystion. Mae'r Llywodraeth, gyda chymorth y Comisiynydd Dioddefwyr, yn cynnal adolygiad llawn o'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion sy'n cwmpasu tri maes cyffredinol:

- y cymorth sydd ar gael, gan gynnwys y modd y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion lleol yn well;
- dull cynhwysfawr o sicrhau bod dioddefwyr yn cael budd o fwy o ddefnydd o gyfiawnder adferol a gwneud iawn;
- ffyrdd o gyplysu'r cyfrifoldeb y mae dioddefwyr, tystion a chymunedau'n ei ddangos wrth gymryd rhan mewn cyfiawnder troseddol â set gliriach o hawliau.

# 2. Ailsefydlu troseddwyr er mwyn gostwng troseddu

Y ffordd briodol i wella diogelwch cyhoeddus a lleihau nifer y dioddefwyr yw gostwng aildroseddu. Byddwn bob amser yn cosbi troseddwyr yn briodol. Bydd troseddwyr sy'n cwblhau dedfrydau cymunedol neu sydd wedi'u rhyddhau o'r ddalfa yn wynebu ymateb cadarn a chydgysylltiedig gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn golygu bod rhaid i droseddwyr fynd i'r afael â'r problemau sy'n ysgogi eu gweithgarwch troseddol, ond mae hefyd yn golygu y byddant yn cael eu dal yn fuan a'u cosbi os cyflawnant fwy o droseddau.

Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- y gwasanaeth prawf, yr heddlu a gwasanaethau lleol eraill yn defnyddio dull integredig i reoli troseddwyr;
- gwneud i droseddwyr sy'n dibynnu ar gyffuriau roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau a dechrau ymadfer;
- rhoi troseddwyr mewn swyddi a chael lle i fyw iddynt fel y gallant dalu eu ffordd eu hunain;
- mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnig dulliau comisiynu ar y cyd newydd i sicrhau cyfraddau aildroseddu is ar sail talu yn ôl canlyniadau.

Ym mhob rhan o'r bennod hon, rydym yn cyfeirio at gydweithio â phartneriaid ar faterion fel iechyd, addysg a sgiliau a llety. Yng Nghymru, mae'r rhain yn faterion i Gynulliad Cymru a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cynlluniau i ostwng aildroseddu yno.

**Ailsefydlu – beth rydym yn ei wybod eisoes**

Mae tystiolaeth yn dangos bod y berthynas rhwng y troseddwr a'r person sy'n ei reoli yn ffactor pwysig mewn ailsefydlu llwyddiannus. Bydd y swyddog goruchwylio'n asesu'r troseddwr ac yn arolygu cynllun i sicrhau ei fod yn cael yr ymyriadau a fydd yn fwyaf effeithiol o ran newid ei ymddygiad a gwella diogelwch cyhoeddus. Mae'r ysgogiad i newid ar ran y troseddwr yn hanfodol ac mae'n eithaf arferol iddo lithro'n ôl wrth gychwyn newid ei fywyd a dechrau ymatal rhag troseddu.

Mae gennym rywfaint o dystiolaeth dda am yr ymyriadau sy'n gallu rhoi'r cyfle gorau i droseddwyr newid eu bywydau. Yn eu plith mae rhaglenni ymddygiad troseddol, sy'n gorfodi troseddwyr i wynebu a chydnabod y drwg y mae eu hymddygiad yn ei achosi, a dysgu wedyn sut i newid y patrymau sy'n aml wedi datblygu dros flynyddoedd lawer neu wedi dod yn ffordd o fyw iddynt. Maent hefyd yn cynnwys rhaglenni triniaeth cyffuriau a lleihau trais. Mae rhaglenni penodol sydd wedi dangos eu bod yn effeithiol yn cael eu hachredu, a bydd y rhain yn dal i chwarae rhan bwysig mewn ailsefydlu troseddwyr.

Mae profiad o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a llwyddiant cynlluniau Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth sy'n cydweithio â gwasanaethau ymyriadau cyffuriau yn rhoi sylfaen dystiolaeth gynyddol ar gyfer effeithioldeb asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth i reoli ac i newid troseddwyr.

## Dull integredig newydd o reoli troseddwyr

Mae rheoli troseddwyr yn golygu cadw'r cydbwysedd cywir rhwng eu rheoli i ddiogelu cymunedau a mynnu eu bod yn cymryd y camau sydd eu hangen i newid eu ffordd droseddol o fyw. Er mwyn cyfrannu at gyflawni hyn byddwn yn rhoi cymorth i roi dull partneriaeth newydd ar waith sydd wedi'i seilio ar egwyddorion Rheoli Troseddwyr Integredig.

84. Dylid mynnu bod troseddwyr yn mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n rheoli troseddwyr yn egluro iddynt y byddant yn cael eu dal yn fuan a'u cosbi os na fyddant yn derbyn y cyfleoedd a gynigir iddynt ac yn lle hynny'n troi'n ôl at fywyd o droseddu.

85. Mewn rhai ardaloedd lleol mae asiantaethau'n adeiladu ar sail eu profiad o gydweithio i ddatblygu ffyrdd newydd cydgysylltiedig o reoli troseddwyr a elwir gyda'i gilydd yn ddull Rheoli Troseddwyr Integredig. Wrth weithredu fel hyn mae amryw o bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai, awdurdodau lleol, a phartneriaid gwirfoddol yn cydweithio i ddelio â'r troseddwyr sy'n achosi'r niwed mwyaf yn eu cymunedau. Mae hyn wedi'i seilio ar ddadansoddiad ar y cyd o'r problemau o ran troseddau a throseddu yn eu cymuned, pa un a ydynt dan oruchwyliaeth statudol neu beidio. Mae'r dull hwn yn debyg i'r un y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn ei ddefnyddio gyda throseddwyr ifanc.

86. Caiff troseddwyr eu monitro a chaiff eu hymddygiad ei reoli yr un pryd â darparu gwasanaethau er mwyn eu hailsefydlu. Mae'r dull hwn o weithio'n manteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiad y gwahanol gyrff ac asiantaethau. Mae cyfraniad yr heddlu'n hollbwysig, wrth weithio mewn partneriaeth i adnabod, rheoli a chadw trefn ar droseddwyr adnabyddus. Cafwyd bod llawer o'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer plismona da yn addas hefyd i helpu i reoli troseddwyr fel eu bod yn mabwysiadu ffordd o fyw sy'n ddisgybledig ac yn barchus o'r gyfraith, ac i roi sicrwydd i ddioddefwyr fod cwtogi ar droseddu'n dal yn brif flaenoriaeth.

**IMPACT**

Mae rhaglen ym Mryste o'r enw 'IMPACT' y credir yn lleol ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth wneud y cyhoedd yn fwy diogel. Mae'n dod â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai a gwasanaethau cyffuriau at ei gilydd i dargedu'r 800 o droseddwyr sy'n bennaf gyfrifol am droseddau meddiangar.

Mae'r troseddwr nodweddiadol yn rhaglen IMPACT yn wryw gwyn, 29 mlwydd oed, â 14 blynedd o hanes troseddu a 74 o gollfarnau blaenorol ar gyfartaledd ac yn debygol iawn o aildroseddu. Mae'n debygol o fod â phroblemau o ran caethiwed i sylweddau, o fod heb lety sefydlog, ac o fod heb gael ei gyflogi'n rheolaidd erioed.

Drwy gydweithio'n agos a rhannu gwybodaeth, mae'r asiantaethau sy'n cymryd rhan yn gallu defnyddio eu hadnoddau'n llawer mwy hyblyg i sicrhau ymateb priodol ar yr adeg briodol yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Mae cyfleoedd i ddiwygio drwy ddelio â materion sy'n ymwneud â chyffuriau, alcohol, llety neu gyflogaeth, wedi'u cyfuno â monitro gan yr heddlu, ymweliadau â'r cartref a chamau arestio buan mewn achosion lle mae'r troseddwr yn cyflawni mwy o droseddau neu'n rhoi'r gorau i gydweithredu.

87. Mae profiad o ddulliau Rheoli Troseddwyr Integredig wedi awgrymu y gallant fod yn neilltuol o effeithiol o'u hymestyn i gynnwys y troseddwyr cyson hynny nad ydynt yn cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol ond sydd oherwydd nifer eu troseddau'n cyfrannu'n fwy ar gyfartaledd at y lefel troseddu mewn ardal leol.

88. Y dull Rheoli Troseddwyr Integredig yw'r math o gydweithio dwys a chadarnhaol y dylid ei hybu. Mae'n ategu ein hegwyddor o ddatganoli, lle mae ardaloedd lleol yn gyfrifol am enwi'r troseddwyr y maent yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Byddwn yn dal i helpu ardaloedd lleol i ddatblygu a sefydlu eu dull gweithredu eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys:

- hyrwyddo Rheoli Troseddwyr Integredig i helpu i baratoi partneriaid lleol i gydweithio'n llwyddiannus yn y modelau ar gyfer talu yn ôl canlyniadau a rhoi cymhellion ariannol sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3;
- dileu rhwystrau a hybu mwy o gydweithio, arloesi lleol a rhannu ar arferion da, fel y nodir ym Mhennod 6;
- casglu a lledaenu data am berfformiad a data eraill i helpu ardaloedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd wrth iddynt ddatblygu dulliau gweithredu lleol;
- helpu ardaloedd i ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o roi lle i'r sector gwirfoddol a chymunedol fel partneriaid cyfartal wrth weithredu'r dull Rheoli Troseddwyr Integredig;
- datblygu offer ymarferol a all fod o gymorth mewn cynllunio strategol lleol ar gyfer Rheoli Troseddwyr Integredig, gan gynnwys cymorth i wneud penderfyniadau ar fuddsoddi a methodoleg gyson i asesu effaith dulliau gweithredu lleol.

**Torri'r cylch – delio â throseddwr cyson**

Roedd troseddwr o oedolyn wedi bod yn gyfrifol am nifer mawr o droseddau mewn cymuned leol. Roedd wedi'i ddedfrydu bron 60 o weithiau am fwy na 280 o droseddau. Roedd y troseddau a gyflawnodd yn ymwneud gan mwyaf â cherbydau a bwrglera o dai, ac roedd wedi'u cyflawni i dalu am y cyffuriau yr oedd yn ddibynnol arnynt. Achosai'r troseddau niwed sylweddol i ddioddefwyr y troseddu ac i'r gymuned ehangach. Roedd wedi treulio tua 11 mlynedd yn y ddalfa mewn gwahanol sefydliadau troseddwyr ifanc a charchardai i oedolion.

Pan gafodd ei ddedfrydu i'r carchar am 17 wythnos am drosedd yn ymwneud â cherbyd, cafodd ei gynnwys dan y dull Rheoli Troseddwyr Integredig newydd. Roedd hyn yn golygu ei fod yn gorfod wynebu'r niwed yr oedd wedi'i achosi i ddioddefwyr ei drosedd diweddaraf. Ar ôl ei ryddhau cafodd ei fonitro'n fanwl gan yr heddlu a'i gynnwys mewn rhaglen triniaeth cyffuriau. Bellach nid yw'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon ac mae wedi dechrau newid er gwell.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C8.** Beth y gall llywodraeth ganolog ei wneud i helpu i ddileu rhwystrau lleol rhag gweithredu dull integredig o reoli troseddwyr?

**C9.** Sut y gallwn ysgogi a hybu twf dulliau Rheoli Troseddwyr Integredig?

**C10.** Sut y gallwn sicrhau bod modd i ddarparwyr o'r sector gwirfoddol a chymunedol fod yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni'r dull integredig hwn?

## Ailsefydlu troseddwyr: helpu troseddwyr i roi'r gorau i gyffuriau am byth

Rhaid i ni sicrhau bod mwy o droseddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau'n ymadfer yn llwyr o'u dibyniaeth ac na fyddant yn cymryd cyffuriau tra byddant yn y carchar. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- lleihau argaeledd cyffuriau anghyfreithlon yn y carchar a chynyddu nifer yr amgylcheddau sy'n rhydd o gyffuriau;
- cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer adeiniau ymadfer cyffuriau mewn carchardai;
- cydweithio â'r Adran Iechyd ac adrannau llywodraeth eraill i roi cymorth i gynllunio a rhedeg cynlluniau peilot i dalu i ddarparwyr yn ôl y canlyniadau y maent yn eu sicrhau wrth beri i droseddwyr ymadfer o'u dibyniaeth ar gyffuriau;
- rhoi prawf ar opsiynau ar gyfer triniaeth ddwys yn y gymuned;
- dysgu'r gwersi o'r dull o reoli troseddwyr sy'n fenywod a'u cymhwyso'n fwy cyffredinol.

89. Y man cychwyn ar gyfer diwygio llawer o droseddwyr yw mynd i'r afael â'u dibyniaeth ar gyffuriau neu eu camddefnydd o alcohol. Er bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y troseddwyr sy'n dechrau ar driniaeth, mae niferoedd mawr o ddefnyddwyr cyffuriau dibynnol o hyd nad ydynt yn cael eu hailsefydlu. Bydd y Strategaeth Gyffuriau Drawslywodraethol a gyhoeddir cyn hir yn disgrifio cynlluniau i gydgysylltu gwasanaethau i gael dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar beri i'r troseddwr ymadfer a dod yn hollol rydd oddi wrth gyffuriau.

90. Mae llawer mwy y mae'n rhaid i ni ei wneud i wella'r ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr sydd â phroblemau cyffuriau er mwyn ategu'r strategaeth honno. Un flaenoriaeth yw sicrhau bod y carchar yn dod yn fan lle y mae troseddwyr yn rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau, yn hytrach na dechrau eu cymryd. Awgrymwyd mewn astudiaeth ddiweddar fod 19% o'r troseddwyr sydd yn y carchar ar hyn o bryd a oedd wedi cymryd heroin erioed wedi'i gymryd am y tro cyntaf yn y carchar.[4] Mae angen i ni gymryd camau pendant i ddelio ag argaeledd cyffuriau mewn carchardai.

91. Er bod cyfran y samplau a gymerwyd dan raglen hap-brofi cyffuriau gorfodol y carchardai a'u cael yn gadarnhaol wedi gostwng, mae bron un ym mhob 13 o'r profion cyffuriau'n gadarnhaol o hyd.[5] Rhaid cael cydweithio agos rhwng carchardai a'u partneriaid wrth orfodi'r gyfraith i rannu cudd-wybodaeth a mynd i'r afael â llygredd ymysg staff. Byddwn yn ymchwilio i dechnolegau newydd i ddelio â chyffuriau a ffonau symudol mewn carchardai. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylcheddau sy'n rhydd oddi wrth gyffuriau mewn carchardai ac felly byddwn yn cynyddu nifer yr adeiniau sy'n rhydd oddi wrth gyffuriau, lle mae mesurau diogelwch cryfach yn atal mynediad at gyffuriau.

92. Gwneud mwy i ddelio â'r cyflenwi ar gyffuriau yw hanner y gwaith. Yr hanner arall yw ail-lunio triniaeth cyffuriau mewn carchardai fel bod mwy o bwyslais ar ymadfer a dod yn rhydd oddi wrth gyffuriau. Mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd sydd bellach yn gyfrifol am ariannu a chomisiynu triniaeth cyffuriau mewn carchardai. Wrth wneud hynny byddwn yn edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd gan Grŵp Adolygu'r Strategaeth Triniaeth Cyffuriau Carchardai, a oedd dan gadeiryddiaeth yr Athro yr Arglwydd Patel o Bradford, ynghylch sut i godi lefel yr uchelgais ar gyfer triniaeth ac ymyriadau cyffuriau mewn carchardai.

93. Rhaid i ni fynd i'r afael hefyd â chamddefnydd o alcohol, sy'n achosi llawer o droseddau ac anhrefn ar ein strydoedd. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi egluro ei chynigion ar gyfer gwahardd gwerthu alcohol am lai na'i gost. Bydd diwygiadau yn y rhaglenni lleihau trais a gynigir i droseddwyr yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddelio ag effaith alcohol a

---

4 O sampl o 1,435 o garcharorion ar adeg eu derbyn a gafodd ddedfryd o un mis i bedair blynedd yn y carchar, yng Nghymru a Lloegr, yn 2005/06. Compendium of reoffending statistics and analysis, a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2010, sydd ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/compendium-reoffending.htm.

5 Yn 2000/01 roedd y profion ar 12.2% o garcharorion yn gadarnhaol. Yn 2009/10 roedd y profion ar 7.8% ohonynt yn gadarnhaol.

chyffuriau. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cymryd camau i ymchwilio i'r modd y gellid ehangu'r trefniadau talu yn ôl canlyniadau i gynnwys triniaeth alcohol arbenigol i'r rheini sy'n dibynnu ar alcohol, sy'n wynebu heriau tebyg wrth ymadfer â'r rheini sy'n dibynnu ar gyffuriau.

### Adeiniau ymadfer cyffuriau

94. Rydym yn credu, o ystyried y buddsoddi sylweddol a gafwyd mewn gwasanaethau cyffuriau, a'r cysylltiad cryf rhwng defnyddio cyffuriau ac aildroseddu, y dylem fod yn fwy uchelgeisiol o ran ein nodau i wella effeithlonrwydd ac effeithioldeb. Byddwn felly'n canolbwyntio ar ganlyniadau ymadfer, gan herio troseddwyr i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau. Byddwn yn treialu adeiniau ymadfer cyffuriau mewn carchardai o fis Mehefin 2011 i helpu i gyflawni hyn.

95. Bydd pedwar cynllun peilot cychwynnol yn canolbwyntio ar y troseddwyr hynny sy'n dibynnu ar gyffuriau ac sy'n cwblhau dedfrydau o lai na 12 mis lle mae'r amser sydd ar gael yn y carchar i gwblhau ymyriadau triniaeth yn gyfyngedig. Bydd sicrhau cydgysylltu effeithiol a dilyniant rhwng y carchar a'r gymuned yn hollbwysig yn hyn o beth.

96. Bydd hyd at bump o adeiniau ymadfer pellach yn canolbwyntio ar y troseddwyr hynny â phroblem cyffuriau sydd yn y carchar am gyfnodau hwy. Oherwydd hyd eu dedfryd, bydd modd fel arfer i'r grŵp hwn gwblhau rhaglenni triniaeth a bydd mwy o amser ar gael i gynllunio mynediad i wasanaethau iechyd cymunedol pan gânt eu rhyddhau ar drwydded.

97. Byddwn yn adolygu cynnydd yr adeiniau ymadfer cyffuriau peilot erbyn Mehefin 2012 ac, yn ôl y gwersi a ddysgir, byddwn yn cydweithio â'r Adran Iechyd i ddefnyddio'r dull hwn yn fwy eang.

### Talu yn ôl canlyniadau i beri i droseddwyr roi'r gorau i gyffuriau

98. Ym Mhennod 3 eglurir ein dull gweithredu cyffredinol o ran talu yn ôl canlyniadau ar gyfer troseddwyr. Bydd y dull o drafod adeiniau ymadfer cyffuriau hefyd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer treialu system newydd o dalu yn ôl canlyniadau ar gyfer ymadfer o ddefnyddio cyffuriau yn y gymuned.

99. Byddwn yn rhoi mwy o fanylion am hyn yn y strategaeth gyffuriau drawslywodraethol sydd ar fin cael ei chyhoeddi. Ein bwriad ar gyfer y rheini sy'n dibynnu ar gyffuriau, gan gynnwys y rheini sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, yw y bydd y Llywodraeth yn datblygu dull talu yn ôl canlyniadau sy'n ymwneud â phob un o'r prif feysydd sy'n hybu ymadfer: mewn geiriau eraill, rhyddid oddi wrth ddibyniaeth glinigol, gostwng aildroseddu, a chael swydd.

100. Bydd y canolbwyntio ar ymadfer yn gymorth i gydgysylltu gwasanaethau lleol. Bydd y dull arfaethedig o dalu yn ôl canlyniadau'n cynnwys asesu, atgyfeirio a rheoli achosion. Byddai hyn yn berthnasol i droseddwyr ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol, gan hwyluso penderfyniadau ym mhob cam, o orsafoedd heddlu a llysoedd hyd at dderbyn carcharorion a'u rhyddhau o'r carchar.

101. Yn benodol, bydd y cynlluniau peilot hyn yn cynnwys camau i fynd i'r afael â phroblemau'r troseddwyr hynny a gaiff eu rhyddhau o'r carchar ar ôl dedfrydau byr o garchar a'r rheini sy'n cyflawni gorchmynion cymunedol gyda gofyniad ailsefydlu cyffuriau. Gwyddom nad yw dull talu yn ôl canlyniadau ar gyfer ymadfer o ddefnyddio cyffuriau wedi'i roi ar waith o'r blaen. Felly bydd y Llywodraeth yn cydweithio ag ardaloedd y cynlluniau peilot i gydgynllunio'r dull talu yn ôl canlyniadau ar gyfer troseddwyr. Estynnir gwahoddiad cyn hir i ardaloedd lleol i gymryd rhan. Dechreuir ar y gwaith o gydgynllunio'r cynlluniau peilot yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd . Bydd y set gyntaf o gynlluniau peilot yn dechrau ym mis Medi 2011.

### Triniaeth gyffuriau ddwys yn y gymuned

102. Yng Nghytundeb y Glymblaid gwnaethom nodi ein hymrwymiad i ddarparu opsiynau ar gyfer triniaeth ddwys yn y gymuned i rai o'r troseddwyr mwyaf problemus sy'n dibynnu ar gyffuriau. Rydym yn rhagweld y bydd angen amryw o ymyriadau triniaeth, o wahanol ddwyster yn ôl y problemau a asesir:

- uchel – rhaglenni ymyriadau preswyl lle mae triniaeth ar gael a lle bydd disgwyl i'r unigolyn breswylio mewn adeilad penodedig a chydymffurfio'n llawn â'r rhaglen;
- canolig – triniaeth wedi'i strwythuro, ag elfen breswyl fyr o bosibl neu ymbresenoli mewn canolfan gofal dydd;
- isel – triniaeth cleifion allanol, lle bydd yr unigolyn yn preswylio yn ei gartref ei hun.

103. Bydd gofynion am driniaeth yn cael eu cyplysu â gofynion eraill mewn gorchmynion cymunedol i hybu cydymffurfiad, rhoi mwy o ysgogiad, a gwneud iawn â dioddefwyr neu gymunedau. Byddwn yn datblygu'r opsiynau hyn ymhellach mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Y bwriad yw y bydd llety wedi'i seilio ar driniaeth ar gael am y tro cyntaf o fis Rhagfyr 2011, yn amodol ar gyllido gan yr Adran Iechyd.

### Troseddwyr sy'n fenywod

104. Rydym yn cydnabod bod proffil risgiau ac anghenion gwahanol gan droseddwyr sy'n fenywod. Bydd troseddwyr sy'n fenywod yn cael eu collfarnu am droseddau llai difrifol gan mwyaf – roedd 44% o fenywod a erlynwyd wedi'u cyhuddo o droseddau'n ymwneud â dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn o'i gymharu â 28% o ddynion.[6] Mae tuedd hefyd iddynt fod â phroblemau lluosog sydd felly'n fwy cymhleth sy'n gysylltiedig â'u troseddu – cofnodwyd bod 26% o fenywod wedi cael eu trin neu eu cynghori oherwydd problem iechyd meddwl neu emosiynol yn y

[6] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2010). *Statistics on Women in the Criminal Justice System*. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

flwyddyn cyn eu cymryd i'r ddalfa, o'i gymharu â 16% o ddynion.[7] O'r menywod y cofnodwyd bod ganddynt broblem alcohol, mae gan bron tri chwarter (74%) broblem cyffuriau hefyd. Ymysg dynion sydd â phroblemau alcohol sy'n mynd i garchardai lleol, cofnodwyd bod problem cyffuriau hefyd gan ychydig llai na'u hanner (48%).[8] Cofnodwyd bod mwy na hanner y menywod yn y carchar wedi dioddef trais domestig ac mae un ym mhob tair wedi'i cham-drin yn rhywiol.

105. Mae rhwydwaith addawol o ddarpariaeth gymunedol i fenywod wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos rhwng y gwasanaeth prawf a'r sector gwirfoddol. Mae'r prosiectau hyn yn darparu gwasanaeth ailsefydlu effeithiol yn y gymuned drwy fynd i'r afael ag amryw o broblemau, gan gynnwys dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae hyn wedi'i gyfuno ag addysg ac ymyriadau sydd â'r amcan o helpu troseddwyr sy'n fenywod i ddod i delerau â materion fel cam-drin corfforol a rhywiol. Er bod y rhwydwaith darparu newydd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer troi menywod oddi wrth droseddu a'r ddalfa, gellir cymhwyso'r hyn a ddysgwyd hefyd at droseddwyr gwrywaidd, yn enwedig drwy ddull cydgysylltiedig o drafod y rheini sydd â phroblemau mwy cymhleth wrth wraidd eu troseddu.

106. Rydym hefyd yn datblygu opsiynau ar gyfer triniaeth gyffuriau ddwysach yn y gymuned i droseddwyr sy'n fenywod. Wrth wneud hynny byddwn yn ceisio dysgu oddi wrth waith sy'n mynd ymlaen i ddargyfeirio menywod sy'n agored i niwed o'r ddalfa a'r llysoedd pan nad oes perygl i'r cyhoedd.

107. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o drais domestig a byddwn yn datblygu cynigion pendant i atal trais domestig a dal troseddwyr a'u cosbi. Byddwn hefyd yn cydweithio â'r Swyddfa Gartref wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod a Merched er mwyn cyflawni hyn.

**Torri'r cylch – mynd i'r afael â throseddu gan fenywod**

Roedd troseddwraig dreisgar a gafodd gollfarnau blaenorol am ymosod a dwyn wedi'i hatgyfeirio at brosiect cymunedol dwys i fenywod yn y sector gwirfoddol er mwyn delio â'i hymddygiad troseddol tra oedd ar fechnïaeth amodol am drosedd arall. Roedd ganddi broblemau'n gysylltiedig ag alcohol, camddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl. Sicrhaodd y gweithiwr achos ei bod yn cydymffurfio ag amodau ei mechnïaeth a'i bod yn dod i'r llys. Rhoddodd gymorth hefyd iddi gadw ei hapwyntiadau ysbyty a delio â'r rhesymau dros ei phroblemau alcohol a chyffuriau. Dechreuodd dreulio amser hefyd yn cynorthwyo prosiect cymunedol gan ddysgu sgiliau adeiladu a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned.

---

7 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2010). *Compendium of Reoffending Statistics and Analysis*. Bwletin ystadegol. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

8 Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2010). *Alcohol services in prisons: an unmet need. Thematic report by HM Inspectorate of Prisons*. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-prisons/docs/Alcohol_2010_rps.pdf.

Oherwydd ei pharodrwydd i gymryd rhan yn y broses ddiwygio a'i hedifeirwch amlwg am ei throsedd, cafodd ddedfryd ohiriedig gyda goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf, a gofyniad i breswylio mewn llety wedi'i reoli yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw wedi aildroseddu, mae wedi cofrestru'n ddiweddar ar gwrs addysgol ac mae hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect gwirfoddol i adfer adeilad awdurdod lleol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C11.** Sut y gallwn ddefnyddio'r adeiniau ymadfer cyffuriau peilot i ddatblygu gwell dilyniant gofal rhwng y ddalfa a'r gymuned?

**C12.** Pa gyfleoedd posibl y byddai dull talu yn ôl canlyniadau'n eu cynnig er mwyn hybu ymadfer o ddefnyddio cyffuriau ar gyfer troseddwyr?

**C13.** Sut y gallwn gynorthwyo orau y rheini yn y gymuned sydd ag angen triniaeth gyffuriau, gan ddefnyddio dull graddedig ar gyfer lefel y cymorth preswyl, gan gynnwys dull gweithredu penodol ar gyfer menywod?

**C14.** Pa wahaniaethau sydd rhwng troseddwyr benywaidd a throseddwyr gwrywaidd a sut y gallwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn rhwng y rhywiau?

## Ailsefydlu troseddwyr: gwneud iddynt dalu eu ffordd

Os yw troseddwyr i ddod yn ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith ac yn cyfrannu i gymdeithas, bydd angen iddynt gael swydd a rhywle i fyw. Fel arall, gellir colli effeithioldeb gwaith ailsefydlu arall. Er mwyn rhoi mwy o droseddwyr ar ben ffordd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cydweithio â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran Gwaith a Phensiynau i wella sgiliau troseddwyr a gwella eu rhagolygon am waith, gan gynnwys drwy adolygiad o ddysgu gan droseddwyr – *Breaking the Cycle: Straight to Skills* – a thrwy fynediad i'r Rhaglen Waith;
- diwygio Deddf Ailsefydlu Troseddwyr;
- cydweithio â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i ostwng y rhwystrau sy'n atal troseddwyr rhag dod o hyd i rywle i fyw.

### Cael gwaith i droseddwyr

108. Drwy beri i fwy o droseddwyr ymgymryd â gwaith caled a gwaith i wneud iawn, cânt gymorth i ddysgu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i wella eu rhagolygon ar gyfer talu eu ffordd, rhoi'r gorau i dderbyn budd-daliadau a chael swydd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cael swydd yn ffactor pwysig o ran atal troseddu yn y dyfodol. Ac eto, mae llawer o droseddwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag dod i mewn i'r farchnad lafur hyd yn oed wedi iddynt ymrwymo i newid eu bywydau. Mewn arolwg diweddar o garcharorion dywedodd bron hanner ohonynt (47%) nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau o'i gymharu â 15% ymysg grŵp oedran tebyg yn y

boblogaeth gyffredinol.[9] Dywedodd 13% nad oeddent erioed wedi bod â swydd.

109. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i adolygu a diwygio gwasanaethau cyflogaeth a dysgu i droseddwyr. Rydym yn bwriadu sicrhau bod y troseddwyr hynny sydd wedi'u cosbi ac sy'n dangos eu bod yn barod i ddiwygio yn gallu cael mynediad at wasanaethau a fydd yn cynnwys:

- hyfforddiant wedi'i ddiwygio a'i adfywio lle mae cyflogwyr a darparwyr addysg yn cydweithio'n agos ag uwch reolwyr carchardai i addasu eu hyfforddiant i anghenion y farchnad lafur;
- sefydlu 'rhith-gampws' ar draws yr ystad carchardai – dull diogel a chosteffeithiol o gyflenwi gwasanaethau dysgu a chyflogaeth unigol wedi'u seilio ar TG i garcharorion a all fod ar gael hefyd ar ôl eu rhyddhau;
- nifer mwy o weithdai hyfforddi dan arweiniad cyflogwyr i gynyddu sgiliau gwaith troseddwyr a chreu perthnasoedd gweithio â chyflogwyr cyn eu rhyddhau.

110. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn lansio dull newydd o wella canlyniadau cyflogaeth wedi'i seilio ar drefniant talu yn ôl canlyniadau, fel rhan o'i chynlluniau i gael pobl Prydain i ailddechrau gweithio. Bydd y dull gweithredu hwn, sef y Rhaglen Waith, sy'n talu yn ôl canlyniadau, yn helpu i wella canlyniadau o ran ailsefydlu a chyflogaeth. Bydd troseddwyr yn gymwys i gael eu derbyn i'r Rhaglen Waith ar sail eu hamgylchiadau unigol fel y byddant yn gorfod talu eu ffordd eu hunain yn gynharach. Rydym yn gwneud gwaith i ganfod sut y gellid rhoi mwy o gymhelliad i ddarparwyr y Rhaglen Waith i weithio gyda throseddwyr, mewn cysylltiad â gostwng aildroseddu.

111. Bydd troseddwyr cymwys yn y gymuned sy'n cymryd rhan yn y broses ddiwygio'n cael yr un hawliau â cheiswyr gwaith eraill i dderbyn amryw o fathau o ddarpariaeth hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol, cyfleoedd i ddilyn prentisiaeth a chymorth gan Next Step neu Canolfan Byd Gwaith. Bydd hefyd yn caniatáu i droseddwyr gael mynediad at raglenni eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau fel y Lwfans Menter Newydd, Clybiau Gwaith, Work Together ac Academïau Gwasanaeth lle bynnag maent ar gael.

112. Er mwyn rhoi cymorth i'w gweithredu byddwn yn cydgysylltu â chyflogwyr er mwyn gweithio gyda throseddwyr. Byddwn hefyd yn enwi uwch arweinwyr busnes i hyrwyddo rôl a chyfraniad cyflogwyr mewn cysylltiad ag ailsefydlu troseddwyr drwy ddatblygu sgiliau a gwaith mewn carchardai ac yn y gymuned.

---

[9] O sampl o 1,435 o garcharorion ar adeg eu derbyn a gafodd ddedfryd o un mis i bedair blynedd yn y carchar, yng Nghymru a Lloegr, yn 2005/06. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003) a Compendium of reoffending statistics and analysis, a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2010, sydd ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/compendium-reoffending.htm.

### Diwygio Deddf Ailsefydlu Troseddwyr

113. Rydym am leihau rhwystrau diangen rhag ailsefydlu llwyddiannus. Mae Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn ceisio dileu rhwystrau rhag integreiddio â chymdeithas i droseddwyr sydd heb eu cael yn euog o gyflawni trosedd am yr eildro o fewn cyfnod penodol. Mae'n golygu nad yw'n ofynnol iddynt ddatgan eu hen gollfarnau, neu gollfarnau wedi'u disbyddu, at y rhan fwyaf o ddibenion, fel ymgeisio am waith. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol iddynt gael swydd ac yn eu galluogi i gefnu'n llwyr ar eu bywyd blaenorol o droseddu. Er mwyn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, mae galwedigaethau sensitif penodol wedi'u hesemptio o ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r cyflogwyr cysylltiedig yn gallu gweld holl hanes troseddol yr ymgeisydd.

114. Caiff y Ddeddf ei beirniadu'n aml fel un sy'n anghyson ag arferion dedfrydu cyfoes, fel y gall fethu yn ei hamcan o helpu troseddwyr sydd wedi diwygio i ailsefydlu mewn cymdeithas. Y rhesymau a grybwyllir yw bod y cyfnodau ailsefydlu'n rhy hir ac nad ydynt yn adlewyrchu'r pwynt lle mae aildroseddu'n darfod ar ôl cael collfarn; bod y trothwy lle na fydd dedfryd byth yn cael ei disbyddu (30 mis) yn rhy isel o gofio bod cyfnodau dedfrydau'n hwy o lawer heddiw; a bod y Gorchymyn Eithriadau yn esemptio nifer cynyddol o alwedigaethau o'r Ddeddf. Yn olaf, caiff y Ddeddf ei beirniadu fel un sy'n rhy gymhleth a dryslyd, fel y gallai pobl fethu â sylweddoli bod y Ddeddf yn gymwys iddynt.

115. Rydym yn edrych ar y sail i amcanion Deddf Ailsefydlu Troseddwyr, a sut y gellid ei diwygio. Ymhlith y mathau o gynigion yr ydym yn eu hystyried y mae:

- ehangu cwmpas y Ddeddf fel ei bod yn cynnwys yr holl droseddwyr sy'n cael dedfryd ddiffiniedig;
- byrhau cyfnodau ailsefydlu;
- creu dosbarthiad cliriach a symlach o gyfnodau ailsefydlu, gyda chyn lleied â dau neu dri dosbarth o bosibl;
- moderneiddio a symleiddio iaith y ddeddfwriaeth.

116. Yn ogystal â cheisio barn am y cynigion hyn, byddem yn hoffi gofyn am syniadau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol ar Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr, gan gofio'r angen i gydbwyso ailsefydlu a diogelu'r cyhoedd, y dystiolaeth bod cael swydd yn gostwng aildroseddu a'r angen am gynllun y gellir ei weithredu a'i ddeall yn rhwydd.

117. Hoffem gael syniadau am y modd y gallem wneud mwy dros droseddwyr ifanc gan ein bod yn ymwybodol, er enghraifft, fod rhai pobl yn cael bod eu ffordd i addysg uwch yn cael ei rhwystro ar sail collfarnau am droseddau ieuenctid. Mae 'dechrau â llechen lân' wedi i'r troseddwr ddod yn oedolyn yn ddull gweithredu posibl ar gyfer troseddau heblaw'r rhai mwyaf difrifol.

118. Rydym hefyd yn ystyried sut y gellid trin troseddwyr a gafodd gollfarnau bach amser maith yn ôl, ond sy'n gorfod datgelu pob un o'u collfarnau.

### Lleihau rhwystrau rhag cael llety sefydlog

119. Mae cael rhywle addas i fyw ar ôl rhyddhau rhywun o'r ddalfa yn gallu bod yn ffactor critigol o ran ailsefydlu troseddwyr. Yn aml bydd carcharorion mewn perygl o golli eu llety tra byddant yn y carchar. Yn achos y rheini sy'n cwblhau dedfrydau byr, gall hyn gyfrannu ymhellach at eu ffordd ansefydlog ac anhrefnus o fyw. Yn ogystal â hynny, roedd tua 15% o garcharorion yn ddigartref neu'n byw mewn rhyw fath o lety ansicr cyn mynd i'r carchar, a hynny'n cynnwys 9% a oedd yn cysgu allan.

120. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i helpu i leihau'r rhwystrau i'r troseddwyr hynny sydd wedi talu eu dyled i gymdeithas ac yn ceisio delio â'u hymddygiad troseddol. Mae hyn yn cynnwys peidio â gwneud asesiadau priodol yn y carchar ym mhob achos a pheidio â chyfeirio troseddwyr at wasanaethau effeithiol yn y gymuned bob tro. Hefyd gallai troseddwyr gael eu hystyried yn rhai sydd heb gysylltiad lleol â'r ardal y maent yn cael eu rhyddhau iddi neu gael eu hystyried 'yn ddigartref o fwriad' gan yr awdurdod lleol am iddynt golli eu cartref blaenorol o ganlyniad i'w troseddu.

121. Er mwyn gwella hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- egluro'r disgwyliadau i wasanaethau carchardai a phrawf i sicrhau bod troseddwyr, fel rhan o'u hailsefydlu, yn cael asesiadau tai priodol, cyngor a'u cyfeirio at wasanaethau cymunedol i'w hatal rhag colli eu cartrefi, neu fod yn ddigartref;
- cydweithio â chyrff yn y sector gwirfoddol a chymunedol i gynnig cynllun newydd dan arweiniad Crisis, i wella mynediad i'r sector rhent preifat ar gyfer pobl ddigartref sengl, gan gynnwys cyn-droseddwyr;
- defnyddio gwasanaethau tai sydd ar gael drwy awdurdodau lleol fel y bydd trefniadau wedi'u gwneud ar ôl sicrhau llety er mwyn cynnal tenantiaethau;
- gweithio ar draws llywodraeth drwy'r Gweithgor Gweinidogol ar Ddigartrefedd i gytuno ar flaenoriaethau cyffredin ar gyfer atal a mynd i'r afael â digartrefedd, gan gynnwys rhai ar gyfer cyn-droseddwyr.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C15.** Sut y gallem ategu dull talu yn ôl canlyniadau'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhoi mwy o droseddwyr mewn gwaith?

**C16.** Beth y gallwn ei wneud i sicrhau mwy o ymrwymiad gan gyflogwyr wrth gydweithio â ni i gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio?

**C17.** Pa newidiadau yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 a fyddai orau i sicrhau'r cydbwysedd rhwng ailsefydlu a diogelu'r cyhoedd?

**C18.** Sut y gallwn gydweithio'n well â'r sector rhent preifat i atal troseddwyr rhag mynd yn ddigartref?

## Rheoli troseddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl

Rydym am sicrhau bod ein hadnoddau gwerthfawr yn cael eu targedu ar y bobl sydd wedi ymrwymo i newid eu bywydau a chael eu hailsefydlu. Mewn rhai achosion, nid y system cyfiawnder troseddol yw'r lle gorau iddynt. Mae hyn yn neilltuol o wir am droseddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- cydweithio â'r Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref i dreialu a chyflwyno gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio'n genedlaethol erbyn 2014 ar gyfer troseddwyr sydd â salwch meddwl;
- cynyddu'r gallu i drin troseddwyr sy'n peri risg uchel o niweidio lle mae cysylltiad rhwng hyn ac anhwylderau personoliaeth difrifol.

122. Nid y system cyfiawnder troseddol yw'r lle gorau bob amser i reoli problemau troseddwyr llai difrifol lle mae cysylltiad rhwng eu troseddau a'u problemau iechyd meddwl. Mewn arolwg diweddar dangoswyd bod gan 12% o droseddwyr salwch meddwl neu iselder fel salwch hirsefydlog, tra cofnodwyd bod ar 20% angen cymorth i ddelio â phroblem emosiynol neu iechyd meddwl.[10]

123. Ar hyn o bryd mae rhai gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio ar gael ar draws y wlad lle mae staff iechyd wedi'u lleoli un ai mewn gorsafoedd heddlu neu mewn llysoedd i sgrinio ac asesu pobl i ganfod problemau iechyd meddwl. Pwrpas y gwasanaethau hyn yw atgyfeirio troseddwyr i wasanaethau iechyd yn hytrach na'r carchar neu'r gwasanaeth prawf, ond nid ydynt ar gael yn gyson.

124. Roedd adroddiad yr Arglwydd Bradley am wella canlyniadau iechyd meddwl i droseddwyr yn awgrymu rhoi gwasanaeth cydgysylltu a dargyfeirio cenedlaethol ar waith erbyn 2014. Credwn mai hwn yw'r dull gweithredu priodol ac mae'n gyson â'r diwygiadau sydd wedi'u nodi ym Mhapur Gwyn yr Adran Iechyd *Equity and Excellence*. Mae hwn yn cynnwys bwriad i wella mynediad at wasanaethau yn enwedig ar gyfer y rheini sydd â chyflyrau hirdymor, gan gynnwys problemau iechyd meddwl. Bydd yr Adran Iechyd, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, gan gydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd â chyfrifoldeb dros ariannu a chomisiynu, yn pennu nifer o brosiectau peilot a fydd yn helpu i greu'r arferion gorau, i fesur y manteision ac i ddatblygu safonau ansawdd priodol. Bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc. Byddwn yn ceisio cwblhau'r gwaith hwn erbyn 2012 ac, yn amodol ar asesiad o lwyddiant y prosiectau, yn rhoi rhaglen weithredu genedlaethol ar waith.

---

[10] O sampl o 1,435 o garcharorion ar adeg eu derbyn a gafodd ddedfryd o un mis i bedair blynedd yn y carchar, yng Nghymru a Lloegr, yn 2005/06. Compendium of reoffending statistics and analysis, a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2010, sydd ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/compendium-reoffending.htm.

### Troseddwyr sydd â mathau difrifol o anhwylder personoliaeth

125. Mae grŵp o droseddwyr risg uchel sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol neu dreisgar sy'n gysylltiedig â mathau difrifol o anhwylder personoliaeth. Mae'r troseddwyr hyn yn achosi problemau ymestynnol o ran ymddygiad neu reolaeth yn y carchar, a risg uchel o aildroseddu os byddant yn y gymuned. Ar hyn o bryd mae nifer o brosiectau triniaeth a rheoli achosion peilot yn mynd ymlaen fel rhan o'r Rhaglen Anhwylderau Personoliaeth Peryglus a Difrifol. Mae'r prosiectau'n darparu gwasanaethau mewn carchardai, drwy wasanaethau ysbyty diogel ac yn y gymuned, gyda'r bwriad o leihau'r problemau a'r risg a achosir gan y grŵp hwn a diogelu'r cyhoedd. Credwn fod angen dal i adeiladu ar sail y profiad o'r rhaglen gynharach wrth ddatblygu'r dull gweithredu hwn.

126. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod y gwasanaethau hyn mor effeithiol ag sy'n bosibl ac rydym wedi cytuno â'r Adran Iechyd y dylem ail-lunio'r defnydd o'r adnoddau cyffredin hyn. Cynigir y bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn ad-drefnu'r gwasanaethau presennol mewn lleoliadau diogel a chymunedol er mwyn rheoli a lleihau'r risg o aildroseddu. Cydnabyddir drwy hyn fod cydgyfrifoldeb dros y boblogaeth hon yn y ddau gorff ac y caiff gwasanaethau eu cyflenwi drwy weithrediadau cydgysylltiedig ac, mewn rhai camau yn y broses, gweithrediadau ar y cyd. Bydd y dull gweithredu hwn yn gwella'r rheoli ar y boblogaeth hon, gan gynnwys: adnabod ac asesu'n gynharach, ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwybodaeth seicolegol, ac unedau dilyniant lle gellir monitro troseddwyr mewn lleoliadau diogel i hybu'r broses ailsefydlu a'u dychwelyd yn y pen draw i'r gymuned. Rydym yn rhagweld y byddem, drwy drefnu'r gwasanaethau hyn yn wahanol, yn gallu cynyddu nifer y lleoedd triniaeth erbyn 2014 o 300 i 570 o leoedd, a'r rhan fwyaf ohonynt mewn carchardai. Yn ogystal â hynny, byddwn yn ceisio darparu cymorth seicolegol ychwanegol ar gyfer hyd at 800 o leoedd ychwanegol (mewn carchardai ac yn y gymuned) ar gyfer y rheini sy'n gwneud cynnydd, ac yn cryfhau'r oruchwyliaeth dros y rheini a gaiff eu rhyddhau o'r ddalfa. Bydd y rhaglen weithredu ar gyfer y newidiadau hyn yn destun ymgynghoriad ar wahân gan yr Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C19.** Sut y gallwn sicrhau bod modd i'r arferion da presennol ddylanwadu ar y rhaglen o brosiectau iechyd meddwl peilot ar gyfer cydgysylltu a dargyfeirio i oedolion a phobl ifanc?

**C20.** Beth yw'r ffordd orau i ni gyflawni ein huchelgais o roi'r gwasanaeth cydgysylltu a dargyfeirio iechyd meddwl ar waith yn genedlaethol?

**C21.** Sut y gallwn ail-lunio gwasanaethau i ddarparu triniaeth fwy effeithiol i'r troseddwyr hynny sydd â mathau difrifol o anhwylder personoliaeth?

# 3. Talu yn ôl canlyniadau

Yn y gorffennol, mae symiau sylweddol o arian wedi'u gwario ar gosbi ac ailsefydlu troseddwyr heb ddal darparwyr yn atebol mewn modd priodol am ganlyniadau. Yng Nghytundeb y Glymblaid nodwyd cynnig y Llywodraeth i fabwysiadu dull gweithredu newydd i dalu i ddarparwyr am ostwng aildroseddu, y telir amdano drwy'r arbedion y bydd hyn yn eu creu i'r system cyfiawnder troseddol.

Mae hwn yn ddiwygiad radicalaidd datganoledig a fydd yn creu newid hanfodol yn y dull o gyflenwi gwasanaethau ailsefydlu. Bydd yn gwireddu'r cysyniad o ailfuddsoddi cyfiawnder drwy ganiatáu i ddarparwyr fuddsoddi arian yn y gweithgarwch a fydd yn atal troseddu yn hytrach na gwario arian ar ddelio â'r canlyniadau.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn rhoi i ddarparwyr y rhyddid i arloesi er mwyn mynd â'r maen i'r wal, gan eu talu'n unol â'r canlyniadau y maent yn eu sicrhau ac agor y farchnad i ddarparwyr newydd amrywiol a fydd yn cynnig syniadau newydd.

Erbyn 2015 byddwn wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn at yr holl ddarparwyr. Rhoddir llawer mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ac fe'u telir yn ôl y canlyniadau y maent yn eu sicrhau wrth ostwng aildroseddu. Mae prif egwyddor ein dull o weithredu'n amlwg: creu system sy'n fwy tryloyw ac yn darparu gwasanaethau mwy effeithiol.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf byddwn yn datblygu'r dull talu yn ôl canlyniadau'n ofalus ac yn rhoi prawf trwyadl arno. Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- cynllunio'r model talu yn ôl canlyniadau i ostwng aildroseddu;
- comisiynu o leiaf chwe phrosiect talu yn ôl canlyniadau newydd sy'n cynnwys cyfran sylweddol o'r boblogaeth o droseddwyr;
- cyhoeddi strategaeth gystadleuaeth gynhwysfawr ym mis Mehefin 2011;
- diffinio sut byddwn yn talu i ddarparwyr am ailsefydlu troseddwyr;
- rhoi mwy o ddisgresiwn a galluogi gweithwyr proffesiynol y rheng flaen i arloesi yn eu dull o weithio gyda throseddwyr.

## Cynllunio'r model talu yn ôl canlyniadau

Mae egwyddorion sylfaenol y dull gweithredu newydd hwn yn glir iawn, ond gwyddom y bydd angen cynllunio gofalus i gyflwyno'r newidiadau hyn yn y system. Credwn fod hyn yn golygu:

- teilwra'r dull talu yn ôl canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o droseddwyr;
- cyfuno'r comisiynu ar wasanaethau talu yn ôl canlyniadau am ailsefydlu â'r cyflawni ar ddedfrydau;
- cyflwyno o leiaf chwe phrosiect talu yn ôl canlyniadau newydd sy'n cynnwys cyfran sylweddol o'r boblogaeth o droseddwyr;
- sicrhau bod ystod amrywiol o ddarparwyr yn gallu ymgeisio am gontractau talu yn ôl canlyniadau neu gymryd rhan ynddynt;
- cymhwyso'r dull gweithredu at y grwpiau o droseddwyr mwy cyson a reolir gan ddarparwyr.

127. Gall troseddwyr gael amryw o wahanol ddedfrydau a bydd angen teilwra'r dull talu yn ôl canlyniadau i adlewyrchu hyn. Byddwn yn ystyried dau fodel cyffredinol. Bydd un yn ymwneud â throseddwyr a gafodd ddedfryd gymunedol. Bydd y llall yn ymwneud â'r rheini a gafodd eu dedfrydu i'r ddalfa.

### Dedfrydau cymunedol

128. Gall dedfryd gymunedol gynnwys gofynion o blith 12 o opsiynau posibl. Er mwyn rheoli troseddwyr yn effeithiol rhaid sicrhau bod holl ofynion y ddedfryd gymunedol wedi'u cyflawni a'u gorfodi, a bod y troseddwr yn cael ei ailsefydlu. Mae modd cyflenwi ymyriadau anstatudol sydd â'r amcan o hyrwyddo ailsefydlu drwy ddarparwyr hefyd.

129. Ar hyn o bryd mae gofynion dedfrydau cymunedol yn cael eu cyflenwi gan amryw o ddarparwyr gwahanol. Mae'r tabl isod yn dangos y 12 gofyniad, y darparwr neu gomisiynydd lleol presennol a phrif ddiben y gofyniad.

| Swyddogaeth | Darparwr Presennol | Prif Ddibenion |
|---|---|---|
| Rheoli troseddwyr | Y gwasanaeth prawf | Cyflenwi'r ddedfryd |
| 1. Cyflawni Gofyniad am Weithgarwch | Wedi'i gomisiynu neu ei gyflenwi gan y gwasanaeth prawf | Ailsefydlu |
| 2. Cyflawni Gofyniad Ailsefydlu Cyffuriau | Darpariaeth wedi'i hariannu gan yr Adran Iechyd | Ailsefydlu |
| 3. Cyflawni Gofyniad am Driniaeth Iechyd Meddwl | Darpariaeth wedi'i hariannu gan yr Adran Iechyd | Ailsefydlu a diogelu'r cyhoedd |
| 4. Cyflawni Gofyniad Triniaeth Alcohol | Darpariaeth wedi'i hariannu gan yr Adran Iechyd | Ailsefydlu |
| 5. Cyflawni Gofyniad am Oruchwyliaeth | Wedi'i gomisiynu neu ei gyflenwi gan y gwasanaeth prawf | Ailsefydlu |

| Swyddogaeth | Darparwr Presennol | Prif Ddibenion |
|---|---|---|
| 6. Cyflenwi Rhaglenni wedi'u Hachredu | Wedi'i gomisiynu neu ei gyflenwi gan y gwasanaeth prawf | Ailsefydlu a diogelu'r cyhoedd |
| 7. Cyflawni Gofyniad Cau Allan | Wedi'i orfodi gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf | Diogelu'r cyhoedd |
| 8. Cyflawni Gofyniad Gweithgarwch Gwaharddedig | Wedi'i orfodi gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf | Diogelu'r cyhoedd |
| 9. Cyflawni Gofyniad Preswylio | Wedi'i orfodi gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf | Diogelu'r cyhoedd |
| 10. Cyflawni Gofyniad Cyrffyw | Darparwr sector preifat | Cosbi a diogelu'r cyhoedd |
| 11. Cyflawni Gofyniad Gwaith Di-dâl | Yn agored i gystadleuaeth ar ôl adolygiad gwerth gorau | Cosbi a gwneud iawn |
| 12. Cyflawni Gofyniad Canolfan Ymbresenoli i Droseddwyr Hŷn | Wedi'i gomisiynu gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr | Cosbi ac ailsefydlu |

130. Mae angen i'r model comisiynu ar gyfer cyflenwi dedfrydau cymunedol gadw'r cydbwysedd cywir rhwng:

- sicrhau bod y gofynion statudol wedi'u cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol;
- rheoli a gorfodi'r cyflawni ar y ddedfryd gyfan;
- gostwng aildroseddu.

131. Nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol nac yn ddymunol gosod contract ar gyfer y gwahanol amcanion hyn ar wahân i'w gilydd ac i ddarparwyr gwahanol. Yn hytrach, bydd angen i ni wneud contract yn y rhan fwyaf o achosion ag un darparwr i gyflenwi'r ddedfryd gymunedol gyfan. Bydd hyn yn golygu gwneud dau fath o daliad. Gwneir un taliad am gyflawni'r gofynion statudol a sicrhau cydymffurfio â'r ddedfryd. Byddai taliad pellach yn cael ei wneud yn ôl y canlyniadau y mae'r darparwr yn eu sicrhau wrth ostwng aildroseddu.

132. Gallai'r darparwr hwn, neu gonsortia o ddarparwyr, ddewis is-gontractio rhai gwasanaethau i bartneriaid eraill. Byddai angen i'r model hwn sicrhau bod y risg o fethiant wedi'i reoli'n briodol rhwng y prif ddarparwr a'r is-gontractwr gan ddefnyddio safonau priodol.

### Troseddwyr sydd wedi'u dedfrydu i'r ddalfa

133. Bydd y troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd o fwy na 12 mis yn cael eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Ystyr rhyddhau ar drwydded yw bod y troseddwr yn dal i gwblhau dedfryd o garchar ond ei fod wedi'i ryddhau i'r gymuned dan set o amodau. Pennir y rhain gan lywodraethwr y carchar gan gydweithio â'r swyddog prawf. Mae'r cynllun dedfryd gyfan sy'n cwmpasu elfennau carcharol a chymunedol y ddedfryd yn cael ei reoli ar y cyd gan swyddogion prawf yn y gymuned a rheolwyr achos yn y ddalfa.

134. Gall fod yn anodd pennu pa gorff sy'n haeddu'r clod mwyaf am ostwng aildroseddu. Y rheswm am hynny yw y gallai ymyriadau ailsefydlu gael eu cyflenwi gan nifer o wahanol garchardai yn ogystal â gwasanaethau prawf. Ar gyfer y troseddwyr hyn, gallai fod yn well i fodel talu yn ôl canlyniadau ganolbwyntio ar dalu i ddarparwr gwasanaethau prawf i ostwng aildroseddu, gan mai ef fydd â'r cysylltiad mwyaf parhaus â'r troseddwr, rhwng traddodi'r ddedfryd a'i chwblhau. Byddai hyn yn golygu creu perthynas gydweithredol rhwng y darparwr yn y gymuned a darparwr y carchar.

135. Ar gyfer y troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd o lai na 12 mis yn y ddalfa nid oes gofyniad am oruchwyliaeth oni bai eu bod rhwng 18 a 21 mlwydd oed. Credwn fod cyfle i ddatblygu model sy'n talu i rai carchardai yn ôl canlyniadau am ailsefydlu troseddwyr. Gellid cymhwyso hyn orau at y rheini sy'n cwblhau dedfrydau o lai na 12 mis yn y ddalfa, yr oedd 56% ohonynt wedi cwblhau eu dedfryd mewn un carchar yn 2007. Byddai model o'r fath yn rhoi cymhelliad i'r carchar neu garchardai wneud y defnydd gorau o'u hamser gyda'r troseddwr a'i ailgysylltu â'r gymuned ar ôl ei ryddhau.

### Ystod fwy amrywiol o ddarparwyr

136. Yng Nghynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2011-2015 nodir na fyddwn bellach yn darparu gwasanaethau ailsefydlu'n uniongyrchol heb wirio a all y sectorau preifat, gwirfoddol neu gymunedol eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

137. Bydd y dull talu yn ôl canlyniadau'n hybu arloesedd ac yn amlygu'r gwahanol sgiliau yn yr holl sectorau. Rhaid i ni sicrhau bod ein model comisiynu'n gwneud defnydd o'r creadigedd ac arbenigedd y gall darparwyr annibynnol eu cynnig. Mae hyn yn cynnwys y darparwyr gwirfoddol bach ac arbenigol a mentrau cymdeithasol. Gall darparwyr o'r fath wneud gwahaniaeth gwirioneddol gyda'r troseddwyr hynny y mae'n fwyaf anodd eu newid.

138. Wrth ymchwilio i opsiynau talu yn ôl canlyniadau byddwn yn ystyried y rhwystrau penodol sy'n wynebu'r darparwyr llai hyn ac yn pennu'r opsiynau gorau i'w galluogi i fod yn rhan o farchnad ddarparu ddeinamig a chymysg.

139. Rydym eisoes wedi lansio'r Bond Effaith Gymdeithasol yng ngharchar Peterborough sy'n canolbwyntio ar y troseddwyr hynny sy'n treulio llai na 12 mis yn y ddalfa. Mae buddsoddwyr cymdeithasol yn talu ymlaen llaw am wasanaethau dwys a mentora a gyflenwir gan y sector gwirfoddol a chymunedol. Byddwn ni'n talu'n gyfan gwbl ar sail y canlyniadau y maent yn eu sicrhau.

**Bond Effaith Gymdeithasol Peterborough**

Bydd Ymddiriedolaeth St Giles yn cydweithio'n agos â darparwyr eraill yn y sector gwirfoddol a chymunedol i ostwng aildroseddu dan gynllun Bond Effaith Gymdeithasol Peterborough a lansiwyd gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Garchardai a Gwasanaethau Prawf, Crispin Blunt AS, ar 10 Medi 2010.

Dan y cynllun peilot, mae Social Finance wedi comisiynu Ymddiriedolaeth St Giles i ymgymryd â gwaith dwys gyda 3000 o garcharorion a gafodd ddedfryd fyr dros gyfnod o chwe blynedd, y tu mewn i garchar Peterborough ac ar ôl eu rhyddhau, i'w helpu i ailsefydlu yn y gymuned.

140. Rydym eisoes wedi cael amrywiaeth fawr o gynigion llawn dychymyg ar gyfer cynlluniau talu yn ôl canlyniadau gan ddarparwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Mae gennym ddiddordeb o hyd mewn ymchwilio i fwy o ddulliau arloesol, gan gynnwys rhai o eiddo buddsoddwyr sydd â meddwl cymdeithasol, i dalu yn ôl canlyniadau a byddwn yn dal i groesawu cynigion pellach fel rhan o'r broses ymgynghori.

141. Er mwyn cael mwy o effeithlonrwydd yn gyffredinol byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o gystadleuaeth. Bydd hyn yn cymryd lle dulliau Gwerth Gorau lle maent yn bodoli. Byddwn yn cyhoeddi rhaglen gystadleuaeth gynhwysfawr ar gyfer yr holl wasanaethau rheoli troseddwyr ym Mehefin 2011 a fydd yn egluro ein defnydd o gystadleuaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac wedyn. Bydd y rhaglen yn cael ei chynllunio fel ei bod nid yn unig yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ond hefyd yn diwygio gwasanaethau ac yn datblygu'r farchnad.

### Treialu dulliau talu yn ôl canlyniadau

142. Rydym wedi ymrwymo i roi prawf ar y dull talu yn ôl canlyniadau a'i ddatblygu ymhellach cyn ei roi ar waith yn llawn. Byddwn yn comisiynu o leiaf bedwar prosiect talu yn ôl canlyniadau am ailsefydlu gan gynnwys:

- dau brosiect ar raddfa fawr ar gyfer troseddwyr a reolir ar ddedfrydau cymunedol a'r rheini a gaiff eu rhyddhau ar drwydded, sy'n cwmpasu'r holl droseddwyr priodol ym maes cyfiawnder troseddol;
- dau brosiect talu yn ôl canlyniadau ar gyfer troseddwyr a ryddheir o'r carchar, sy'n canolbwyntio ar y troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd o lai na 12 mis.

143. Bydd y broses ymgynghori'n dylanwadu ar y gwaith parhaus o gynllunio a datblygu'r prosiectau talu yn ôl canlyniadau am ailsefydlu yn y gymuned a'r carchar. Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio'r prosiectau hyn, gan gydweithio â darparwyr i fireinio'r cynigion, erbyn Awst 2011.

144. Rydym yn credu hefyd fod lle i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd yn fwy effeithiol drwy dalu yn ôl canlyniadau. Byddai hyn yn golygu comisiynu gwasanaethau drwy dalu i amryw o ddarparwyr am sicrhau canlyniadau gan gynnwys rhai lle mae'r troseddwr yn rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau, yn cael ac yn cynnal cyflogaeth yn ogystal ag ailsefydlu. Mae ein cynigion

i gydweithio â'r Adran Iechyd, y Swyddfa Gartref a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflawni hyn wedi'u disgrifio ym Mhennod 2.

### Treialu dull lleol o dalu yn ôl canlyniadau

145. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatganoli grym ac atebolrwydd i ardaloedd lleol. Fel y mae'r dulliau integredig o reoli troseddwyr a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2 yn awgrymu, rydym yn credu bod partneriaid lleol sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, gwasanaethau carchardai a phartneriaid eraill yn gallu cydweithio'n fwy effeithiol i ostwng troseddu ac, o ganlyniad, y galw am wasanaethau cyfiawnder yn eu hardal.

146. Rydym yn bwriadu cyflwyno cynllun cymhelliant lleol. Mae'r model hwn yn galw ar bartneriaid lleol i gydweithio i ddatblygu cynllun i atal troseddu a gostwng aildroseddu. Wedyn byddant yn cydgomisiynu gwasanaethau arloesol i lenwi unrhyw fylchau. Byddant yn rhydd i dargedu eu hadnoddau ar grwpiau penodol o droseddwyr yn unol â'u blaenoriaethau a'u patrymau troseddu lleol. Os oeddent yn gallu gostwng troseddu ac felly'r galw am wasanaethau cyfiawnder troseddol drwy eu cydymdrech, byddent yn cael cyfran o unrhyw arbedion a gafwyd. Gellid ailfuddsoddi'r symiau hyn wedyn mewn gweithgarwch pellach i atal troseddu ar y lefel leol.

147. Er mwyn rhoi prawf ar ymarferoldeb a manteision model o'r fath, byddwn yn lansio ac yn rhedeg dau brosiect o Ebrill 2011 am ddwy flynedd:

- un prosiect ym Manceinion Fwyaf;
- un prosiect ar draws nifer o Fwrdeistrefi Llundain, yn cynnwys Lewisham a Croydon.

148. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'r ardaloedd hyn er mwyn cynllunio'r dull o weithredu. Bydd gwasanaethau prawf a charchardai'n cydweithio'n agos â Maer Llundain, Heddlu Llundain, Cymdeithas Awdurdodau Manceinion Fwyaf a Heddlu Manceinion Fwyaf, yn ogystal â phartneriaid mewn awdurdodau lleol, wrth i ni ddatblygu'r model ar gyfer y cynlluniau peilot. Byddwn hefyd yn ceisio dysgu gwersi lle mae dulliau partneriaeth wedi'u rhoi dan brawf eisoes, er enghraifft, prosiectau arloesi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru.

149. Etholir Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym Mai 2012 a bydd ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol dros ostwng troseddu a sicrhau plismona effeithiol. Byddant yn gyfrifol am gydweithio â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i ostwng troseddu. Bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau dan ddyletswydd gytbwys i gydweithio â'i gilydd. Bydd y prosiectau talu yn ôl canlyniadau lleol yn datblygu rhai pwyntiau dysgu pwysig ar gyfer y modd y dylai'r cydweithio hwn ategu ein hegwyddorion o dryloywder ac atebolrwydd lleol mwy.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C22.** A ydych yn cytuno mai'r ffordd orau i gomisiynu gwasanaethau drwy dalu yn ôl canlyniadau ar gyfer dedfrydau cymunedol yw integreiddio hynny mewn contract ehangach sy'n cynnwys camau i sicrhau bod y ddedfryd wedi'i chyflawni?

**C23.** Beth yw'r ffordd orau i adlewyrchu cyfraniad y gwahanol ddarparwyr mewn dull talu yn ôl canlyniadau ar gyfer y troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd o garchar a'u rhyddhau ar drwydded?

**C24.** Beth yw'r ffordd orau i ddatblygu'r farchnad i sicrhau sylfaen amrywiol o ddarparwyr?

## Talu darparwyr yn ôl canlyniadau

Mae'n hollbwysig pennu'r mecanwaith talu ar gyfer ailsefydlu. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni benderfynu'r canlynol:

- y troseddwyr hynny y mae'n briodol cymhwyso'r dull talu yn ôl canlyniadau atynt;
- sut i fesur aildroseddu;
- sut i fesur llwyddiant.

Egwyddor ein dull gweithredu yw creu dull mesur syml y mae'n hawdd i'r cyhoedd ei ddeall ac sy'n cymell darparwyr i sicrhau'r canlyniad iawn.

### Cymhwyso'r dull talu yn ôl canlyniadau at y troseddwyr priodol

150. Nid ydym yn credu ei bod o reidrwydd yn briodol cymhwyso cyfundrefn talu yn ôl canlyniadau at yr holl droseddwyr. Yn benodol, credwn fod rhesymau da dros hepgor y rheoli ar droseddwyr sy'n achosi risg uchel i'r cyhoedd o ddull talu yn ôl canlyniadau, gan fod yr asiantaethau goruchwylio sy'n cymryd rhan yn y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd – sy'n cynnwys carchardai, gwasanaethau prawf, yr heddlu ac eraill – yn canolbwyntio ar reoli'n effeithiol y risg o niwed oddi wrth droseddwyr o'r fath. Mae mwy o fanylion am ein hymagwedd at reoli troseddwyr difrifol a pheryglus ym Mhennod 4.

151. Yn yr eithaf arall, mae rhai troseddwyr y gwyddom eu bod yn llawer llai tebygol o aildroseddu nag eraill. Er enghraifft, mae'r gyfradd aildroseddu ymysg troseddwyr sydd â gofyniad ar ei ben ei hun am waith di-dâl (Gwneud Iawn â'r Gymuned) yn gymharol isel – 25% o'i gymharu â 40% yn gyffredinol. Er bod cyfradd aildroseddu o 25% yn dal i achosi pryder, credwn fod dadl o bosibl dros hepgor troseddwyr o'r math hwn o'r dull talu yn ôl canlyniadau fel y caiff arloesedd ei dargedu ar y troseddwyr mwyaf problemus. Byddem yn falch o gael sylwadau am y cynnig hwn.

### Mesur canlyniadau

152. Ar hyn o bryd caiff aildroseddu ei fesur drwy gymharu cyfraddau ailgollfarnu. Mae hyn yn asesu a yw troseddwr wedi'i gael yn euog o drosedd neu droseddau pellach a gyflawnwyd o fewn blwyddyn ar ôl ei ryddhau o'r carchar neu ddechrau dedfryd gymunedol. Gallwn fesur lefel gyffredinol yr aildroseddu un ai drwy weld a yw troseddwr wedi aildroseddu, neu drwy fesur nifer y troseddau y mae troseddwr yn eu cyflawni. Mae Prif Ystadegydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi lansio ymgynghoriad ar y ffordd orau i fesur aildroseddu yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad ar gael yn http://www.justice.gov.uk/publications/statistics-comment.htm.

153. Mae'n bosibl mai'r dull cywiraf o fesur a yw troseddwr penodol wedi'i ailsefydlu'n llwyddiannus yw a ydyw wedi'i gollfarnu, wedi cael rhybudd neu wedi cael Hysbysiad Cosb am Anhrefn am gyflawni trosedd pellach. Fodd bynnag, rydym hefyd am roi cymhelliant i ddarparwyr ganoli eu hymdrechion i fwy o raddau ar y rheini sy'n fwyaf tebygol o aildroseddu'n aml. Byddai hyn yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar nifer cyffredinol y troseddau y mae grŵp o droseddwyr wedi'u cyflawni yn hytrach nag ar ddull o fesur sy'n canolbwyntio ar unigolion yn unig.

154. Mae angen hefyd i ni bennu beth a gaiff ei gyfrif yn y model talu yn ôl canlyniadau. Mae nifer o opsiynau, yn cynnwys:

| Mesur | Disgrifiad | Asesiad |
|---|---|---|
| Yr holl aildroseddu a brofwyd | Nifer y collfarnau, rhybuddion neu rybuddion o gosb am anhrefn ar gyfer grŵp penodol o droseddwyr | Dyma'r dull mwyaf cynhwysfawr o fesur aildroseddu sy'n cynnwys yr holl ail droseddau |
| Yr holl ail gollfarnau a brofwyd | Nifer y collfarnau, ar gyfer grŵp penodol o droseddwyr | Mae'n hepgor gwarediadau llai difrifol ac yn canolbwyntio ar ail gollfarnau mewn llys |
| Ail gollfarnau'n arwain at warediad difrifol | Nifer yr ail gollfarnau sy'n arwain at orchymyn cymunedol neu ddedfryd garcharol | Mae'n canolbwyntio'n llwyr ar y troseddau hynny sy'n arwain at ddedfryd gymunedol, dedfryd a atalwyd neu ddedfrydu'n syth i'r ddalfa |

155. Mae nifer o ffyrdd hefyd i ni allu mesur llwyddiant y darparwr wrth ostwng aildroseddu. Gallai hyn gynnwys mesur cynnydd yn erbyn 'cyfradd a ragfynegwyd' neu fesur gostyngiadau ar gyfer grŵp penodol o droseddwyr yn erbyn lefel a gytunwyd o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol. Ym mhob achos, po fwyaf fydd y grŵp o droseddwyr, mwyaf tebygol yw hi y bydd perfformiad yn cael ei fesur yn gywir. Mae hyn yn lleihau'r risg o wobrwyo neu gosbi darparwyr oherwydd ffactorau allanol ehangach a allai effeithio ar gyfraddau aildroseddu yn hytrach na mesur eu llwyddiant yn iawn.

156. Rydym hefyd yn deall bod dadl o bosibl dros wobrwyo darparwyr yn wahanol am ailsefydlu gwahanol fathau o droseddwr. Gallai gwahanol grwpiau o droseddwyr alw am driniaeth wahanol, gan gynnwys troseddwyr benywaidd, troseddwyr o grwpiau lleiafrifol ethnig a

throseddwyr sy'n oedolion ifanc. Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a oes unrhyw grwpiau penodol lle byddai cynllun talu gwahanol yn sicrhau gwell canlyniad.

### Cymhellion gwrthnysig

157. Gall unrhyw system fesur greu cymhellion gwrthnysig i gyrraedd y targed ond peidio â chyflawni'r canlyniad a ddymunir. Rhan allweddol o'r dull o reoli contractau talu yn ôl canlyniadau fydd sicrhau bod y darparwr yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniad yn y ffordd iawn.

158. Rydym hefyd yn awyddus i leihau'r posibilrwydd i'r cymhellion gwrthnysig hyn godi yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw darparwyr yn cael dewis pa droseddwyr y bydd eu llwyddiant yn cael ei fesur yn eu herbyn. Mae'r egwyddor hon wedi'i chymhwyso yng nghynllun peilot Bond Effaith Gymdeithasol Peterborough, lle bydd llwyddiant y darparwyr yn cael ei fesur ar sail yr holl droseddwyr a gaiff eu rhyddhau, nid y rhai y maent yn gweithio gyda hwy'n unig. Bydd yn ofynnol hefyd i ddarparwyr rannu gwybodaeth â'r heddlu ac asiantaethau eraill os ydynt yn amau bod troseddwr yn peri risg i'r cyhoedd neu os yw mewn perygl o aildroseddu yn y dyfodol agos.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C25.** A ydych yn cytuno y dylid hepgor troseddwyr risg uchel a'r rheini sy'n llai tebygol o aildroseddu o'r dull talu yn ôl canlyniadau?

**C26.** Pa ddull mesur sy'n cydweddu orau â'r egwyddorion yr ydym wedi'u nodi ar gyfer talu yn ôl canlyniadau?

**C27.** Beth yw'r opsiwn gorau ar gyfer mesur aildroseddu a llwyddiant er mwyn hyrwyddo dull talu yn ôl canlyniadau?

**C28.** A oes dadl o blaid teilwra'r dull ar gyfer unrhyw fath penodol o droseddwr?

## Diwygio gwasanaethau

Byddwn yn ail-lunio gwasanaethau carchardai a phrawf yn sylfaenol i leihau biwrocratiaeth ddiangen, grymuso gweithwyr proffesiynol y rheng flaen a'u gwneud yn fwy atebol drwy'r canlynol:

- diwygio'r dull o reoli Ymddiriedolaethau Prawf a charchardai;
- adolygu targedau a safonau i sicrhau mwy o hyblygrwydd a disgresiwn proffesiynol;
- ystyried posibiliadau a gwerth gwahanol fodelau busnes fel rhai lle mae gweithwyr sector cyhoeddus yn ffurfio cydweithfeydd sy'n eiddo i'r gweithwyr;
- diwygio'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i leihau costau a galluogi comisiynu lleol effeithiol yn y tymor hwy.

### Rhyddid i ddarparwyr y sector cyhoeddus

159. Mae rôl bwysig a pharhaus gan Ymddiriedolaethau Prawf o ran darparu arweinyddiaeth strategol leol ar gyfer rheoli troseddwyr. Maent yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd â phartneriaid sy'n cynnwys yr heddlu, y llysoedd, gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol. Rydym yn rhagweld y bydd y darparu ar gyngor i'r llys yn aros yn briod faes i'r sector cyhoeddus ond bydd y gwasanaethau y mae Ymddiriedolaethau'n eu darparu'n uniongyrchol yn fwyfwy agored i gystadleuaeth, yn cynnwys cystadlu drwy fodelau talu yn ôl canlyniadau.

160. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod y 35 o Ymddiriedolaethau Prawf yn cael eu rheoli fwyfwy yn erbyn y canlyniadau y maent yn eu sicrhau, yn hytrach nag yn ôl mewnbynnau a phrosesau. Er mwyn ategu hyn, adolygir y trefniadau perfformiad ar gyfer gwasanaethau prawf i leihau nifer y mesurau o brosesau a mewnbwn a chanolbwyntio i fwy o raddau ar ganlyniadau. Byddwn hefyd yn adolygu'r Safonau Prawf Cenedlaethol i roi llawer mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol y rheng flaen o ran y modd y maent yn rheoli troseddwyr, yn enwedig y rheini sy'n cwblhau dedfryd gymunedol. Mae mwy o wybodaeth am ein cynigion ar gyfer diwygio dedfrydau cymunedol ym Mhennod 4.

161. Erbyn Ebrill 2012 bydd gan Ymddiriedolaethau Prawf gontractau llai a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod dedfrydau'r llys yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac ar ostwng aildroseddu. Byddwn hefyd yn datblygu cynigion i roi mwy o gyfleoedd i Ymddiriedolaethau arfer eu barn eu hunain o ran y modd y maent yn rheoli eu busnesau. Y nod yw creu amodau tecach fel y gellir cymharu'r sector cyhoeddus yn fwy uniongyrchol â darparwyr sy'n cael eu talu yn ôl canlyniadau.

162. Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael modelau busnes newydd sy'n gallu cyflenwi gwasanaethau gwell, lleihau costau a chynnig modd i greu partneriaethau â'r cymunedau lle mae asiantaethau lleol yn gweithio. Mae rhai Ymddiriedolaethau Prawf yn arloesi fel hyn yn barod. Byddwn yn ystyried rhoi mwy o annibyniaeth i weithwyr sector cyhoeddus wrth reoli'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi, drwy greu mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd a thrwy gydfuddiannu. Bydd hyn o gymorth i drawsnewid y gwasanaeth prawf cyhoeddus fel ei fod yn mabwysiadu model talu yn ôl canlyniadau.

**Astudiaeth Achos: Menter Gymdeithasol Furnish**

Mae Furnish yn enghraifft o fenter gymdeithasol lwyddiannus sydd wedi'i hariannu i gyflenwi prosiect Gwneud Iawn â'r Gymuned. Mae Furnish yn rhan o gorff o'r enw Staying Put Services, sy'n helpu i liniaru tlodi drwy gynnig cyngor am dai, cyngor am fyw a bwyta'n iach a gwasanaethau eraill i wella bywydau pobl sydd mewn angen.

O ganlyniad i bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Brawf Llundain, mae troseddwyr yn ymgymryd â lleoliadau gwaith dwys, gan weithio dri diwrnod yr wythnos am 18 awr nes iddynt gwblhau cyfanswm eu horiau Gwneud Iawn â'r Gymuned. Mae eu gwaith yn cynnwys casglu a danfon dodrefn i gwsmeriaid a pharatoi archebion mewn warws.

Mae trefnu gwaith dwys i droseddwyr yn gallu gwella cyfraddau cydymffurfio ac yn rhoi gwell cyfle i droseddwyr gael profiad gwirioneddol o waith. Ers 2007 mae troseddwyr wedi gwneud 1,400 o ddiwrnodau o waith di-dâl i Furnish.

163. Bydd carchardai'n troi fwyfwy at fabwysiadu trefniadau tebyg i rai'r Ymddiriedolaethau Prawf a bydd ganddynt fwy o ddisgresiwn ynghylch eu ffordd o gyflenwi ymyriadau ailsefydlu, a threfniadau perfformiad diwygiedig. Bydd angen bob amser am rywfaint o reolaeth ganolog ar garchardai ac angen i sicrhau bod lleoedd ym mhob rhan o'r ystad garchardai'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd yn dal yn hollbwysig cadw safonau allweddol sy'n ymwneud â chynnal diogelwch a gwedduster. Ein huchelgais, er hynny, yw cysylltu'r system garchardai fwyfwy â chymunedau lleol. Er mwyn cyfrannu at hyn mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n ofynnol ac yn rhoi lefel briodol o ddisgresiwn i staff carchardai.

164. Fel y gellir cyflawni'r newidiadau hyn gan greu arbedion, caiff y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ei ddiwygio a'i leihau'n sylweddol drwy fabwysiadu dull gweithredu swyddogaethol symlach yn lle'r strwythurau rhanbarthol presennol. Bydd y model swyddogaethol hwn yn darparu ar gyfer comisiynu gwasanaethau; rheoli carchardai sector cyhoeddus; rheoli contractau ag Ymddiriedolaethau Prawf a darparwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol a chymunedol; a chyflenwi gwasanaethau gweithredol cenedlaethol. Bydd y swyddogaeth gomisiynu newydd yn cadw'r oruchwyliaeth ganolog dros gomisiynu yn y tymor byr, ond caiff y cyfrifoldeb hwn ei ddatganoli fwyfwy i gomisiynwyr lleol er mwyn cael y gallu mwyaf i ymateb i anghenion lleol, dileu costau a galluogi cyrff llai mewn cymunedau i gymryd rhan yn llawn. Yn y cyfamser gallem fynnu bod y prif gontractwyr yn cynnwys cyrff lleol, llai er mwyn sicrhau dull gweithredu integredig ar lefel leol. Datblygir y model hwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C29.** Beth yw'r prif ddiwygiadau mewn safonau a threfniadau rheoli perfformiad a fydd yn sicrhau bod mwy o ryddid a disgresiwn proffesiynol gan garchardai a gwasanaethau prawf a'u bod yn gallu canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau?

**C30.** Beth yw'r prif ddiwygiadau mewn trefniadau ariannol a fydd yn helpu carchardai a gwasanaethau prawf i sicrhau canlyniadau am lai o gost?

**C31.** Sut y byddwn yn cynnwys cyrff gwirfoddol llai yn ogystal â'r rhai cenedlaethol mwy?

# 4. Diwygio dedfrydu

Mae'n hen bryd ailwampio'r fframwaith dedfrydu. Ymrwymodd y Llywodraeth i gynnal arolwg llawn o bolisi dedfrydu. Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau cychwynnol o'r gwaith hwnnw.

Rhaid i'r fframwaith dedfrydu gynnig amryw o opsiynau i lysoedd er mwyn cosbi ac ailsefydlu troseddwyr a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae dedfrydau wedi mynd yn fwyfwy llym yn y blynyddoedd diwethaf, ac eto nid yw'r cyhoedd yn cydnabod hyn ac mae llawer yn dal i feddwl eu bod yn rhy drugarog. Credwn mai'r rheswm am hyn, yn rhannol, yw bod y fframwaith dedfrydu wedi datblygu fesul tipyn fel ei fod bellach yn rhy gymhleth, yn anodd ei ddehongli a'i weinyddu, ac yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall. Ni wnaethpwyd digon i egluro dedfrydu. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ymysg dioddefwyr a'r cyhoedd ynghylch pa mor hir y dylai troseddwr aros yn y ddalfa, ac nid oes ffordd hawdd i'r cyhoedd ddeall cosbau a chyfraddau aildroseddu yn eu hardal. O ganlyniad i hyn mae ymddiriedaeth yn isel.

Mae llawer o'n dadansoddi a llawer o'r cynigion ac opsiynau a gyflwynir yn gymwys i oedolion a hefyd i bobl ifanc dan 18 oed. Er hynny, mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y fframweithiau dedfrydu i oedolion ac i bobl ifanc, ac felly mae angen tynnu sylw at rai nodweddion gwahanol o bwys. Mae Pennod 5 yn ymdrin yn benodol â dedfrydu ac ailsefydlu pobl ifanc.

Yn y bennod hon rydym yn cyflwyno cynigion i ddiwygio dedfrydu ar gyfer oedolion fel y byddwn yn gwneud y canlynol:

- creu fframwaith dedfrydu symlach, mwy tryloyw y mae'n haws i lysoedd ei weithredu ac i ddioddefwyr a'r cyhoedd ei ddeall;
- gwneud gwell defnydd o ddedfrydau carcharol a chymunedol i gosbi troseddwyr a gwella diogelwch cyhoeddus;
- gwneud mwy i hyrwyddo ein nodau o wella ailsefydlu a gwneud mwy o iawn â dioddefwyr a chymdeithas.

## Fframwaith dedfrydu symlach y mae'n haws i lysoedd ei weithredu ac i'r cyhoedd ei ddeall

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym yn bwriadu gwneud dedfrydu'n fwy syml a thryloyw. Mae hyn cynnwys cynigion i wneud y canlynol:

- mabwysiadu fframwaith dedfrydu sengl ar gyfer yr holl droseddwyr;
- dileu elfennau yn y gyfraith sy'n llesteirio disgresiwn llysoedd yn ddi-fudd;
- cyhoeddi mwy o ddata lleol am ddedfrydu fel y bydd y cyhoedd yn dal y system gyfiawnder yn atebol i fwy o raddau.

165. Yn y degawd diwethaf cafwyd cyfres o 27 o wahanol Ddeddfau Seneddol a ychwanegodd haenau o gymhlethdod ac erydu elfennau pwysig mewn disgresiwn barnwrol. O ganlyniad mae gennym fframwaith nad yw'n ennyn digon o ymddiriedaeth ymysg y cyhoedd ac sy'n anodd ei ddehongli a'i weinyddu gan lysoedd a'i weithredu gan garchardai a gwasanaethau prawf.

166. Er mwyn gwneud y fframwaith dedfrydu'n symlach ac yn fwy tryloyw, ein huchelgais yw:

- symleiddio'r gyfraith fel bod un fframwaith dedfrydu'n unig yn gymwys i droseddwyr;
- diddymu deddfwriaeth sydd heb ei gweithredu;
- gwella'r cyfathrebu ynghylch dedfrydu, mewn partneriaeth â grwpiau dioddefwyr a'r Cyngor Dedfrydu.

167. Mater i'r llysoedd yw penderfynu'r ddedfryd gyfiawn ym mhob achos o fewn fframwaith cyffredinol sydd wedi'i osod gan y Senedd a'i ategu gan ganllawiau a luniwyd gan y Cyngor Dedfrydu annibynnol. Y llys sydd wedi clywed yr holl dystiolaeth a'r holl ffeithiau am y trosedd a'r troseddwr sydd yn y lle gorau i wneud penderfyniad cyfiawn. Ar yr un pryd, fel mater o degwch, rhaid i ni geisio sicrhau cysondeb o ran dedfrydu. Er nad oes dau drosedd neu ddau droseddwr sydd yn union yr un fath, dylai troseddau tebyg a gyflawnir mewn amgylchiadau tebyg arwain at ddedfryd debyg.

168. Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu yw'r brif ffordd i allu sicrhau cysondeb. Mae'n ofynnol i lysoedd ddilyn y canllawiau hyn ac eithrio lle nad yw o fudd i gyfiawnder iddynt wneud hynny mewn achos penodol. Mae'r Cyngor Dedfrydu wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac mae'n symud ymlaen yn gyflym â'i raglen waith. Bydd canllawiau sy'n cael eu parchu a'u dilyn gan y farnwriaeth yn hollbwysig o ran sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder.

169. Mae symleiddio'r fframwaith dedfrydu hefyd yn golygu lleihau nifer cynyddol y gofynion cymhleth a manwl sydd ar y llys i egluro pam y mae neu pam nad yw wedi rhoi dedfryd benodol. Mae amcan y gofynion hyn yn dda. Mae dioddefwyr a throseddwyr am wybod pam y mae llys wedi rhoi dedfryd benodol a chael sicrwydd bod y gyfraith wedi'i chymhwyso'n deg. Er hynny, ni chyflawnir hyn yn aml mewn gwirionedd am fod y gyfraith yn mynnu bod llysoedd yn mynd yn llafurus drwy restr o fanylion technegol sy'n ychwanegu at ddryswch y cyhoedd. Drwy roi dyletswydd fwy cyffredinol yn lle'r gofynion hyn, bydd llysoedd yn gallu canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig wrth egluro'r ddedfryd y maent wedi'i rhoi. Bydd y newid hwn yn rhoi mwy o ddisgresiwn i lysoedd o ran y modd y maent yn egluro'r ddedfryd, ond yn cadw pwysigrwydd yr angen i wneud hynny yn y llyfr deddfau.

170. Bydd rhan allweddol o'r symleiddio'n ymwneud ag Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae'n hanfodol i ni gadw rôl y Senedd mewn pennu'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Nid ydym yn bwriadu diddymu'r ddedfryd orfodol o garchar am oes na chymell unrhyw ostyngiad cyffredinol yn yr amodau sylfaenol a osodir am lofruddiaeth. Er

hynny, mae Atodlen 21 wedi'i seilio ar bolisi sy'n fyrbwyll ac yn rhy benodol. Mae'n ceisio dadansoddi'n hynod fanwl bob un math o lofruddiaeth. O ganlyniad i hyn cafwyd canllawiau sy'n gymysglyd ac yn orgymhleth, ac sydd â mawr angen eu diwygio fel y gellir gwneud cyfiawnder yn briodol ym mhob achos.

171. Er mwyn symleiddio'r fframwaith dedfrydu, rydym hefyd yn bwriadu:

- ystyried a ddylem osod dyletswydd fwy cyffredinol y gall y llysoedd ei chymhwyso yn lle'r gofynion penodol iddynt egluro sut y daethant i benderfyniad neilltuol;
- creu dull symlach o fesur effaith y cyfnod a dreulir ar remand yn y ddalfa ar y cyfnod y dylid ei dreulio fel rhan o ddedfryd o garchar a chodi'r baich o wneud hynny oddi ar y llysoedd;
- rhoi ffactor gwaethygu cyffredinol yn lle'r rhestr bresennol o grwpiau y cymhwysir y ffactor gwaethygu statudol atynt wrth ddedfrydu am droseddau casineb lle mae'r troseddwr yn amlygu casineb neu elyniaeth tuag at grŵp penodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y diogelwch a roddir eisoes i'r grwpiau ar y rhestr bresennol yn cael ei gymhwyso'n fwy cyffredinol at bob lleiafrif. Mae troseddau casineb yn ddifrifol a byddwn yn hybu ymdrechion i'w hatal ac i gosbi troseddwyr.

172. Yn ogystal â cheisio sicrhau bod y fframwaith dedfrydu'n gliriach, rydym wedi ymrwymo i roi gwybodaeth glir i'r cyhoedd am benderfyniadau dedfrydu. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi data ar lefel llysoedd am ganlyniadau dedfrydu am y tro cyntaf fel y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad yn rhwydd at wybodaeth sy'n dangos sut mae troseddwyr yn cael eu cosbi yn eu hardal. Drwy'r cyfuniad hwn o fesurau rydym yn gobeithio cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ddedfrydu ac, wrth wneud hynny, y graddau y mae'r cyhoedd yn dal y system gyfiawnder yn atebol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C32.** Beth yw'r ffyrdd gorau i symleiddio'r fframwaith dedfrydu?

**C33.** Pa ofynion a ddylai fod ar y llysoedd i egluro'r ddedfryd?

**C34.** Sut y gallwn egluro dedfrydu'n well i'r cyhoedd?

## Gwneud gwell defnydd o ddedfrydau carcharol a chymunedol i gosbi troseddwyr a gwella diogelwch cyhoeddus

Mae'r adran hon yn egluro sut byddwn yn gwneud gwell defnydd o ddedfrydau carcharol a chymunedol i gosbi troseddwyr difrifol a pheryglus ac yn benodol sut byddwn yn gwneud y canlynol:

- diwygio'r fframwaith dedfrydu carcharol fel ei fod yn fwy tryloyw;
- cadw goruchwyliaeth yn y gymuned ar drwydded yn rhan o ddedfrydau carcharol o fwy na 12 mis, ond sicrhau bod dedfrydau o'r fath wedi'u hegluro'n well, gydag ymagwedd fwy cymesur a hyblyg at alw'n ôl;
- diwygio dedfrydau amhenodol o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd;
- ceisio sicrhau defnydd priodol o remandio.

### Egluro'r fframwaith dedfrydu carcharol

173. Ni chafwyd digon o eglurder yn y modd y mae dedfrydau carcharol wedi'u hesbonio i ddioddefwyr ac i'r cyhoedd. Mae hyn wedi creu dryswch ynghylch sut mae dedfrydau'n gweithio, yn enwedig o ran y gwahaniaeth rhwng hyd y ddedfryd fel y mae wedi'i gyhoeddi a'r cyfnod sydd i'w dreulio yn y carchar, gan fod canfyddiad yn aml fod troseddwyr yn cael eu 'rhyddhau'n gynnar' ac nad ydynt yn cwblhau'r ddedfryd gyfan. Mae'r dryswch hwn wedi'i ddwysáu drwy gyflwyno ac wedyn dileu'r cynllun Trwydded Diwedd Carchariad i ostwng gorlenwi a'r defnydd cynyddol o ddedfrydau amhenodol lle mae rhyddhau'n fater i ddisgresiwn y Bwrdd Parôl a neb yn glir ynghylch pa mor hir y bydd y troseddwr yn y ddalfa mewn gwirionedd.

174. Dan y fframwaith presennol, mae dwy ran i'r rhan fwyaf o ddedfrydau carcharol o fwy na blwyddyn. Treulir yr hanner cyntaf yn y carchar, ac wedyn caiff troseddwyr eu rhyddhau i'r gymuned dan oruchwyliaeth ar drwydded ar gyfer gweddill eu dedfryd gyda gofyniad i gydymffurfio ag amodau penodol. Os bydd troseddwr yn methu â chydymffurfio, gellir ei alw'n ôl i'r carchar. Gall y cyfnod y mae troseddwyr yn ei dreulio ar drwydded yn y gymuned fod yn bwysig o ran eu hailgyflwyno i gymdeithas, a rhoi cyfle i oruchwylio eu hymddygiad a'u hailsefydlu. Mae arolygon wedi dangos bod y cyhoedd, at ei gilydd, yn deall sail resymegol y cyfnod ar drwydded ar ôl ei egluro iddynt.

175. Ceir rhyddhau rhai troseddwyr o'r ddalfa hyd at bedwar mis a hanner cyn pwynt hanner ffordd eu dedfryd dan y cynllun Cyrffyw Cadw Gartref. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i garcharorion fyw y tu allan i'r carchar ar yr amod na fyddant yn torri amodau eu cyrffyw. Ei amcan yw rheoli'r pontio o'r ddalfa, gan roi gwell cychwyniad i'r rhan o'r ddedfryd sydd ar drwydded. Gosodir amod y cyrffyw wedi'i fonitro ar ben unrhyw amodau trwydded safonol y mae'r troseddwr o danynt. Mae rhai troseddwyr, fel troseddwyr rhyw cofrestredig, wedi'u heithrio o'r cynllun Cyrffyw Cadw Gartref. Nid yw Cyrffyw Cadw Gartref yn hawl a dim ond os bydd carcharorion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac asesiad risg, gan gynnwys gwiriad ar amgylchiadau'r cartref, y gellir ei ganiatáu. Caiff troseddwyr eu rhyddhau dan gyrffyw i gyfeiriad penodol am gyfnod o 12

awr fel arfer (e.e. rhwng 7pm a 7am). Defnyddir tag electronig am ffêr y troseddwr i fonitro'r cyrffyw hwn. Os bydd y carcharor yn torri'r cyrffyw, bydd y tag electronig yn rhybuddio contractwyr a cheir galw'r troseddwr yn ôl i'r carchar.

176. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cadw trefn sylfaenol y ddedfryd garcharol benodol, gan gynnwys y cynllun Cyrffyw Cadw Gartref, oherwydd gall gynnig modd i ailsefydlu'n effeithiol a diogelu'r cyhoedd. Er hynny, byddwn yn cymryd camau i sicrhau ei bod wedi'i deall a'i hegluro'n well. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn caniatáu i lysoedd arfer eu synnwyr cyffredin wrth egluro dedfrydau. Byddwn hefyd yn cydweithio â'r Cyngor Dedfrydu a grwpiau dioddefwyr i wella dealltwriaeth gyffredinol o'r fframwaith dedfrydu ac o ffurf dedfrydau penodol.

177. Credwn y dylai goruchwyliaeth ar drwydded barhau'n elfen annatod yn y fframwaith dedfrydu a bod rhaid ei gorfodi, a hynny'n cynnwys galw troseddwyr yn ôl i'r ddalfa os yw'n briodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn diogelwch y cyhoedd, am fod y cyfnod ar drwydded yn rhan o'r ddedfryd ac am fod galw'n ôl i'r ddalfa'n gallu atal aildroseddu. Er hynny, byddwn yn gwneud newidiadau fel y gellir galw'n ôl ac ailryddhau er mwyn hyrwyddo'r amcanion ailsefydlu'n well. Mewn llawer o achosion, bydd troseddwyr sydd wedi'u galw'n ôl yn aros yn y ddalfa nes daw cyfnod eu dedfryd i ben heb reswm da ac mae hynny'n amharu ar ailsefydlu.

178. Diogelwch cyhoeddus yw'r ystyriaeth bwysicaf mewn penderfyniadau ynghylch a ddylid ailryddhau troseddwr sydd wedi'i alw'n ôl. Yn yr achosion mwyaf difrifol, dylai'r rhyddhau fod wedi'i seilio ar asesiad risg gan y Bwrdd Parôl. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad oes tystiolaeth o risg difrifol i'r cyhoedd, mae cyfnod galw'n ôl penodedig neu ailryddhau'r troseddwr ar ôl adolygiad gweinyddol yn gallu rhoi sancsiwn digonol i'r troseddwr. Felly byddwn yn ceisio ymestyn pwerau'r Llywodraeth i wneud hyn.

179. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r carchar i gosbi troseddwyr difrifol a pheryglus, mae angen hefyd i ni ailfeddwl ynghylch sut rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer remandio. O'i ddefnyddio'n briodol, mae remandio yn y ddalfa yn helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel, ac mae'n briodol bod deddfwriaeth ar fechnïaeth wedi'i chryfhau'n ddiweddar i adlewyrchu'r flaenoriaeth honno'n well. Mae'n amlwg bod rhaid i'r llysoedd allu remandio diffynyddion yn y ddalfa mewn achosion difrifol, a lle mae perygl o aildroseddu o fath a fyddai'n achosi anaf. Er hynny, mae rhai miloedd o bobl yn cael eu remandio yn y ddalfa bob blwyddyn wrth aros treial am droseddau y byddent yn annhebygol o gael dedfryd garcharol amdanynt o'u cael yn euog, am nad yw'r trosedd y maent wedi'u cyhuddo o'i gyflawni'n ddigon difrifol i gyfiawnhau hynny. Mewn achosion o'r fath, nid yw remandio yn y ddalfa yn cyflawni fawr ddim. Mae terfynau i'r hyn y gall y system cyfiawnder troseddol ei wneud yn briodol â charcharorion sydd heb gael collfarn. Felly mae'r Llywodraeth yn bwriadu dileu'r opsiwn o remandio yn y ddalfa ar gyfer diffynyddion a fyddai'n annhebygol o gael dedfryd garcharol. Ni fydd hyn yn llesteirio cyfiawnder. Os bydd diffynnydd yn methu ag ymbresenoli, bydd y treial yn mynd ymlaen yn ei absenoldeb, oni bai fod rheswm da dros beidio.

## Cynnal diogelwch cyhoeddus

180. Gwnawn bopeth yn ein gallu i gynnal ystad garchardai ddiogel a lleihau'r perygl o ddianc. Rydym yn falch bod yr hanes rhagorol o ostwng nifer y carcharorion sy'n dianc wedi parhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid oes unrhyw garcharorion ar y lefel diogelwch uchaf wedi dianc ers 1995, ac mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y carcharorion eraill sydd wedi dianc dros y degawd diwethaf, er gwaethaf y cynnydd mawr ym mhoblogaeth y carchardai yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn cadw'r record hon drwy bennu a dileu risgiau a allai arwain at fwy o ddianc.

181. Mae diogelwch cyhoeddus yn galw am reoli effeithiol a lleihau risgiau yn y ddalfa ac yn y gymuned. Er enghraifft, mae rhaglenni triniaeth troseddwyr rhyw wedi dangos eu gwerth drwy leihau'r risgiau i'r cyhoedd oddi wrth y troseddwyr hyn, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu rhaglenni i ostwng troseddu rhywiol a threisgar.

**Ymatebion effeithiol i droseddau â chyllyll**

Mae troseddau â chyllyll yn gwbl annerbyniol. Maent yn achosi gofid i ddioddefwyr ac maent yn gysylltiedig yn aml â'r math o drais gan gangiau sy'n gallu distrywio cymunedau cyfan. Mae safbwynt y Llywodraeth yn glir. Bydd unrhyw oedolyn sy'n cyflawni trosedd â chyllell yn gallu disgwyl cael ei anfon i'r carchar a gall troseddwyr difrifol ddisgwyl dedfryd hir. Ar gyfer pobl ifanc, mae'r opsiwn o garcharu ar gael bob amser a bydd hefyd yn briodol ar gyfer troseddau difrifol.

Rhaid i ni wneud yn well wrth ymyrryd cyn i droseddu gyrraedd y pwynt hwn. Rydym yn datblygu ymyriad newydd yn y gymuned sydd â'r amcan penodol o atal trais o'r math hwn. Bydd hwn o gymorth i sicrhau y bydd troseddwyr a gaiff eu dal â chyllell yn eu meddiant yn wynebu canlyniadau ac ymateb sydd â'r bwriad o atal gwaethygu yn eu hymddygiad.

182. Mae nifer bach o droseddwyr difrifol iawn na fyddant byth yn gadael y carchar. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o droseddwyr yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ar ryw bwynt, ar drwydded ac yn agored i gael eu galw'n ôl. Os yw troseddwyr wedi'u dedfrydu i gyfnod o fwy na blwyddyn yn y ddalfa am drosedd rhywiol neu dreisgar, cânt eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r rhain yn gymwys hefyd i droseddwyr eraill y credir eu bod yn peri risg uchel o achosi niwed difrifol i'r cyhoedd. Mae'r trefniadau'n gweithio'n dda. Maent yn mynnu bod y gwasanaeth carchardai, yr heddlu a'r gwasanaethau prawf yn cydweithio i reoli'r risgiau oddi wrth droseddwyr peryglus yn y gymuned. Caiff y dull o weithredu ei raddoli'n ofalus yn ôl y risg oddi wrth droseddwyr penodol. Ni all ac ni ddylai'r un llywodraeth byth addo dileu risg yn gyfan gwbl, ond byddwn yn sicrhau bod y system hon yn dal i gael ei gweithredu'n briodol.

**Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd**

Daethpwyd â'r gwasanaeth prawf, yr heddlu a'r carchardai at ei gilydd o fewn y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru a Lloegr i ddarparu systemau rheoli cadarn ar gyfer rhai o'r troseddwyr mwyaf peryglus sy'n byw yn ein cymunedau.

Mae'r Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw wedi'i chyflwyno yn y gwasanaeth prawf, yr heddlu a'r gwasanaeth carchardai. Bellach mae gan bob un o'r gwasanaethau hyn fynediad at yr un wybodaeth am hanes troseddwyr a'r risg o niwed oddi wrthynt. Bydd hyn yn gwella ansawdd ac amseroldeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu pellach.

183. Diogelwch cyhoeddus yw ein prif ystyriaeth bob amser a bydd dedfrydau amhenodol yn briodol bob tro ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Nid oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i newid dedfrydau am oes. Serch hynny, credwn na ddylai dedfrydau amhenodol o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd ond bod ar gael ar gyfer y troseddwyr mwyaf peryglus. Gosodir dedfrydau o'r fath yn ôl asesiad o'r hyn y gallai troseddwyr ei wneud yn y dyfodol yn hytrach na'u bod wedi'u seilio ar yr hyn y maent wedi'i wneud mewn gwirionedd. Ni chaiff troseddwyr eu rhyddhau'n awtomatig, ond yn ôl disgresiwn y Bwrdd Parôl.

184. Cyflwynwyd dedfryd Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ac mae wedi'i defnyddio ar sail ehangach o lawer na'r disgwyl. Mae'n ofynnol i garcharorion a gaiff ddedfryd o'r fath gwblhau cyfnod sylfaenol ac wedyn gall y Bwrdd Parôl benderfynu a ydynt yn addas i'w rhyddhau neu beidio. Y bwriad a'r disgwyl oedd na fyddai ond yn cael ei defnyddio mewn nifer cyfyngedig o achosion, ond mae tua 6,000 o garcharorion yn cwblhau dedfryd Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn barod.

185. Mae'r trefniadau presennol yn mynnu bod troseddwyr yn bodloni'r Bwrdd Parôl nad ydynt yn peri risg yn y gymuned na ellir ei reoli. Gall fod yn anodd iawn bodloni'r maen prawf negyddol hwn ac mae hyn wedi arwain at gyfradd rhyddhau isel iawn o tua 5%.

186. Gan fod terfynau ar ein gallu i ragweld troseddu difrifol yn y dyfodol, mae amheuaeth yn codi hefyd ynghylch y sail i ddedfrydau llawer o droseddwyr sydd wedi'u Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd ac, ymysg y rheini sydd eisoes yn cwblhau dedfryd o'r fath, pa rai ohonynt sy'n addas i'w rhyddhau.

187. Mae'r defnydd eang o ddedfrydau Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd wedi drysu'r fframwaith dedfrydu ymhellach hefyd, a gall danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd gan nad oes fawr o fodd i'r llys, y troseddwr na'r cyhoedd gael gwybod beth fydd hyd tebygol y cyfnod yn y ddalfa neu a fydd byth yn dod i ben.

188. Mae hefyd yn bwysig bod y rheini a gaiff ddedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn gallu diwygio a bod trefniadau priodol ar waith i'w hailsefydlu. Po fwyaf fydd nifer y carcharorion sy'n cael y ddedfryd hon, mwyaf anodd fydd hynny.

189. Am y rhesymau hyn, credwn fod dadl gryf dros sicrhau bod dedfrydau o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd wedi'u cyfyngu i'r achosion eithriadol o ddifrifol y bwriadwyd hwy ar eu cyfer yn wreiddiol. Bwriadwn gyflwyno diwygiadau i sicrhau hynny. Cymerodd y Llywodraeth flaenorol gamau tuag at hyn yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 drwy ddileu'r opsiwn o osod y ddedfryd ar y rheini na fyddent fel arall wedi haeddu dedfryd o bedair blynedd o leiaf (dwy flynedd yn y ddalfa a'r gweddill ar drwydded) ond fe'u defnyddir yn rhy eang o hyd.

190. Mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu cyfyngu'r ddedfryd i'r rheini a fyddai fel arall wedi haeddu dedfryd benodol o ddeng mlynedd o leiaf (h.y. o leiaf bum mlynedd yn y carchar a'r gweddill ar drwydded). Bydd y newid hwn yn sicrhau bod y ddedfryd yn gymwys i gategorïau o droseddau difrifol yn hytrach na rhai cyffredinol a bydd yn cwmpasu rhai sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar difrifol iawn. Byddai troseddwyr na fyddant bellach yn cael dedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn cael dedfryd garcharol benodol yn lle hynny am y trosedd y maent wedi'u collfarnu amdano a fyddai, mewn achosion difrifol, yn un sylweddol iawn, wrth gwrs. Byddai llysoedd yn dal i allu defnyddio'r Ddedfryd Estynedig er Diogelu'r Cyhoedd a fyddai'n rhoi troseddwyr dan oruchwyliaeth am gyfnod hwy ar ôl eu rhyddhau, ac yn sicrhau bod modd eu galw'n ôl i'r ddalfa os oes angen. Credwn y bydd y cyfuniad hwn o ddedfrydau Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd mewn amgylchiadau cyfyngedig a dedfrydau penodol a fydd yn aml yn rhai hir yn ein galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer ailsefydlu er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well.

191. Pan gaiff carcharorion eu rhyddhau dan ddedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd, byddant yn cael eu rheoli yn y gymuned dan drefniadau trwydded cadarn. Mae'r holl droseddwyr a gafodd ddedfryd o'r fath hefyd yn dod dan y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r Bwrdd Parôl yn cyflawni swyddogaeth hanfodol ar gyfer diogelu'r cyhoedd, ond mae angen i ni ystyried a yw'r prawf rhyddhau y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer carcharorion a gafodd ddedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn sicrhau'r cydbwysedd cywir. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bwrdd Parôl yn gallu rhyddhau carcharor oni bai ei fod wedi'i fodloni bod y perygl o wneud hynny'n cael ei ystyried yn ddim mwy na'r lleiaf. Yn achos troseddwr sydd eisoes wedi'i gollfarnu am drosedd difrifol, gall fod yn eithriadol anodd dangos bod y perygl o aildroseddu gyda'r lleiaf, yn enwedig tra bydd y troseddwr yn byw yn amgylchedd caeedig y carchar.

192. Mae o leiaf 40% (mwy na 2,400) o garcharorion a gafodd ddedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd eisoes wedi cwblhau tymor cosb byrraf eu dedfryd yn y ddalfa, a elwir yn dariff.

193. Rydym yn ymchwilio i ganfod a fyddai prawf newydd ar gyfer y rheini sydd wedi cwblhau eu cosb yn canoli carcharu amhenodol ar y rheini y mae'n amlwg eu bod yn achosi risg difrifol iawn o niwed yn y dyfodol. Mae'n bendant na fydd unrhyw droseddwr a gafodd ddedfryd o Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei ryddhau i'r gymuned heb ryw asesiad clir o risg. Byddai'r Bwrdd Parôl yn dal i wrthod rhyddhau troseddwyr os oedd yn glir bod hynny'n angenrheidiol i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C35.** Beth yw'r ffordd orau i ni gynyddu dealltwriaeth o ddedfrydau carcharol?

## Dedfrydu sy'n well o ran ategu ein nodau ar gyfer ailsefydlu gwell a gwneud mwy o iawn â dioddefwyr a chymdeithas

Mae'r adran hon yn egluro sut byddwn yn diwygio dedfrydu er mwyn cael gwell canlyniadau o ran ailsefydlu a gwneud iawn ac, yn benodol, sut byddwn yn gwneud y canlynol:

- delio â'r troseddwyr mwyaf mynych;
- creu dedfrydau cymunedol mwy effeithiol, gyda mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr;
- cymell mwy o ddefnydd o gosbau ariannol, gan ganolbwyntio o'r newydd ar wneud iawn;
- gwneud defnydd effeithiol a mwy effeithlon o lysoedd;
- creu fframwaith symlach ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys;
- gostwng nifer y troseddwyr sy'n wladolion tramor.

### Delio â'r troseddwyr mwyaf mynych

194. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y carchar yn gweithio orau wrth gosbi troseddwyr difrifol a pheryglus. Er hynny, mae dwy ran o dair o'r dedfrydau carcharol a roddir bob blwyddyn yn rhai am chwe mis neu lai, ac mae llawer o'r rheini am ychydig o wythnosau'n unig. Fel y nodwyd yn gynharach, mae cyfraddau uwch ar gyfer ailgollfarnu ymysg troseddwyr a gafodd ddedfryd o lai na chwe mis nag ymysg y rheini a gafodd unrhyw fath arall o ddedfryd. Mae angen i'r fframwaith dedfrydu ategu ein cynigion i ddelio'n well â'r grŵp hwn o droseddwyr sy'n llai difrifol ond yn troseddu'n fynych.

195. Wrth wynebu problemau tebyg, mae rhai gwledydd wedi dileu dedfrydau byr i bob pwrpas. Er hynny, rydym yn glir nad eu diddymu yw'r llwybr iawn i'w ddilyn. Ni fydd llysoedd yn anfon pobl i'r carchar yn ddifeddwl, ac ni fyddant ond yn defnyddio dedfryd fyr pan welant nad yw dewis dichonol arall yn cael ei gynnig yn y gymuned. Bydd angen i rai pobl fynd i'r carchar am gyfnod byr ac mae'n bwysig i ynadon allu defnyddio'r ddalfa pan fo angen. Rhaid i ni ganolbwyntio ar atal troseddwyr rhag cyrraedd y pwynt hwnnw yn y lle cyntaf.

196. Byddwn yn cyflawni hyn yn bennaf drwy ddatblygu darpariaeth well yn y gymuned gyda'r bwriad o atal troseddu lefel isel, mynych, a cheisio atal aildroseddwyr rhag troi'n droseddwyr mynych. Mae'r adran nesaf yn egluro sut rydym yn datblygu dedfrydau cymunedol mwy cadarn ac effeithiol, ond ein strategaeth hirdymor yw cynyddu ein gallu hefyd i atal troseddu'n gynharach ac atal troseddu parhaus, drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig lle byddwn yn gwneud y canlynol:

   - gweithredu'n well i atal pobl ifanc rhag dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, ac atal mwy ohonynt rhag aildroseddu wedi iddynt ddod i mewn iddi (fel y nodir ym Mhennod 5);

- delio â'r troseddwyr lleiaf difrifol cyn iddynt gyrraedd y llys, a'u symud os yw'n briodol i gael cymorth mewn cysylltiad â chyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl yn y gymuned (fel y nodwyd ym Mhennod 2);
- cymell mwy o ddefnydd o ddirwyon a gorchmynion digolledu os yw'n gosb fwy synhwyrol na chosb gymunedol, fel y gellir canolbwyntio gorchmynion cymunedol lle y gallant gynnig y canlyniadau gorau.

197. Rydym hefyd yn bwriadu diwygio'r gorchymyn dedfryd ohiriedig. Rydym yn cydnabod bod y gallu i atal dedfryd garcharol yn gallu bod yn ddefnyddiol mewn achosion lle mae'r bygythiad o fynd i'r ddalfa yn ddigon i gymell troseddwr i ddiwygio. Rydym yn ystyried a ddylem ganiatáu i lysoedd osod dedfryd ohiriedig am gyfnod o garchar sy'n hwy na'r 12 mis a ganiateir ar hyn o bryd a chynnig dewis newydd ynghylch a fyddant yn gosod gofynion cymunedol neu beidio. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddisgresiwn i'r llysoedd i wneud y defnydd gorau o ddedfrydau gohiriedig, ac i dargedu'r adnoddau a roddir at ofynion cymunedol ar y rheini a fyddai'n cael y budd mwyaf ohonynt mewn cysylltiad â chosbi neu ailsefydlu.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C36.** A ddylem roi mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd o ran y ffordd y maent yn defnyddio dedfrydau gohiriedig, a hynny'n cynnwys drwy eu hymestyn i gynnwys cyfnodau o fwy na 12 mis, a rhoi dewis ynghylch a fyddant yn gosod gofynion?

### Dedfrydau cymunedol mwy effeithiol a chadarn, gyda mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr er mwyn gostwng aildroseddu

198. Ar eu gorau, mae dedfrydau cymunedol yn ffordd effeithiol o gosbi troseddwyr, gan gynnig modd yr un pryd i ddefnyddio opsiynau ailsefydlu os oes angen i fynd i'r afael â phroblemau sydd wrth wraidd troseddu. Mae Pennod 2 yn egluro sut byddwn yn gwneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn ddwysach a mwy uniongyrchol ac yn darparu ar gyfer cyrffywiau hwy a chaletach. Mae'r adran hon yn egluro sut rydym yn bwriadu cymell defnydd mwy dyfeisgar o ddedfrydau cymunedol.

199. Ar hyn o bryd, mae un math o orchymyn cymunedol i oedolion sy'n rhoi dewis mawr o ofynion i'w gosod gan y llysoedd. Defnyddir y rhain ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniadau i hyrwyddo amcanion cyffredinol y ddedfryd. Er enghraifft, mae cyrffyw gyda'r nos yn cael effaith gosbol ac mae hefyd yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan droseddwyr i gyflawni mwy o droseddau. Gallai fod yn fodd hefyd i wneud eu ffordd o fyw'n fwy sefydlog a'i gwneud yn fwy tebygol iddynt fynychu cyrsiau sy'n gostwng aildroseddu yn ystod y dydd. Gall y gorchymyn cymunedol gynnwys triniaeth hefyd ar gyfer problemau alcohol a chyffuriau os yw'r rhain yn gysylltiedig â throseddu. Mae llysoedd wedi dweud ei bod yn ddefnyddiol iddynt gael dewis o opsiynau a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyngor a gânt gan swyddogion prawf ynghylch pa rai i'w defnyddio. Mae cyfraddau aildroseddu ar gyfer y rheini sydd ar orchmynion cymunedol yn well na'r rhai ar gyfer troseddwyr tebyg sydd wedi cael dedfryd fyr o garchar.

200. Er hyn, mae rhai gwendidau yn y gorchymyn cymunedol presennol. Mae llawer o'r rhain yn nodweddiadol o'r dull gweithredu rhy ganoledig sydd wedi mygu arloesedd ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol. Oherwydd hyn ni wireddwyd y cwbl o'r gallu sydd mewn gorchmynion cymunedol i dorri'r cylch troseddu. Mae Pennod 3 yn disgrifio sut byddwn yn rhyddhau darparwyr ac yn eu talu ar sail y canlyniadau y maent yn eu sicrhau. Er mwyn ategu hyn rydym yn dymuno cymell defnydd mwy dyfeisgar o ddedfrydau cymunedol. Nid yw hyn yn golygu gosod gofynion ar niferoedd mawr o droseddwyr nad yw eu hymddygiad troseddol yn eu teilyngu. Ni fyddai hynny'n effeithiol nac yn effeithlon fel ymateb. Yn hytrach, mae'n golygu meddwl yn fwy creadigol ynghylch sut y gellir cyfuno'r gofynion a rhoi mwy o ddisgresiwn i ddarparwyr o ran y modd y maent yn arfer eu barn broffesiynol.

201. Mae defnydd dyfeisgar o ddedfrydau cymunedol yn neilltuol o bwysig ar gyfer y grŵp o droseddwyr sy'n fach ond yn troseddu'n gyson iawn ac sydd, o ganlyniad i'w troseddu mynych, yn gwneud y niwed mwyaf i gymunedau . Mae pum ardal yng Nghymru a Lloegr eisoes yn rhedeg cynlluniau peilot i dreialu gorchymyn cymunedol dwys sy'n targedu'r grŵp hwn. Mae'n cyfuno cosb a goruchwyliaeth â rhaglenni i fynd i'r afael â throseddu. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn ac felly byddwn yn ystyried y ffordd orau i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn ehangach.

**Dedfrydau cymunedol dwys**

Roedd troseddwr o oedolyn wedi cael dedfryd ar ffurf gorchymyn cymunedol am droseddau gyrru difrifol. Roedd hefyd wedi methu â chydymffurfio â gorchmynion cymunedol blaenorol am droseddau llai difrifol. Roedd ei ddedfryd gymunedol ddwys yn cynnwys gofyniad am oruchwylio dros 12 mis, am fwy na 75 awr o waith di-dâl ac am ymbresenoli mewn rhaglen a oedd â'r bwriad o ddelio â'i ymddygiad troseddol.

Roedd y ddedfryd yn ymestynnol iawn, ond dan oruchwyliaeth fanwl cydymffurfiodd y troseddwr â'r holl ofynion. Cwblhaodd ei orchymyn gwaith di-dâl i dalu'n ôl am y difrod yr oedd wedi'i wneud yn y gymuned a chymerodd ran yn y rhaglen ymddygiad troseddol. Roedd hefyd yn ofynnol iddo ddilyn rhaglen gydymffurfio i roi sylw i'w hanes o dorri amodau dedfrydau blaenorol, cadw nifer mawr o apwyntiadau bob wythnos gyda swyddog prawf a bod yn bresennol ar gyfer ymweliadau cartref gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Bellach mae'r troseddwr wedi'i gyflogi mewn gwaith parhaol, nid yw wedi aildroseddu ac mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

202. Er mwyn galluogi staff y rheng flaen i arfer barn yn synhwyrol rhaid i ni leihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gorchmynion cymunedol. Rydym eisoes wedi dechrau asesu sut y gallwn wneud hyn drwy lansio cynllun peilot yn Ymddiriedolaeth Brawf Surrey a Sussex. Mae'r prosiect barn broffesiynol, a ddechreuodd ym mis Mehefin, yn datblygu dull newydd, mwy hyblyg, o gymhwyso Safonau Cenedlaethol sy'n rhoi mwy o ddisgresiwn i staff, yn cynnig ffyrdd mwy effeithiol o reoli llwythi achosion ac yn lleihau biwrocratiaeth. Mae'r rhyddid newydd i arfer barn broffesiynol o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol yn cynnwys penderfyniadau ynghylch:

- nifer yr apwyntiadau a'r amserlen ar eu cyfer;
- pa bryd i wneud asesiadau risg llawn;
- pa bryd y dylai troseddwr ddechrau ar gyrsiau neu raglenni.

203. Byddwn yn adolygu'r hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot er mwyn helpu i ddatblygu ymagwedd newydd at safonau sy'n rhoi mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol o ran y modd y maent yn rheoli troseddwyr ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau cyflwyno'r dull gweithredu newydd hwn o Ebrill 2011 ac yn gwneud cynnydd sylweddol yn gynnar. Ar yr un pryd byddwn yn ystyried newid canllawiau i wasanaethau prawf er mwyn osgoi gofynion diangen am oruchwyliaeth a chaniatáu'r rhyddid mwyaf posibl i staff prawf ddefnyddio eu harbenigedd i sicrhau'r gostyngiad mwyaf mewn aildroseddu.

204. Rydym hefyd yn ymchwilio i weld a allwn wella'r ddeddfwriaeth bresennol. Gallai hyn gynnwys lleihau'r graddau o fanylder y mae'n rhaid i lys ei roi wrth bennu gofynion am driniaeth neu raglenni, fel bod gan ddarparwyr fwy o le i deilwra'r ymyriad yn ôl anghenion y troseddwr. Gallai fod yn neilltuol o werthfawr cael mwy o hyblygrwydd wrth ddelio â throseddu gan bobl sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol neu iechyd meddwl. Mae tri gofyniad y gellir eu cynnwys mewn gorchymyn cymunedol ar hyn o bryd: un yr un ar gyfer cyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl. Dan y gofynion hyn, bydd troseddwyr yn cytuno i ddilyn rhaglen driniaeth sy'n dal yn wirfoddol. Fodd bynnag, fel y gellir gorfodi'r ddedfryd, mae'r ymrwymiadau a wnaiff y troseddwr, i ymbresenoli yn y ganolfan driniaeth, er enghraifft, yn rhan o'r ddedfryd a gellir anfon y troseddwr yn ôl i'r llys os bydd yn methu â chydymffurfio. Yn achos troseddwyr sydd â phroblem iechyd lefel uchel, mae hon yn ddedfryd effeithiol. Ond mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer troseddwyr sydd â phroblemau lluosog, gallai gofyniad am driniaeth iechyd fwy cyffredinol fod yn well ffordd i'w cysylltu â'r holl driniaeth y mae arnynt ei hangen. Byddai'r asesiad cychwynnol yn cael ei wneud yn rhan o'r ddedfryd, gyda threfniadau diogelu tebyg i'r rhai a geir ar gyfer y gofynion triniaeth presennol, ond nid yr ymgysylltu ag unrhyw raglen driniaeth a fyddai'n dilyn.

205. Mae lefel y defnydd o'r gofynion presennol ar gyfer triniaeth iechyd meddwl wedi bod yn siomedig er bod problemau iechyd meddwl yn gyffredin iawn ymysg troseddwyr. Gallai hyn fod yn ganlyniad, yn rhannol, i'r ffaith bod y ddeddfwriaeth yn galw am wneud adroddiad seiciatryddol llawn cyn y gellid cynnwys gofyniad, er na fydd angen am hynny bob amser. Gallai ymagwedd fwy hyblyg at asesu fod yn fwy effeithiol.

206. Bydd hyblygrwydd o gymorth hefyd i sicrhau ein bod yn fwy craff wrth sicrhau cydymffurfio â gorchmynion cymunedol. Ar hyn o bryd, nid yw deddfwriaeth na chanllawiau'n rhoi fawr o le i farn broffesiynol. Er enghraifft, caiff rhai troseddwyr eu dychwelyd i'r llys yn ddiangen ar gyfer gwrandawiadau am dorri amodau er y byddai'n fwy effeithiol parhau â'r ddedfryd. Rydym yn ystyried a ddylid rhoi mwy o ddisgresiwn i reolwyr troseddwyr ynghylch pa bryd i ddefnyddio camau gorfodi a dychwelyd troseddwr i'r llys, a rhoi mwy o ddewisiadau i'r llysoedd o ran sicrhau bod troseddwyr yn wynebu canlyniadau priodol am dorri amodau. Er

enghraifft, gallai hyn gynnwys caniatáu iddynt ddefnyddio sancsiynau buan fel dirwyon fel cosb am dorri amodau, ochr yn ochr â'r pwerau pellgyrhaeddol sydd ganddynt eisoes i roi dedfryd fwy llym. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o newid y gyfraith i ganiatáu i reolwyr troseddwyr derfynu gorchmynion yn gynnar os yw troseddwr wedi "ennill" hyn drwy'r cynnydd a wnaeth.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C37.** Sut y gallwn sicrhau'r dedfrydu cymunedol mwyaf effeithiol er mwyn atal troseddu mynych?

**C38.** A fyddai gofyniad cyffredinol am driniaeth iechyd mewn gorchymyn cymunedol yn ychwanegu gwerth drwy gynyddu nifer y troseddwyr sy'n cael eu trin yn llwyddiannus?

**C39.** Pa mor bwysig yw'r gallu i bennu bod troseddwyr wedi torri amod wrth beidio â mynd am driniaeth i ddelio â'u hanghenion o ran cyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl?

**C40.** Pa gamau y gallwn eu cymryd i ganiatáu mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol wrth reoli troseddwyr yn y gymuned, gan orfodi cydymffurfio'n fwy effeithiol yr un pryd?

**C41.** Sut y gallem dargedu dedfrydau cymunedol yn well fel y gallant helpu i ailsefydlu troseddwyr cyn iddynt gyrraedd y ddalfa?

### Mwy o ddefnydd o gosbau ariannol, gan ganolbwyntio o'r newydd ar wneud iawn

207. Er nad yw cosbau ariannol yn gosb ddigonol yn yr achosion mwyaf difrifol, mae dadleuon perswadiol dros eu defnyddio ar gyfer llawer o droseddwyr cyn troi at sancsiynau eraill. Mae cosbau ariannol, wedi'u gosod ar y lefel briodol, yn gallu bod yr un mor effeithiol â dedfryd gymunedol fel atalfa a chosb. Mantais ychwanegol yw nad ydynt yn effeithio ar gyfleoedd am gyflogaeth nac yn amharu ar gyfrifoldebau teuluol ac felly'n atal tuedd bellach at ffordd droseddol o fyw.

208. Y ddirwy yw'r ddedfryd fwyaf cyffredin o hyd ond, heblaw am orchmynion digolledu, mae'r defnydd o gosbau ariannol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Pennod 1 yn egluro ein cynigion i hybu mwy o ddefnydd o orchmynion digolledu fel bod mwy o ddioddefwyr yn gallu cael iawn uniongyrchol gan droseddwyr. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid gwneud mwy o ddefnydd o ddirwyon a gorchmynion digolledu ochr yn ochr â chosbau cymunedol a hefyd fel cosbau ar eu pen eu hunain.

209. Mae angen i'r defnydd cynyddol hwn o gosbau ariannol fynd law yn llaw ag ymdrechion o'r newydd i orfodi cosbau'n well. Cafwyd gwelliannau arwyddocaol yn y gyfradd talu dirwyon yn y blynyddoedd diwethaf, a chasglwyd 86% o gosbau ariannol yn 2009/10. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae rhai troseddwyr o hyd sy'n osgoi talu dirwyon yn gyson ac yn fwriadus. Ar gyfer y grŵp hwn, credwn fod lle i gyflymu'r defnydd o warantau atafaelu, i roi'r dewis o un ai talu dirwyon yn llawn neu wynebu'r atafaelu ar asedau ar unwaith.

210. Yn ogystal â newidiadau yn y defnydd o warantau atafaelu, rydym hefyd am ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r atafaelu ar asedau fel cosb ar ei phen ei hun. Mae pŵer gan lysoedd eisoes i wneud gorchymyn atafaelu ar ôl rhoi dedfryd mewn achosion lle mae troseddwyr wedi elwa'n ariannol o droseddau. Drwy adennill asedau a gafwyd drwy droseddu, cyfleir neges rymus i droseddwyr nad yw troseddu'n talu.

211. Er hynny, nid oes pŵer ar hyn o bryd i lysoedd orchymyn atafaelu eiddo personol fel gwarediad ar ei ben ei hun. Credwn y byddai atafaelu asedau fel ceir yn gallu bod yn gosb effeithiol i droseddwyr sy'n brin o arian parod ond yn dal i feddu ar rai asedau. Am fod gwerth isel i lawer o nwyddau wrth eu hailwerthu, byddai'n rhaid i ni ystyried yn ofalus a fyddai cynllun o'r fath yn gosteffeithiol. Er hynny, rydym yn bwriadu ymchwilio i ganfod a oes mathau penodol o droseddwr y byddai atafaelu eiddo'n gallu bod yn ddewis effeithiol ar eu cyfer yn lle gwarediadau llys presennol. Byddwn hefyd yn ystyried a fyddai gosod cyfyngiadau ar deithio mewn gwledydd tramor yn gallu bod yn ychwanegiad buddiol at orchymyn cymunedol y gellid ei orfodi weithiau drwy atafaelu pasbort y troseddwr.

212. Yn ogystal â hynny, rydym am ymchwilio i'r dichonolrwydd o ddefnyddio cosbau ariannol yn amlach i gyflawni elfen gosbol y gorchymyn cymunedol. Er enghraifft, gellid rhoi cosb ariannol i droseddwr yn lle gofyniad cosbol fel Gwneud Iawn â'r Gymuned, ochr yn ochr â gofyniad am ailsefydlu.

213. Y prif opsiynau er mwyn cael mwy o ddefnydd o gosbau ariannol yn gyffredinol yw:

- annog llysoedd i ystyried gosod dirwy a chreu dyletswydd gadarnhaol ar lysoedd i ystyried gwneud gorchymyn digolledu oni bai fod y dioddefwr yn dymuno iddo beidio â chael ei wneud;
- darparu ar gyfer mwy o ddefnydd o bwerau i atafaelu asedau troseddwyr;
- cymell defnyddio cosbau ariannol mewn achosion lle byddai'r troseddwr yn cael dedfryd gymunedol ar hyn o bryd er mwyn cyflawni rhai o elfennau cosbol y ddedfryd.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C42.** Sut y dylem gynyddu'r defnydd o ddirwyon a gorchmynion digolledu er mwyn talu'n ôl i ddioddefwyr am y niwed a wnaed iddynt?

**C43.** A oes mathau penodol o droseddwr y byddai atafaelu asedau'n gosb effeithiol ar eu cyfer?

### Defnyddio'r llysoedd yn effeithlon ac yn effeithiol

214. Er bod y rhan fwyaf o lawer o achosion yn cael eu trafod mewn llysoedd ynadon, rhoddir prawf a dedfryd ar y troseddau mwyaf difrifol yn Llys y Goron. Mae'r llwyth gwaith yn Llys y Goron wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf: derbyniwyd bron un rhan o bump yn fwy o achosion yn Llys y Goron ar gyfer treial neu ddedfryd yn 2009 nag yn 2006 (136,000 o'i gymharu â 113,000). Mewn llawer o ardaloedd mae oedi hir ac ôl-groniadau: roedd bron 40,000 o achosion yn aros am dreial

yn 2009. Cafwyd llwyddiannau sylweddol o ran gwella effeithlonrwydd yn y llysoedd: yn ystod yr un cyfnod, deliodd Llys y Goron â bron 20,000 yn fwy o achosion ar gyfer treial neu ddedfryd.

215. Mae cryn le i wella. Un o'r agweddau gwaethaf ar aneffeithlonrwydd yw bod mwy na dwy ran o dair o'r achosion sy'n cyrraedd Llys y Goron yn gorffen drwy bledio'n euog. Plediwyd mewn ymhell dros 10,000 o achosion o'r fath yn 2009 wrth ddrws y llys. Yn y rhan fwyaf o achosion o'r fath byddai'r diffynnydd wedi gallu pledio yn llys yr ynadon. Oherwydd y methiant i wneud hynny mae adnoddau – costau llys, costau'r heddlu a'r erlyniad, cymorth cyfreithiol – yn cael eu gwastraffu ar achosion nad oes angen iddynt fynd ymhellach. At hynny, mae dioddefwyr a thystion yn gorfod disgwyl yn hwy cyn cael gwybod a fydd yn rhaid iddynt roi tystiolaeth. Gall hyn fod yn drawmatig, yn enwedig os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog ar y funud olaf. Bydd dioddefwyr a thystion wedi ymbaratoi i ymddangos yn y llys ac ail-fyw'r digwyddiadau, a'r cwbl yn ofer.

216. Mae'r fframwaith dedfrydu wedi hen gydnabod y buddion o bledio'n euog yn gynnar o ran effeithlonrwydd ac o ran arbed dioddefwyr rhag gofid diangen. Rydym am sicrhau bod diffynyddion yn cael eu hannog i bledio'n euog ar y cyfle cynharaf drwy leihau'r ddedfryd a roddir am bledio'n euog yn gynnar (y "disgownt ar ddedfryd"). Rydym yn ystyried a ellid cyflawni hyn yn well drwy gyflwyno disgownt mwyaf o hyd at 50 y cant a fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer y rheini sy'n pledio'n euog ar yr adeg gynharaf. Rydym hefyd yn edrych ar welliannau eraill ym mhroses y llys gyda'r bwriad o greu mwy o effeithlonrwydd wrth ddelio ag achosion. Mae'r cynigion hyn wedi'u disgrifio ym Mhennod 6.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C44.** Sut y gallwn roi mwy o gymhelliad i bobl sy'n euog i gofnodi'r ple hwnnw ar y cyfle cynharaf?

### Fframwaith symlach ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys

217. Wrth symleiddio'r fframwaith dedfrydu a sicrhau defnydd cymesur, effeithlon o lysoedd, rhaid canolbwyntio hefyd ar symleiddio gwarediadau y tu allan i'r llys a'u gwneud yn fwy effeithiol.

218. Bu cynnydd arwyddocaol yn nifer y gwarediadau y tu allan i'r llys a weinyddwyd bob blwyddyn hyd at 2007. Yn ychwanegol at rybuddion syml (a elwid cynt yn rhybuddion yr heddlu), mae'r gwarediadau hyn bellach yn cynnwys rhybuddion amodol, hysbysiadau cosb am anhrefn a rhybuddion canabis, yn ogystal â chamau gweithredu eraill gan yr heddlu fel dulliau cyfiawnder adferol/datrys ar lefel y gymdogaeth.

219. Nid oedd y cynnydd yn y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys wedi digwydd ar draul collfarnau: rhoddwyd collfarn yn y llys mewn nifer eithaf tebyg o achosion er bod lefelau troseddu wedi gostwng. Mae hyn yn golygu bod y system cyfiawnder troseddol wedi bod yn delio â nifer cynyddol o bobl, a hynny'n aml am gamymddygiadau lefel isel. Rhaid mynd i'r afael â throseddau o'r mathau hyn, ond yn aml gellir ymateb yn

briodol drwy ddulliau fel camau adferol gan yr heddlu, yn hytrach na phrosesau cyfiawnder troseddol ffurfiol. Rydym yn bwriadu rhoi mwy o ddisgresiwn i ardaloedd lleol, i ganiatáu iddynt ddelio'n effeithiol â throseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

220. Roedd llawer o'r cynnydd yn y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys wedi'i greu gan gymhellion gwrthnysig a roddwyd i asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys targedau i gael cyfiawnder am droseddau. Cafwyd gostyngiad bach o ganlyniad i ddileu'r targed ar gyfer "troseddau y cafwyd cyfiawnder amdanynt". Bellach rydym wedi cael gwared â'r holl dargedau yn y maes hwn, yn unol â'n bwriad i roi disgresiwn yn ôl i weithwyr proffesiynol fel swyddogion heddlu.

221. Mae lle pwysig o hyd i warediadau y tu allan i'r llys wrth ddelio â rhai troseddau. Gallant gynnig canlyniadau cyflym ac effeithiol i ddioddefwyr ac ymateb cymesur i gamymddwyn sydd heb fod yn ddigon difrifol, er ei fod yn droseddol, i erlyn amdano neu a fyddai'n arwain ar y mwyaf at gosb lefel isel yn y llys. Byddai erlyn mewn achosion o'r fath yn defnyddio swm anghymesur o adnoddau i gael canlyniad tebyg, a byddai'n aml yn golygu oedi i ddioddefwyr.

222. Gall gwarediadau y tu allan i'r llys fod o gymorth hefyd i droseddwyr ddeall effaith eu troseddu, gwneud iawn â'r dioddefwr a'r gymuned, a dargyfeirio pobl i gael triniaeth am broblemau cyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae hyn yn galw am system o warediadau y tu allan i'r llys y mae'n haws i ymarferwyr a'r heddlu ei deall, sy'n gorfodi cosbau'n effeithiol, yn helpu i newid ymddygiad troseddwyr ac yn harneisio gallu cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau yn eu hardal eu hunain, heb droi at y llysoedd.

223. Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- hybu dulliau cyfiawnder adferol dargyfeiriol ar gyfer oedolion a phobl ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel fel y nodwyd ym Mhennod 1. Bydd hyn yn rhoi disgresiwn yn ôl i swyddogion heddlu ac yn cymell troseddwyr i wneud iawn yn gyflym â dioddefwyr a'r gymuned ehangach;
- diwygio'r cynllun hysbysiad cosb am anhrefn i ganiatáu i rai a ddrwgdybir dalu i ddilyn cyrsiau addysgol priodol fel dewis yn lle talu cosb ariannol yn unig. Bydd hyn yn helpu unigolion i ddeall y niwed y mae eu hymddygiad yn ei achosi ac yn ei gwneud yn llai tebygol iddynt droseddu eto;
- gofyn am farn ynghylch estyniad pellach cyfyngedig i'r cynllun hysbysiad cosb am anhrefn i gynnwys mân droseddau penodol sy'n ymwneud ag anhrefn, gan gynnwys y rheini a gyflawnir mewn Parciau Brenhinol;
- gofyn am farn ynghylch symleiddio'r fframwaith gwarediadau y tu allan i'r llys drwy gysoni pwerau'r heddlu i ddefnyddio rhybuddion syml ac amodol â'u pwerau i gyhuddo rhai a ddrwgdybir. Rhoddir ystyriaeth ofalus a phwyllog i'r posibilrwydd o ganiatáu i'r heddlu gael y pŵer i awdurdodi rhybuddion amodol heb atgyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron;

- ystyried, yng ngoleuni cynlluniau peilot sydd i'w cwblhau yn Ionawr 2011, a ddylai amodau cosbol (cosb ariannol) beidio â bod ar gael bellach i'r heddlu ac erlynwyr fel rhan o rybudd amodol;
- ymchwilio i gyfleoedd i gynnwys y gymuned i fwy o raddau wrth ddefnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys fel y byddant yn dod yn rhan annatod o ddulliau cyfiawnder cymunedol arloesol fel Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth fel y nodir ym Mhennod 6;
- datblygu'r defnydd o rybuddion syml ac amodol i ddargyfeirio oddi wrth erlyn droseddwyr sy'n wladolion tramor sydd wedi cyflawni troseddau penodol ac yn cytuno i adael y DU (gweler yr adran isod ar wladolion tramor);
- cydweithio ag ymarferwyr i gynhyrchu fframwaith cenedlaethol cliriach ar gyfer defnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys sy'n hybu disgresiwn proffesiynol swyddogion heddlu, gan sicrhau bod gwarediadau y tu allan i'r llys yn cael eu defnyddio'n briodol, yn gymesur ac yn effeithiol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C45.** A ddylem roi pwerau i'r heddlu i awdurdodi rhybuddion amodol heb atgyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron, yn yr un modd â'u pwerau i gyhuddo?

**C46.** A ddylid gorfod cael caniatâd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer rhybudd syml am drosedd ditiol yn unig?

**C47.** A ddylem barhau i ddarparu ar gyfer rhoi rhybuddion amodol cosbol neu a ddylem gael gwared arnynt?

### Lleihau nifer y troseddwyr sy'n wladolion tramor

224. Mae poblogaeth y troseddwyr yn ein system sy'n wladolion tramor wedi dyblu yn ystod y degawd diwethaf. Ym Medi 2010, poblogaeth y carcharorion sy'n wladolion tramor oedd 11,100; tua 13% o boblogaeth gyfan y carchardai.

225. Ein hamcan yw y dylai troseddwyr sy'n wladolion tramor gael eu hallgludo neu eu symud ymaith yn weinyddol – oni bai fod ganddynt hawl gyfreithiol i aros yma – ar ddiwedd eu dedfryd. Bydd y defnydd o adnoddau cyfiawnder troseddol a mewnfudo yn dilyn yr egwyddor hon.

226. Rydym eisoes yn gweithio i weithredu mesurau i leihau llif y gwladolion tramor sydd mewn perygl o droseddu i'r DU ac i'n system cyfiawnder troseddol; ac i leihau niferoedd y gwladolion tramor sydd yn ein system eisoes.

227. Un o'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd i helpu i symud neu drosglwyddo troseddwyr sy'n wladolion tramor yn gynharach yw'r cynllun symud cynnar, y gellir ei ddefnyddio i ystyried symud carcharorion sy'n wladolion tramor o'r DU yn gynnar hyd at 270 o ddiwrnodau cyn y byddent yn gymwys i'w rhyddhau fel arall. Rydym hefyd yn bwriadu newid y gyfraith i ddarparu ar gyfer symud carcharorion sy'n wladolion tramor sydd wedi'u Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd o'r DU wedi i'r tariff ddod i ben.

228. Yn ogystal â hynny, byddwn yn adeiladu ar sail cytundebau presennol ar drosglwyddo carcharorion, sy'n cynnig modd i rai carcharorion sy'n wladolion tramor gwblhau eu dedfryd yn y wlad y daethant ohoni. Mae penderfyniad fframwaith yr UE ar drosglwyddo carcharorion i ddod i rym ym mis Rhagfyr y flwyddyn nesaf, a bydd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o wladolion yr UE a gaiff eu dedfrydu yma ar ôl ei weithredu hefyd yn cwblhau eu dedfryd yn y wlad y daethant ohoni.

229. Rydym am fynd ymhellach, ac rydym yn edrych i weld sut byddai dedfrydu a gwarediadau'n gallu sicrhau bod mwy o'r troseddwyr hyn yn cael eu symud o'r wlad yn hytrach na'u carcharu yma ar draul y trethdalwyr. Mae'r gwaith newydd hwn yn cynnwys defnyddio rhybuddion syml ac amodol i ddargyfeirio oddi wrth erlyn droseddwyr sy'n wladolion tramor sydd wedi cyflawni troseddau penodol ar yr amod eu bod yn gadael y DU. Byddwn yn dechrau treialu'r defnydd o rybuddion syml cyn hir er mwyn cael profiad o weithredu cynllun o'r fath cyn deddfu i beri bod rhybuddion amodol ar gael. Drwy ddargyfeirio achosion o'r fath yn lle erlyn, crëir arbedion i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd ac Asiantaeth Ffiniau'r DU.

# 5. Cyfiawnder ieuenctid

Pwrpas y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 flwydd oed, gan ddiogelu eu lles.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system a nifer y bobl ifanc yn y ddalfa wedi gostwng. Ac eto law yn llaw â'r cynnydd hwn ceir lefel o aildroseddu sy'n annerbyniol o uchel. Mae 75% o bobl ifanc a ryddheir o'r ddalfa a 68% o bobl ifanc sy'n cwblhau dedfrydau cymunedol yn aildroseddu o fewn blwyddyn. Rhaid i ni wneud yn well na hyn fel y gallwn atal troseddwyr ifanc heddiw rhag dod yn oedolion sy'n droseddwyr cyson yfory.

Mae'r bennod hon yn disgrifio sut rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- atal mwy o bobl ifanc rhag troseddu a'u dargyfeirio fel nad ydynt yn dechrau bywyd o droseddu, a hynny'n cynnwys symleiddio gwarediadau y tu allan i'r llys;
- diogelu'r cyhoedd a sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i beri i droseddwyr ifanc dalu'n ôl i'r rhai sy'n dioddef o'u herwydd ac i'w cymunedau;
- sicrhau defnydd effeithiol o ddedfrydu ar gyfer troseddwyr ifanc;
- rhoi cymhelliad i bartneriaid lleol i ostwng troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc gan ddefnyddio modelau talu yn ôl canlyniadau;
- datblygu llywodraethu mwy effeithiol drwy ddileu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ardaloedd lleol.

## Atal troseddu gan bobl ifanc

Er mwyn atal pobl ifanc rhag cyflawni troseddau a dechrau dilyn patrwm o ymddygiad troseddol a allai barhau wedi iddynt ddod yn oedolion, byddwn yn gwneud y canlynol:

- annog Timau Troseddwyr Ifanc i wella ansawdd gwaith gyda rhieni gan gynnwys gwaith sy'n gwneud mwy o ddefnydd o orchmynion rhianta lle na wnaiff rhieni dderbyn eu cyfrifoldebau;
- gwarediadau symlach y tu allan i'r llys;
- gwneud mwy o ddefnydd o gyfiawnder adferol.

230. Atal troseddu gan bobl ifanc yw un o'r ffyrdd mwyaf costeffeithiol o ddod â budd hirdymor i gymunedau. Mae cyfran uchel o'r oedolion sy'n droseddwyr mwyaf cyson yn cyflawni eu troseddau cyntaf mewn oedran cynnar iawn.[11,12] Drwy ymyrryd yn gynnar ym mywydau plant sydd mewn

[11] Loeber, R. a Farrington, D. P. (goln) (1998) 'Serious and Violent Juvenile Offenders; Risk Factors and Successful Interventions', Thousand Oaks, CA: Sage.

perygl a'u teuluoedd, cyn i'w hymddygiad wreiddio, y gallwn gael y cyfle gorau i dorri'r cylch troseddu.

231. Os yw plant yn gysylltiedig â throseddu lefel isel neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ein nod yw ymyrryd yn effeithiol i'w troi oddi wrth droseddu. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r rheini sydd mewn perygl – er enghraifft, pobl ifanc sy'n gysylltiedig â gangiau – a chreu cyfleoedd ar gyfer bywyd ar wahân i droseddu.

232. Mae arnom angen dull cydgysylltiedig, lleol i ddelio â'r anfanteision lluosog sydd gan lawer o droseddwyr ifanc a'r ffyrdd caotig o fyw sydd gan lawer. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth, drwy ddod â'r awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth iechyd at ei gilydd i fynd i'r afael â throseddau ieuenctid. Rydym yn cefnogi dull gweithredu'r Adran Addysg drwy'r Grant Ymyriadau Cynnar a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn rhaglenni i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd mewn perygl. Rydym hefyd yn cydweithio â phartneriaid i adeiladu ar sail cynlluniau peilot presennol sy'n ceisio dargyfeirio pobl ifanc at wasanaethau fel gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth i deuluoedd, i helpu i ymdrin â'r rhesymau dros eu troseddu a sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr ymyrraeth fwyaf priodol ar y cyfle cynharaf.

233. Mae cymorth i rieni i wella eu sgiliau rhianta yn bwysig o ran gwella cyfleoedd bywyd a gostwng aildroseddu. Lle mae rhieni'n gwrthod derbyn eu cyfrifoldebau, byddwn yn cymell Timau Troseddwyr Ifanc i wneud defnydd llawn o orchmynion rhianta. Gall y gorchmynion hyn orfodi rhieni i ddilyn rhaglen i ddatblygu eu sgiliau a chydymffurfio â gofynion penodol fel rhai i oruchwylio eu plentyn ar adegau penodol. Ym Mhennod 6 disgrifir y rhaglen Drawslywodraethol ar deuluoedd sydd â phroblemau cymhleth a chynlluniau i roi prawf ar y cysyniad o gyllidebau cymunedol i ddelio â'r materion hyn yn well.

234. Bydd pobl ifanc yn aml y cyflawni troseddau lefel isel. Oherwydd hyn, mae gwarediadau a roddir y tu allan i'r llys yn neilltuol o bwysig a dyma yw 40% o'r ymatebion i droseddau ieuenctid. Dan y system bresennol o warediadau y tu allan i'r llys, caiff troseddwyr ifanc eu codi i lefel uwch yn awtomatig i gael gwarediad mwy dwys, beth bynnag yw'r amgylchiadau neu ddifrifoldeb eu trosedd.

235. Credwn fod y dull gweithredu anhyblyg hwn yn gallu tynnu pobl ifanc i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn ddiangen, gan y gallai ymyriad anffurfiol fod yn fwy effeithiol o ran gorfodi'r person ifanc i wynebu canlyniadau ei drosedd, gwneud iawn â dioddefwyr ac atal troseddu pellach.

---

[12] Hales, J, Nevill, C, Pudney, S a Tipping, S (2009) Longitudinal analysis of the Offending, Crime and Justice Survey 2003–06. Home Office Research Report 19. Y Swyddfa Gartref.

236. Er mwyn cywiro hyn rydym yn bwriadu symleiddio'r fframwaith presennol a rhoi mwy o ddisgresiwn i'r heddlu ac erlynwyr wrth ddelio â throseddau ieuenctid cyn iddynt gyrraedd y llys. Bwriadwn roi terfyn ar y system bresennol o godi troseddwyr i lefel uwch yn awtomatig ac yn lle hynny ymddiried yn y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar lawr gwlad.

237. Bydd yr heddlu, wrth weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill, yn cael mwy o ryddid i benderfynu'r ymateb mwyaf priodol, yn ôl difrifoldeb y trosedd ac amgylchiadau'r troseddwr ifanc. Gallai hyn olygu gwneud iawn neu ymyriadau fel atgyfeirio ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl i ddelio ag ymddygiad troseddol. Byddwn hefyd yn ystyried y defnydd o hysbysiad cosb am anhrefn i bobl ifanc yn y dyfodol, mewn cysylltiad ag adolygiad y Swyddfa Gartref o offer a phwerau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

238. Oherwydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn y fframwaith ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys, byddwn hefyd yn ystyried a oes mwy o angen am hyblygrwydd mewn opsiynau dedfrydu ar gyfer y troseddwyr ifanc hynny sy'n pledio'n euog pan fyddant yn ymddangos yn y llys am y tro cyntaf. Ar hyn o bryd, bydd pobl ifanc sy'n pledio'n euog ar eu hymddangosiad cyntaf yn y llys yn cael gorchymyn atgyfeirio fel arfer. Mae gorchmynion atgyfeirio yn cael eu goruchwylio gan baneli gorchmynion atgyfeirio sy'n cynnwys gwirfoddolwyr o'r gymuned leol ac aelod o'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Bydd y panel yn gweithio gyda'r troseddwr ifanc i gytuno ar gynnwys y gorchymyn a all osod gofynion beichus i'r troseddwr ifanc ufuddhau iddynt. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd sut y gallwn beri i'r defnydd o orchmynion atgyfeirio fod yn fwy hyblyg a byddem yn falch o gael sylwadau ynghylch y ffordd orau i gyflawni hyn.

239. Er mwyn cael mwy o ddefnydd o gyfiawnder adferol byddwn yn datblygu'r rôl a gyflawnir gan aelodau gwirfoddol o baneli troseddwyr ifanc ac yn sicrhau bod ymagwedd fwy pendant at gyfiawnder adferol mewn gorchmynion atgyfeirio. Byddwn yn cynorthwyo aelodau paneli i feithrin eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio cyfiawnder adferol mewn gorchmynion atgyfeirio lle mae'r dioddefwr yn dymuno cymryd rhan. Mae cyfiawnder adferol eisoes yn rhan allweddol o gyfiawnder ieuenctid ac rydym am hyrwyddo hyn ym mhob rhan o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, gan wneud defnydd o'r profiad o gynadleddau ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C48.** Sut y gallwn symleiddio'r fframwaith gwarediadau y tu allan i'r llys i bobl ifanc?

**C49.** Beth yw'r ffordd orau i ni ddefnyddio dulliau cyfiawnder adferol i atal troseddu gan bobl ifanc a sicrhau eu bod yn gwneud iawn?

## Dedfrydu effeithiol ar gyfer troseddwyr ifanc

Mae'r ddalfa yn chwarae rhan yn y system cyfiawnder ieuenctid ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol. Fodd bynnag, mae gormod o bobl ifanc nad yw eu troseddau ymhlith y rhai mwyaf difrifol ac nad yw eu hymddygiad yn achosi perygl i'r cyhoedd yn cael eu hanfon i'r ddalfa. Byddwn yn sicrhau bod y ddalfa yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer pobl ifanc drwy wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r defnydd helaeth o remandio yn y ddalfa yn y system cyfiawnder ieuenctid;
- cyflwyno gorchymyn remandio sengl ar gyfer pawb dan 18 oed gan wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol yn raddol am holl gost y remandio diogel sydd wedi'i orchymyn gan y llys;
- diwygio Deddf Mechnïaeth 1976 i ddileu'r opsiwn o remandio pobl ifanc a fyddai'n annhebygol o gael dedfryd garcharol;
- cynnig bod Timau Troseddwyr Ifanc yn sefydlu paneli cydymffurfiaeth newydd i helpu pobl ifanc i gydymffurfio â'u dedfrydau;
- delio â thorri ar orchmynion cadw a hyfforddi drwy ddychwelyd pobl ifanc sy'n eu torri i'r ddalfa, hyd yn oed os yw eu gorchymyn cadw a hyfforddi wedi dod i ben.

240. Yn yr un modd ag oedolion, rhaid i ni ei gwneud yn glir i bobl ifanc y bydd yn rhaid iddynt wynebu'r canlyniadau am dorri'r gyfraith os byddant yn cyflawni trosedd. Mae diogelu'r cyhoedd yn hollbwysig, beth bynnag yw oed y troseddwr. Bydd yr opsiwn o gadw troseddwyr yn ddiogel yn briodol bob amser yn achos y troseddwyr ifanc mwyaf difrifol a pheryglus. Mae'n hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd ac fel cosb briodol am drosedd difrifol. Serch hynny, dylid ei ddefnyddio'n gynnil a dim ond os yw pob opsiwn arall wedi methu gan ei fod yn gwahanu pobl ifanc oddi wrth eu teuluoedd a'u cymunedau, yn gallu amharu'n ddifrifol ar addysg, hyfforddiant a datblygiad ac yn opsiwn drud nad yw'n sicrhau canlyniadau da i bobl ifanc.

241. Os nad yw'r ddalfa ond i'w defnyddio fel opsiwn wedi i bopeth arall fethu, rhaid i opsiynau fod ar gael yn y gymuned sy'n darparu'n drwyadl ac i'r un graddau ar gyfer diogelu'r cyhoedd, gwneud iawn ac ailsefydlu. Er mwyn ategu hyn, cyflwynwyd dedfryd gymunedol newydd i droseddwyr ifanc, y gorchymyn ailsefydlu ieuenctid, ym mis Tachwedd 2009. Gall hwn gynnwys dewisiadau yn lle'r ddalfa fel maethu dwys a goruchwylio ac arolygu dwys. Rydym yn asesu effaith y gorchymyn hwn ar hyn o bryd ac nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau ar yr adeg hon.

242. Fodd bynnag, yn yr un modd ag oedolion, mae'n bwysig sicrhau bod gorchmynion cymunedol yn cael eu gorfodi'n effeithiol er mwyn ennill a chadw ymddiriedaeth y dedfrydwyr a'r cyhoedd. Rydym yn pryderu bod amrywiadau yn yr arferion a ddefnyddir os torrir y gorchmynion hyn gan fod rhai ardaloedd yn awgrymu dedfryd garcharol am doriadau bach, technegol, ac ardaloedd eraill yn ceisio atebion anffurfiol hyd yn oed ar gyfer toriadau difrifol iawn.

243. Er mwyn cywiro hyn rydym yn cynnig y bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn sefydlu paneli cydymffurfiaeth newydd. Byddai'r paneli'n adolygu achos troseddwr, yn ystyried y gorchymyn cyfan a'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio gan y troseddwr â'i orchymyn, ac yn hysbysu'r swyddog cyfrifol am ei farn am yr ymateb priodol i'r toriad.

244. Cafwyd cynnydd da ar leihau'r angen am ddedfrydau carcharol i droseddwyr ifanc ac mae niferoedd y bobl ifanc sydd yn y ddalfa wedi gostwng bron un rhan o dair ers 2008. Y rhan fwyaf o'r dedfrydau carcharol i droseddwyr ifanc yw gorchmynion cadw a hyfforddi. Dedfrydau ac iddynt ddwy ran yw'r rhain, lle bydd hyd at hanner yn cael ei gwblhau yn y ddalfa a'r gweddill dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Credwn fod y ddedfryd ei hun yn cynnig fframwaith sy'n ddigon hyblyg i barhau i gael effaith ar y cyfraddau aildroseddu uchel a geir ar ôl gadael y ddalfa ac felly nid ydym yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol ar hyn o bryd. Er hynny, mae angen i ni wneud newid canlyniadol er mwyn sicrhau, os bydd troseddwr ifanc wedi torri'r gofyniad yn ei orchymyn am oruchwyliaeth, fod modd o hyd ei ddychwelyd i'r ddalfa, hyd yn oed os yw'r gorchymyn cadw a hyfforddi wedi dod i ben.

245. Er bod nifer y dedfrydau carcharol i bobl ifanc wedi bod yn gostwng, nid yw'r defnydd o remandio yn y ddalfa wedi bod yn gostwng ar yr un gyfradd. Pobl ifanc ar remand yw 28% o'r boblogaeth yn y ddalfa erbyn hyn. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw 57% o droseddwyr ifanc sydd wedi'u remandio yn mynd ymlaen i gael dedfryd garcharol. Er mwyn cywiro hyn mae angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y cymhellion priodol i fuddsoddi mewn strategaethau amgen ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

246. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer remandio pobl ifanc yn cynnwys cymysgedd o wahanol fframweithiau i benderfynu ym mhle y caiff person ifanc ei remandio a phwy fydd yn talu, yn ôl oedran a rhyw'r person ifanc. Mae angen symleiddio hyn. I gyflawni hyn rydym yn bwriadu creu gorchymyn remandio pobl ifanc sengl i rai 12-17 flwydd oed. Byddai hyn yn trosglwyddo costau llawn yr holl remandio, yn raddol ac ar y cyd â throsglwyddo cyllid, i awdurdodau lleol. Byddai lleoliadau i bobl ifanc ar remand yn dal i gael eu comisiynu a'u rheoli'n ganolog a byddai tâl yn cael ei godi ar yr awdurdod lleol am y gwasanaeth hwn.

247. Drwy greu gorchymyn sengl, byddwn yn delio â'r anghysondeb presennol lle mae rhai 17 flwydd oed yn cael eu trin fel oedolion mewn deddfwriaeth remandio. Byddwn yn sicrhau bod y strwythur yn cydweddu'n llwyr â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n rhagamodi mai ystyr plentyn yw pob person dan 18 oed.

248. Yn y cyfnod cyn cyflwyno gorchymyn remandio pobl ifanc sengl, rydym yn bwriadu defnyddio'r fframwaith cyfreithiol presennol i wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol yn raddol am holl gostau remandio i'r ddalfa drwy orchymyn llys, gan gadw'r swyddogaeth ganolog o leoli plant ar remand diogel yn y ddalfa. Mae hyn yn ategu ein camau cyffredinol i fabwysiadu dull o dalu yn ôl canlyniadau a rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb i asiantaethau lleol wrth ddarparu gwasanaethau.

249. Rydym hefyd yn bwriadu diwygio Deddf Mechnïaeth i ddileu'r opsiwn o remandio pobl ifanc a fyddai'n annhebygol o gael dedfryd garcharol. Byddai hyn yn effeithio ar y 57% o bobl ifanc ar remand sy'n cael eu rhyddfarnu neu'n cael dedfryd gymunedol ar hyn o bryd. Mae hyn yn gyson â'r cynigion ar gyfer oedolion sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 4.

250. Yn yr un modd â'r cynigion ar gyfer dedfrydu oedolion a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4 rydym hefyd yn bwriadu gwneud y newidiadau pellach canlynol:

- diwygio'r ddedfryd Cadw er Diogelu'r Cyhoedd (y ddedfryd i bobl ifanc sy'n cyfateb i Garcharu er Diogelu'r Cyhoedd) yn unol â'r diwygiadau ar gyfer dedfrydau Amhenodol i Ddiogelu'r Cyhoedd i oedolion;
- sicrhau y bydd unrhyw ddiwygio ar Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr sydd wedi'i ddisgrifio uchod ym Mhennod 2 yn gymwys i bobl ifanc.

251. Nid yw'r Papur Gwyrdd hwn yn ceisio ymdrin â ffurf yr ystad garcharol i rai dan 18 oed yn y dyfodol. Dylai'r diwygiadau uchod fod yn fodd i leihau ymhellach nifer y bobl ifanc y bydd galw am eu cadw yn y ddalfa. Yn ystod y misoedd nesaf, wrth i ni ddatblygu ein polisïau, byddwn yn ystyried ac yn ymgynghori ar ddyfodol yr ystad ddiogel i bobl ifanc.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C50.** Sut y gallwn gynyddu'r gorfodi effeithiol ar ddedfrydau i bobl ifanc?

**C51.** Sut y gallwn lwyddo i leihau'r angen am remandio pobl ifanc yn y ddalfa?

## Ariannu cyfiawnder ieuenctid a thalu yn ôl canlyniadau

Byddwn yn rhoi prawf ar y modd y gellir cyflwyno talu yn ôl canlyniadau ar gyfer cyfiawnder ieuenctid er mwyn cynnig cymhellion i ardaloedd lleol ostwng troseddu gan bobl ifanc. Er mwyn gwneud hyn rydym yn bwriadu:

- rhoi prawf ar y modd y gallwn alluogi ardaloedd lleol i gyfranogi o arbedion ariannol a risgiau sy'n deillio o ddefnyddio dalfeydd i bobl ifanc;
- rhoi prawf ar y modd y gellir defnyddio cymhellion ariannol i ardaloedd lleol i leihau'r galw ar y system cyfiawnder troseddol;
- ymchwilio i weld sut y gallai Timau Troseddwyr Ifanc a darparwyr llety diogel fabwysiadu model talu yn ôl canlyniadau.

252. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn cyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar lefel leol. Mae ynddynt staff o nifer o bartneriaid sy'n asiantaethau statudol gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau plant, iechyd ac addysg, a gwirfoddolwyr o'r gymuned. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol, sydd dan ddyletswydd statudol i atal troseddu gan bobl ifanc. Mae'r trefniant yn gweithio'n dda ac nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu gwneud newidiadau sylfaenol ym model y Timau Troseddwyr Ifanc.

253. Ar hyn o bryd mae Timau Troseddwyr Ifanc yn cael eu hariannu'n rhannol drwy grantiau o'r canol, ond daw'r rhan fwyaf o'u cyllid oddi wrth asiantaethau lleol. Bydd grant cyfiawnder ieuenctid yn dal i gael ei ddarparu o'r canol, wedi'i gyfeirio'n benodol at Dimau Troseddwyr Ifanc ac ar wahân i'r grantiau ar sail ardal a roddir i awdurdodau lleol. Yn fwy nag erioed, mae arnom angen cydweithio rhwng yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod adnoddau priodol i gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn lleol.

254. O ganlyniad i'r trefniadau ariannu hyn, mae ardaloedd lleol yn gyfrifol am ariannu a chyflenwi bron pob un o'r ymyriadau ar gyfer troseddwyr ifanc. Y prif eithriad i hyn yw os bydd person ifanc yn cael ei gymryd i'r ddalfa y bydd y costau'n cael eu dwyn yn ganolog gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bu dadl ers amser maith nad oes cymhelliad na chyfle gan asiantaethau lleol i ddatblygu dewisiadau effeithiol yn lle'r ddalfa i bobl ifanc.

255. Credwn fod rhinwedd yn y ddadl hon ac yn fwy cyffredinol yn y ddadl dros gynyddu cymhellion lleol i ostwng troseddu gan bobl ifanc. Mae ein cynigion ar gyfer remandio yn cynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb a chyllid i Dimau Troseddwyr Ifanc. Credwn fod mwy o le i roi prawf ar ddulliau gweithredu a fydd yn creu cymhellion i ardaloedd a'u gwobrwyo os byddant yn llwyddo i ymyrryd yn gynnar i atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ac esgyn drwyddi ac i ddarparu gwasanaethau ailsefydlu effeithiol.

256. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylai awdurdodau lleol gyfranogi o'r risg ariannol wrth i bobl ifanc fynd i'r ddalfa, a hefyd o'r enillion ariannol os bydd llai o bobl ifanc ac arnynt angen dedfryd garcharol. Mae hyn yn gyson â'n hegwyddorion o gael mwy o atebolrwydd lleol, a chredwn y gallai hyn arwain at lai o aildroseddu gan bobl ifanc a defnydd mwy effeithiol o'r ddalfa.

257. Felly rydym yn bwriadu rhedeg nifer bach o gynlluniau peilot, a phob un yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortia o awdurdodau lleol sy'n gwirfoddoli i gymryd rhan. Byddwn yn cytuno â'r consortia ar darged ar gyfer lleihau'r defnydd o'r ddalfa ac yn darparu grant ailfuddsoddi, ar ben y grant safonol i Dimau Troseddwyr Ifanc, i'w helpu i gyflawni hyn. Bydd y consortia yn cael defnyddio'r cyllid mewn modd hyblyg. Ar ddiwedd cyfnod y cynlluniau peilot, byddwn yn adennill rhywfaint neu'r cwbl o'r grant os bydd y consortiwm wedi methu â chyrraedd y targed a gytunwyd, ar sail y defnydd o ddalfeydd gan y consortiwm. Bydd y cynlluniau peilot yn ein galluogi i ymchwilio i weld sut y gall ardaloedd lleol gyfranogi o'r arbedion ariannol a'r risgiau o ddefnyddio'r ddalfa.

258. I ategu'r dull gweithredu hwn rydym yn bwriadu cynnwys mesurau ar gyfer pobl ifanc yn y cynlluniau peilot sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3 lle yr eglurwyd cynigion i roi prawf ar y modd y gellid defnyddio cymhellion ariannol i wobrwyo ardaloedd lleol am ostwng aildroseddu gan oedolion mewn modd tebyg. Bydd ein cynigion i dalu yn ôl canlyniadau ac i ddiwygio trefniadau atebolrwydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd – a chyfrifoldeb – i awdurdodau lleol ar gyfer ailsefydlu'r bobl ifanc hyn yn fwy effeithiol, gan adeiladu ar sail arferion da sy'n datblygu.

**Torri'r cylch: mynd i'r afael ag aildroseddu gan bobl ifanc drwy dalu yn ôl canlyniadau**

Mae Rhaglen Gostwng Aildroseddu Llundain, a elwir yn Daedalus, yn gosod her i bobl ifanc yn y ddalfa i roi'r gorau i droseddu, a chaiff y darparwr ei dalu yn ôl y canlyniadau y mae'n eu sicrhau. O dan y rhaglen mae pobl ifanc o Lundain, sydd wedi'u dedfrydu i'r ddalfa, yn cael eu lleoli mewn uned ailsefydlu lefel uwch yn sefydliad troseddwyr ifanc Feltham, lle maent yn cael eu cysylltu â brocer ailsefydlu sydd wedi'i gyflogi gan yr elusen i bobl ifanc Rathbone. Rôl y brocer ailsefydlu yw helpu'r person ifanc i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan weithio gydag ef y tu mewn a'r tu allan i'r ddalfa i'w gwneud yn llai tebygol iddo aildroseddu ac i wella ei ganlyniadau ailsefydlu.

Mae Asiantaeth Ddatblygu Llundain (y corff comisiynu) yn talu i Rathbone am sicrhau allbynnau a chanlyniadau parhaus i'r garfan o droseddwyr ifanc yn Feltham. Ymhlith yr allbynnau y mae rhai ar gyfer dechrau'r prosiect gan droseddwyr ifanc a chychwyn mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Ymhlith y canlyniadau mae un ar gyfer aros gan y troseddwr ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy am o leiaf chwe mis.

259. Rydym yn ymchwilio i weld sut y gallem gymhwyso dull talu yn ôl canlyniadau at Dimau Troseddwyr Ifanc a darparwyr dalfeydd. Byddai hyn yn cysylltu'r cyllid yr ydym yn ei roi iddynt â'r canlyniadau y maent yn eu sicrhau. Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch sut y gellid cyflawni hyn, a hefyd ynghylch sut y byddwn yn llunio contractau yn y dyfodol â darparwyr dalfeydd gan ddal hyn mewn cof.

260. Gan fod polisi i lywodraeth leol yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru, byddwn yn cydweithio â'n cymheiriaid yng Nghymru ynghylch sut y bydd unrhyw newidiadau mewn cyllid yn y dyfodol a dulliau talu yn ôl canlyniadau yn gymwys i Dimau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C52.** Beth yw'r ffordd orau, yn eich barn chi, i ni roi cymhelliad i bartneriaid i atal troseddu gan bobl ifanc?

## Gwella tryloywder ac atebolrwydd yn y system cyfiawnder ieuenctid

Rydym am ddiwygio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, a chreu mwy o atebolrwydd lleol am berfformiad drwy'r canlynol:

- strwythurau atebolrwydd cliriach ar lefel genedlaethol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid;
- rhoi mwy o ryddid ac atebolrwydd i Dimau Troseddwyr Ifanc, gan ganoli cymorth ar ardaloedd y mae arnynt ei angen fwyaf;
- rhoi mwy o ran i gymunedau mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn eu hardal.

261. Mae angen i ni ystyried sut y bydd y llywodraethu ar gyfiawnder ieuenctid yn y dyfodol yn gallu bod o gymorth i sicrhau gwell canlyniadau a gwell gwerth am arian. Fel rhan o'r ystyriaethau hyn rydym wedi penderfynu nad yw'n angenrheidiol cael asiantaeth annibynnol i gyflawni swyddogaethau presennol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi bodoli ar ei ffurf bresennol am ddegawd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae Timau Troseddwyr Ifanc wedi ymsefydlu'n gadarn wrth gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar lawr gwlad. Bellach nid oes angen arolygiaeth ganolog ar y system gan gorff ar wahân. Bydd y prif swyddogaethau y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi'u cyflawni'n dod yn rhan o waith y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - goruchwylio Timau Troseddwyr Ifanc lleol;
    - lledaenu arferion effeithiol;
    - comisiynu ystad ddiogel ar wahân;
    - lleoli pobl ifanc yn y ddalfa.

262. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau cyfnod pontio hwylus wrth fabwysiadu strwythur newydd, gan ofalu bod y sylw neilltuol i bobl ifanc yn parhau. Bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus gael ei ystyried gan y Senedd.

263. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynyddu atebolrwydd lleol dros gyflenwi gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae lefel uchel o fonitro canolog ar berfformiad Timau Troseddwyr Ifanc. Rydym yn bwriadu mabwysiadu dull llai manwl o fonitro perfformiad a fydd yn ategu rhaglen arolygu sydd wedi'i seilio i fwy o raddau ar risg ac yn rhoi mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol. Credwn fod modd i ni leihau'r arolygu ar Dimau Troseddwyr Ifanc gan ganolbwyntio ar dri chanlyniad allweddol:
    - gostwng y nifer sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf;
    - gostwng aildroseddu;
    - gostwng y niferoedd sydd yn y ddalfa.

264. Dylai arolygiadau gynnig cymhelliad i wella'n barhaus ac annog awdurdodau lleol a gwasanaethau ehangach i wella. Drwy wneud y tri chanlyniad allweddol uchod yn fwy tryloyw ar lefel leol, ategir dull arolygu wedi'i seilio ar risg a bydd modd i ni dargedu arolygiadau, a chymorth dilynol, lle y mae eu hangen fwyaf. Rydym yn cynnig y gallai'r arolygu ar y Tîm Troseddwyr Ifanc fod yn rhan gliriach o'r arolygu ar wasanaethau plant prif ffrwd yr awdurdod lleol, er mwyn lleihau'r baich o arolygiadau ar ardaloedd lleol nad yw eu perfformiad yn peri pryder.

265. Rydym am sicrhau bod mwy o ddisgresiwn gan weithwyr proffesiynol y rheng flaen er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau a gaiff yr effaith fwyaf ar y troseddwyr presennol a throseddwyr dichonol. Fel rhan o'r adolygiad presennol o'r system asesiadau unigol, byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o roi mwy o ddisgresiwn ac o leihau'r amser y mae gweithwyr y rheng flaen yn ei dreulio o flaen eu cyfrifiaduron, fel y bydd ganddynt fwy o amser i weithio gyda throseddwyr ifanc. Yn fwy cyffredinol, gellir cael manteision drwy roi mwy o ryddid a hyblygrwydd i awdurdodau lleol i gydweithio. Er enghraifft, mae'r dull arloesol o weithredu drwy gonsortia sydd wedi'i fabwysiadu ymysg rhai partneriaethau troseddwyr ifanc lleol ynghylch ailsefydlu yn dod â chanlyniadau cadarnhaol eisoes. Mae'r consortia hyn yn hybu gweithio integredig rhwng y system cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau plant a gwasanaethau pwysig eraill yn ardaloedd awdurdodau lleol.

266. Yn unol â'n diwygiadau mwy cyffredinol ynghylch tryloywder, rydym hefyd yn credu y dylai cymunedau lleol gael gwybod am berfformiad eu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol, a chael cyfle i gymryd rhan. Mae Timau Troseddwyr Ifanc a darparwyr yr ystad ddiogel yn rhoi lle pwysig i wirfoddolwyr er mwyn hyrwyddo eu gwaith; mae tua 10,000 o wirfoddolwyr yn gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid eisoes. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan fel aelodau o baneli troseddwyr ifanc ac fel mentoriaid. Rydym am adeiladu ar y sylfaen hon, gan gynnwys camau i annog darparwyr yn y sector gwirfoddol a chymunedol i gyflenwi gwasanaethau, lle mae hynny'n briodol. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi mwy o ddata ar lefel leol fel y gall cymunedau weld drostynt eu hunain pa mor effeithiol yw eu Tîm Troseddwyr Ifanc lleol, a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio a dylanwadu ar flaenoriaethau lleol.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C53.** Sut y gallwn ddarparu cyfundrefn arolygu a rheoli perfformiad sy'n cyflawni ein nod o leihau beichiau a chynyddu atebolrwydd lleol?

**C54.** Beth yw rhai o'r ffyrdd y gallem eu defnyddio i gynnwys cymunedau lleol ymhellach mewn cyfiawnder ieuenctid?

**C55.** Beth yw'r ffordd orau i swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gael eu cyflawni gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder?

# 6. Gweithio gyda chymunedau i ostwng troseddu

Mae rôl hanfodol gan yr heddlu a'r llysoedd, ynghyd â gwasanaethau eraill fel iechyd ac addysg, wrth gydweithio â gwasanaethau carchardai a phrawf i wireddu'r chwyldro mewn ailsefydlu.

Mae'r heddlu yn y rheng flaen wrth ddiogelu'r cyhoedd, ac maent yn chwarae rhan fwy byth wrth droi troseddwyr oddi wrth fywyd o droseddu. Y llysoedd yw canolbwynt y system cyfiawnder troseddol a rhaid i ni sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn llawn wrth wella diogelwch cyhoeddus a gostwng troseddu.

Rydym hefyd am weld newid sylfaenol drwy symud atebolrwydd o lywodraeth ganolog i ardaloedd lleol. Byddwn yn helpu gwasanaethau cyfiawnder troseddol lleol i gydweithio'n fwy hyblyg ac effeithlon ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddarparwyr yn y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol i gyflenwi gwasanaethau lleol. Rhoddwn well gwybodaeth i bobl am effaith troseddu ac aildroseddu ar eu cymuned a mwy o gyfle i ddarganfod beth sy'n cael ei wneud yn ei gylch fel y byddant mewn lle gwell i alw am fwy o weithredu os oes angen hynny.

Mae'r bennod hon yn egluro sut byddwn yn cyflawni'r newid hwn drwy'r canlynol:

- cryfhau rôl yr heddlu wrth droi troseddwyr oddi wrth fywyd o droseddu a pharatoi ar gyfer ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau am y tro cyntaf ym mis Mai 2012;
- sicrhau bod llysoedd yn dod yn fwy effeithlon ac effeithiol a'u bod yn chwarae rhan bendant wrth fynd i'r afael ag aildroseddu;
- rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ardaloedd lleol, yn cynnwys cymorth ar gyfer dulliau arloesol o ddelio â theuluoedd sydd ag anghenion lluosog;
- rhoi i gymunedau fwy o gyfle i gymryd rhan, gwell gwybodaeth ynghylch sut y caiff cyfiawnder ei roi, a gwneud gwasanaethau'n fwy tryloyw ac atebol i'r cyhoedd;
- gweithio ar draws Llywodraeth i sicrhau bod y gwasanaethau angenrheidiol yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi troseddwyr i ddod yn ddinasyddion cyfrifol, cynhyrchiol.

## Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol

267. Bydd cydweithredu agos rhwng darparwyr gwasanaethau carchardai a phrawf a'r heddlu yn dal yn hollbwysig o ran gwella diogelwch cyhoeddus a gostwng troseddu. Mae Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn dangos sut bydd y Llywodraeth yn trawsnewid plismona drwy roi i heddluoedd lleol a chymunedau y rhyddid a'r cydgyfrifoldeb i roi blaenoriaeth i'r troseddau sydd o'r pwys mwyaf i breswylwyr lleol. Mae'n arwydd o newid arwyddocaol o ran gwneud gwasanaethau heddlu'n uniongyrchol atebol i gymunedau lleol.

268. Y cynnig canolog yw sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a etholir yn uniongyrchol. O fis Mai 2012 byddant yn ymgymryd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr holl waith plismona a gostwng troseddu o fewn ardal yr heddlu. Byddant yn cydweithio ag amryw o bartneriaid lleol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a phartneriaid yn y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol i ostwng troseddu.

269. Bydd yn hollbwysig meithrin perthnasoedd cadarn ac effeithiol i ymdrin yn llwyddiannus â blaenoriaethau cymunedau lleol. Er mwyn ategu dull gweithredu o'r fath, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac asiantaethau cyfiawnder troseddol dan ddyletswydd gytbwys i gydweithio â'i gilydd. Ar ôl eu cyflwyno byddwn yn ymchwilio i'r graddau y gall Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gyflawni rôl fwy wrth roi cymorth i roi cyfiawnder. Bydd yr ymrwymiad i barhau i gefnogi dulliau integredig o reoli troseddwyr (a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2) a'r prosiectau lleol ar dalu yn ôl canlyniadau (a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3) yn fodd i fesur a hybu'r dulliau gorau i gyflawni hyn.

## Diwygio'r llysoedd i roi cyfiawnder mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau

270. Yn yr ystafell llys y bydd dedfrydwyr yn eistedd mewn barn ar achosion, gan brofi'r ffeithiau, a defnyddio holl rym y gyfraith lle y ceir drwgweithredu neu anghytundeb. Oherwydd hyn y llys yw canolbwynt ein system cyfiawnder troseddol.

271. Mae'n hollbwysig bod ein rhwydweithiau o lysoedd yn canolbwyntio ar gyflawni'r rôl hon yn gyflym ac yn effeithlon. Rhaid i ni sicrhau felly fod yr ystad llysoedd yn addas, bod gweithwyr cyfiawnder troseddol proffesiynol yn cael y rhyddid angenrheidiol i arloesi a bod cymunedau lleol yn cael gwell mynediad i system y llysoedd a gwell gwybodaeth am y rôl y maent yn ei chyflawni.

### System cyfiawnder troseddol sy'n effeithlon ac effeithiol

272. Byddwn yn cydweithio â'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y farnwriaeth a phartneriaid eraill i sicrhau bod pob rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio mor effeithlon ag sy'n bosibl. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar gynlluniau cychwynnol i wneud gwell defnydd o'r ystad llysoedd. Byddwn yn cau'r llysoedd hynny sy'n cael eu tanddefnyddio, neu sy'n anaddas, gan amlhau'r defnydd o'r ystad llysoedd sy'n weddill drwy dargedu ein hadnoddau ar wella cyfleusterau mewn mannau eraill.

273. Mae rheoli effeithiol ar achosion yn agwedd hanfodol ar hyn hefyd. Er bod gwelliannau wedi digwydd, mae gormod o achosion o hyd sy'n 'chwalu' oherwydd newid yn y cyhuddiad neu am fod yr erlyniad yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth. Mae gormod o dreialon aneffeithiol o hyd am fod partïon heb baratoi neu am fod tystion yn methu ag ymbresenoli yn y llys. Byddwn yn cydweithio â'r farnwriaeth i sicrhau bod yr holl bartïon yn canolbwyntio ar reoli achosion, yn Llys y Goron ac yn llysoedd yr ynadon.

Drwy gael newid mewn diwylliant dylai fod yn bosibl byrhau treialon a gostwng lefel y treialon chwâl neu aneffeithiol.

274. Rydym hefyd yn credu y byddai defnydd gwell a mwy dyfeisgar o dechnoleg fideo yn gallu gweddnewid y dull o gynnal busnes y llysoedd. Rydym yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar sail y cynlluniau peilot presennol ar gyfer rhithlysoedd a chysylltiadau fideo rhwng y llys a'r carchar er mwyn gwella effeithlonrwydd.

275. Yr un mor bwysig yw'r angen taer am wella'r gweinyddu ar achosion a'u dilyniant drwy'r system. Ceir gwared â rheolau, prosesau neu weithdrefnau sy'n ddiangen neu'n rhy feichus. Defnyddiwn y technegau 'LEAN' presennol i alluogi staff ar lefel leol i ddileu gwastraff neu aneffeithlonrwydd arall yn null gweithredu'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn cyflwyno cynigion manylach yn y meysydd hyn erbyn Gorffennaf 2011.

**Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Northumbria – Gwireddu Ansawdd gyda'n Gilydd**

Ers Ebrill 2010 mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Northumbria wedi cymryd rhan mewn prosiect arloesol i ddileu gwastraff a gwella effeithlonrwydd drwy ddefnyddio arbenigedd staff rheng flaen. Mae'r prosiect yn cymryd benthyg technegau rheoli profedig o'r sector preifat fel dulliau rheoli 'LEAN' ac yn eu defnyddio ar y cyd ar draws nifer o gyrff mewn modd blaengar yng nghyd-destun arloesi yn y sector cyhoeddus. Mae'r tîm yn cynnwys swyddogion heddlu, cyfreithwyr a gweinyddwyr sy'n rhannu eu harbenigedd er mwyn deall a symleiddio'r broses cyfiawnder. Hyd yn hyn mae'r tîm wedi dod o hyd i 170 o enghreifftiau o ddyblygu neu waith o ansawdd gwael sy'n arwain at wastraff ac felly at fwy o gost. Mae dioddefwyr a thystion yn elwa o hyn. Er enghraifft, cafodd y tîm fod yr amser a dreuliwyd gan staff ar ddyblygu'r mewnbynnu ar ddata i nifer o systemau TG wedi costio mwy na £200,000 rhwng Ebrill a Hydref 2010. Enghraifft arall oedd bod y broses bresennol ar gyfer mechnïaeth wedi creu tua 40,000 o negeseuon e-bost diangen rhwng swyddogion heddlu a sifiliaid yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r tîm yn rhoi sylw'n awr i'r achos busnes dros greu gwasanaeth gweinyddu cyfiawnder lleol a fydd yn dileu rhywfaint o'r dyblygu a'r gwallau sydd wedi'u hachosi gan y gorgyffwrdd rhwng nifer o dimau gweinyddol yn yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

### Y gwasanaeth iawn ar gyfer yr achos iawn

276. Mae Pennod 4 yn disgrifio sut mae defnydd anghytbwys o lysoedd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae llwythi gwaith yn Llys y Goron wedi cynyddu'n sylweddol tra nad yw llysoedd ynadon yn cael eu defnyddio'n llawn o bell ffordd. Mewn cyfiawnder sifil a theuluol, collir cyfleoedd i setlo mwy o achosion y tu allan i'r llys.

277. Gall y sefyllfa hon arwain at oedi diangen wrth ddarparu cyfiawnder a rhaid ymdrin â hi. Felly byddwn yn rhoi cymhellion i ddatrys anghydfodau'n gynnar, i fanteisio'n well ar ddewisiadau sydd ar gael yn lle'r llys ac yn sicrhau bod y llys ei hun mor syml, effeithlon a chynaliadwy ag sy'n bosibl.

278. Mewn achosion troseddol, mae gwarediadau y tu allan i'r llys yn gallu cynnig ymateb llawer mwy uniongyrchol a chymesur i effeithiau niweidiol mân droseddau. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym Mhennod 4, rhaid gwneud mwy er mwyn iddynt fod mor effeithiol ac arloesol ag y mae angen iddynt fod. Yn benodol, rydym yn bwriadu rhoi mwy o gyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan mewn Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth, fel y nodir isod.

279. Mewn achosion sifil a theuluol, rydym am annog partïon i ymgymryd â dulliau amgen o ddatrys anghydfodau a allai wneud llawer o achosion yn llai gwrthwynebus, a helpu i rymuso unigolion fel y byddant yn cymryd mwy o reolaeth dros ddatrys eu hachosion. Byddwn yn disgrifio'r cynigion hyn yn fwy manwl mewn papur ymgynghori ar gyfiawnder sifil yng ngwanwyn 2011. Yn dilyn hyn bydd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol sydd dan gadeirydd annibynnol yn cyhoeddi ei gynigion ar gyfer diwygio sylfaenol mewn cyfiawnder teuluol.

280. Mae'n bwysig bod achosion sy'n dod gerbron llys yn cael eu gwrando yn y lle mwyaf priodol. Llys y Goron yw'r lle priodol ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, a phan fydd diffynnydd wedi dewis cael treial gerbron rheithgor, ond nid yw defnydd amhriodol ohono'n gwneud les i'r system cyfiawnder. Mae Pennod 4 yn y ddogfen hon yn egluro pam yr ydym am weld mwy o achosion yn cael eu trafod yn ddiannod gan ynadon ac yn disgrifio sut bydd ein cynlluniau i ostwng y niferoedd sy'n pledio'n euog yn hwyr yn gam pwysig i'r cyfeiriad hwn.

281. Fodd bynnag, er ein bod yn credu y dylid cadw'r disgresiwn i ynadon gyfeirio achosion i'r llys uwch lle bo angen, rydym hefyd yn glir na ddylai hyn ddigwydd oni bai fod rhesymau eglur a chryf. Yn benodol, rydym am weld ynadon yn cymryd i ystyriaeth yr effaith bosibl o gyfeirio achos yn amhriodol ar y gallu i wneud cyfiawnder yn gyflym ac ar ddioddefwyr a thystion.

282. Rhoddwyd prawf hefyd yn y llysoedd ynadon ar ddulliau o ddatrys problemau sydd â'r amcan o ddelio ag aildroseddu drwy fentrau fel y cynlluniau peilot ar gyfer llys cyffuriau dynodedig a llysoedd iechyd meddwl, sy'n cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau sy'n codi o'r cynlluniau peilot yn dangos y gallai'r modelau hyn wneud gweithrediadau'n fwy effeithlon, a hybu cydymffurfio gan droseddwyr a gwella gwaith mewn partneriaeth. Rydym yn glir na fydd y rhain yn parhau oni bai eu bod yn gwneud gwir wahaniaeth a'u bod yn gosteffeithiol. Os dangosir eu bod, rydym yn bwriadu dod â hwy at ei gilydd gyda'r hyn a ddysgwyd o ddulliau o ddatrys problemau mewn llysoedd eraill i ddatblygu model datrys problemau ehangach ar gyfer busnes pob dydd y llysoedd ynadon.

283. Byddwn hefyd yn dal i gefnogi systemau llwyddiannus y llys trais domestig arbenigol ar gyfer delio ag achosion trais domestig mewn llysoedd ynadon. Mae 141 o systemau o'r fath ar hyn o bryd, a phob un wedi'i seilio ar ddull o drafod trais domestig mewn partneriaeth gan yr heddlu, erlynwyr, ynadon, staff llys, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau cymorth arbenigol i ddioddefwyr.

284. Ar gyfer troseddwyr mwy difrifol, mae'r dull o'u trafod drwy gyfiawnder cymunedol amlasiantaethol, dwys yn ymgais i fynd i'r afael â throseddu drwy fwy o gydweithredu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, gwasanaethau cymorth a grwpiau cymunedol. Mae'r dull hwn wedi'i arloesi gan Ganolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl, a sefydlwyd yn 2005. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael am effaith model Gogledd Lerpwl ar ostwng aildroseddu wedi arwain at gasgliadau pendant hyd yn hyn, a byddai'n gostus iawn rhoi'r model hwn ar waith eto mewn lleoedd eraill. Er hynny, mae'n amlwg bod gwersi i'w dysgu o'u profiad. Byddwn yn edrych yn fanwl ar y canfyddiadau o werthusiadau sy'n mynd ymlaen i asesu'r cyfle i ddod ag agweddau ar gyfiawnder cymunedol at ei gilydd gyda dulliau talu yn ôl canlyniadau a rheolaeth integredig ar droseddwyr, gyda'r bwriad o sicrhau gostyngiadau arwyddocaol yn lefelau'r aildroseddu.

285. Fel conglfaen y system cyfiawnder troseddol, mae ar gymunedau angen cysylltiadau cryf â'r llysoedd sy'n eu gwasanaethu. Mae dedfrydwyr a staff llysoedd am gael gwybod sut mae troseddu'n effeithio ar fywydau cymunedau lleol. Yn yr un modd, mae pobl sy'n profi effaith troseddu am ddeall mwy am gyflawni cyfiawnder a sut y gallant gymryd rhan. Er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn darparu gwell mynediad at wybodaeth am droseddau, aildroseddu, a'r ffordd y mae gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio yn eu hardaloedd.

286. Rydym am weld llysoedd yn cyfrannu mwy at weithio mewn partneriaeth yn lleol ac felly byddwn yn dal i gefnogi camau gweithredu lleol gan lysoedd ynadon i ddeall pryderon cymunedau lleol, egluro proses y llys a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o ddedfrydu. Byddwn yn ystyried gyda'r farnwriaeth ba ran y gallai ynadon ei chwarae yn eu partneriaethau plismona cymdogaeth lleol a chyfarfodydd rhawd yr heddlu, gan ddiogelu eu hannibyniaeth farnwrol ac unrhyw ganfyddiad posibl o wyrduedd.

287. Fodd bynnag, mae angen hefyd i ni hyrwyddo cyfleoedd eraill i gynnwys y cyhoedd, drwy ymgynghori ynghylch pryderon lleol a chymryd camau i ymateb iddynt a thrwy wirfoddoli. Rydym am roi prawf ar ddulliau newydd, arloesol o roi mwy o ran i gymunedau mewn delio â throseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Un dull o weithredu yr ydym yn neilltuol o awyddus i'w dreialu yw Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth. Mae'r rhain yn cynnig math o gyfiawnder adferol lle mae gwirfoddolwyr lleol a gweithwyr cyfiawnder troseddol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i ddelio â rhai mathau o droseddu ac anhrefn lefel isel. Byddwn yn cyflwyno rhaglenni i roi prawf ar eu heffeithioldeb yn yr haf.

**Paneli Cyfiawnder De Gwlad yr Haf**

Gwnaeth pobl yn Chard, Gwlad yr Haf gymryd y cam cyntaf a chydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a'r awdurdod lleol i ddatblygu dull arloesol, cymunedol o fynd i'r afael â throseddu lefel isel yn eu hardal. Roedd achosion yr oedd angen iddynt fynd i'r llys yn cael eu gwrando yn Yeovil ac nid oedd adroddiadau am y canlyniadau'n ymddangos yn y papur newydd lleol bob tro. Penderfynodd pobl leol wneud rhywbeth i ymateb i'r canfyddiad nad oedd dim yn cael ei wneud ynghylch troseddau yr oedd yr heddlu wedi cael eu hysbysu amdanynt.

Daeth grwpiau cymunedol at ei gilydd gyda chynghorydd, rheolwr rhawd yr heddlu a'r papur newydd lleol i drafod ffordd i ddatrys y broblem. O ganlyniad i hyn sefydlwyd Panel Cyfiawnder Cymdogaeth i ddelio â throseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn y gymuned. Ymhlith y mathau o achosion y mae'r panel yn delio â hwy y mae ymosodiadau, niwsans gan gymdogion, trefn gyhoeddus, difrod troseddol a chasineb hiliol. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn dod â throseddwyr a dioddefwyr at ei gilydd i ddefnyddio dull cyfiawnder adferol lle bydd y troseddwr ar y diwedd yn llofnodi contract ymddygiad derbyniol sy'n canolbwyntio ar wneud iawn am y niwed a wnaed ac atal yr ymddygiad dan sylw.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C56.** Pa fath o droseddau a throseddwyr y dylai Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth ddelio â hwy a sut y gallai'r paneli hyn ategu prosesau cyfiawnder troseddol sydd ar gael eisoes?

### Rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ardaloedd lleol

288. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i egwyddor datganoli. Byddwn yn datganoli atebolrwydd a'r gallu i wneud penderfyniadau i'r lefel briodol isaf ac yn annog asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddeillio awdurdod o'u hardal yn hytrach na llywodraeth ganolog. Mae hyn yn golygu rhoi mwy o reolaeth i staff rheng flaen a'u cymunedau lleol dros adnoddau a'r gallu i ddatblygu atebion lleol sy'n diwallu eu hanghenion.

289. Rydym am leihau'r beichiau sydd ar ysgwyddau partneriaid lleol – fel gormod o dargedau perfformiad a threfnau arolygu rhy fiwrocrataidd – i'w galluogi i ganolbwyntio yn eu hymdrechion ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf a sicrhau mai'r gymuned leol sy'n eu dal yn atebol. Roedd dileu cytundebau ardal leol, asesiadau ardal cynhwysfawr a chytundebau gwasanaeth cyhoeddus yn dangos bod y Llywodraeth yn symud oddi wrth dargedau sydd wedi'u gosod yn ganolog a threfn gyfyngus o reoli perfformiad. Rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch cyfnewid y chwe mesur presennol sy'n ymwneud ag aildroseddu am un canlyniad sy'n gynhwysfawr a hawdd ei ddeall. Bydd hyn, ynghyd â gostwng nifer y targedau perfformiad ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, a ddisgrifiwyd ym Mhennod 5, yn rhyddhau asiantaethau lleol i ymdrin â'r blaenoriaethau lleol ar gyfer troseddau a throseddu.

290. Mae lle pwysig i'r strwythurau partneriaeth sydd eisoes ar waith wrth hyrwyddo'r dull gweithredu hwn. Mae'r byrddau cyfiawnder troseddol lleol, sy'n dilyn ffiniau ardaloedd heddlu, yn cynnwys amryw o asiantaethau fel rheolwyr llys, Gwasanaeth Erlyn y Goron, carchardai a'r gwasanaeth

prawf. Ar lefel fwy lleol, mae cyfrifoldeb statudol gan aelodau partneriaethau diogelwch cymunedol i gydweithio i ostwng aildroseddu yn eu hardal.

291. Gwyddom fod partneriaid lleol mewn rhai ardaloedd yn adeiladu ar y sylfaen hon gan ddod ag ystod ehangach o bartneriaid at ei gilydd o feysydd cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol. Er enghraifft, yn swydd Gaerloyw, mae asiantaethau lleol wedi dod ag amryw o bartneriaethau sirol ac ardal at ei gilydd i ffurfio un comisiwn, er mwyn defnyddio cyllidebau prif ffrwd yn well cyn penodi'r cyntaf o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Rydym yn croesawu ymdrechion rhagweithiol o'r fath gan ardaloedd lleol i ailfeddwl ynghylch sut maent yn cydweithio er mwyn bod yn fwy effeithlon a mwy ymatebol i flaenoriaethau lleol.

292. Er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer dulliau mwy radicalaidd, cyhoeddwyd yn yr adolygiad o wariant y bydd cynlluniau peilot yn cael eu cynnal i roi prawf ar y cysyniad o gyllidebau cymunedol yn Lloegr. O Ebrill 2011, bydd 16 o ardaloedd lleol, gyda'u hetholwyr, yn penderfynu pa brosiectau a gwasanaethau lleol y dylid eu cyllido ag arian cyhoeddus o gyllideb gyfun er mwyn cynnig y cymorth gorau i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth. Mae llawer o aelodau'r teuluoedd hyn yn droseddwyr neu mewn perygl o droi'n droseddwyr, ac mae meithrin perthnasoedd teuluol parhaus yn gallu bod yn ffactor pwysig o ran eu sefydlogi. Drwy ymyrryd yn gynnar, daw budd i deuluoedd ac i gymunedau drwy ostwng aildroseddu a thorri'r cylch o droseddu sy'n pontio cenedlaethau. Byddwn yn rhoi cymorth i ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau peilot hyn yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn dal i gydweithio â'r Adran Addysg ar ein hymateb i deuluoedd sydd â phroblemau lluosog.

**Cwestiynau ymgynghori**

**C57.** Ym mha ffyrdd eraill y gallwn weithio'n effeithiol ar draws Llywodraeth i roi mwy o hyblygrwydd lleol i fynd i'r afael â throseddu?

**C58.** Beth y gellir ei wneud yn rhagor i hybu perthnasoedd teuluol er mwyn gostwng aildroseddu ac atal troseddu sy'n pontio'r cenedlaethau?

### System dryloyw sy'n atebol i gymunedau

293. Mae'r dull o weithredu yr ydym wedi'i ddisgrifio yn y Papur Gwyrdd hwn wedi'i seilio ar egwyddorion y Gymdeithas Fawr: agor gwasanaethau cyhoeddus i ddarparwyr newydd ac annibynnol; cynyddu gweithredu cymdeithasol fel bod pobl yn cyfrannu amser, ymdrech ac arian; a grymuso dinasyddion a chymunedau er mwyn dal asiantaethau lleol yn atebol a rhannu cyfrifoldeb dros wneud eu cymdogaethau'n fwy diogel.

294. Mae cynyddu tryloywder drwy ddarparu gwell gwybodaeth i'r cyhoedd yn elfen hanfodol yn ein diwygiadau arfaethedig. Rydym eisoes wedi disgrifio ein cynigion i wneud dedfrydu'n gliriach; i symleiddio'r dull o fesur cyfraddau aildroseddu; ac i ystyried ffyrdd o gynnwys dioddefwyr a chymunedau mewn camau gweithredu i fynd i'r afael â throseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er mwyn hyrwyddo hyn ymhellach, byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth am droseddau ac aildroseddu a'r hyn a wneir yn eu cylch yn lleol. Rydym

wedi cychwyn arni eisoes. Ym mis Hydref gwnaethom gyhoeddi data am ddedfrydu yn ôl mathau o drosedd ar lefel ardal ac, am y tro cyntaf, ar lefel llysoedd unigol. Ym mis Ionawr 2011 bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data am droseddu ar lefel strydoedd ac rydym yn ystyried a yw'n ymarferol mapio canlyniadau cyfiawnder fesul ardal.

295. Mae'n bwysig bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld a deall gwybodaeth am faint y troseddu ac aildroseddu sy'n digwydd yn eu cymunedau. Dylent gael gwybodaeth hefyd am y safonau a'r ymrwymiadau y gallent ddisgwyl eu cael gan wasanaethau mewn ymateb i hynny. Felly rydym yn ystyried pa wybodaeth leol y dylid ei darparu fel gofyniad sylfaenol ym mhob ardal a beth y gall cymunedau ei wneud os ydynt yn teimlo nad ydynt yn cael y safonau gwasanaeth y mae ganddynt hawl i'w disgwyl. Bydd hyn yn cynyddu'r graddau y mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu dal eu gwasanaethau lleol yn atebol, ac yn cyfrannu at feithrin mwy o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol, ac mewn canlyniadau llysoedd yn benodol.

296. Yn ogystal â hyn, rydym am hybu ymwybyddiaeth a chyfranogiad cymunedol mewn cysylltiad ag amryw o gamau gweithredu lleol ynghylch materion troseddu a chyfiawnder, boed hynny drwy fod yn bresennol yng nghyfarfodydd rhawd yr heddlu, cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori lleol rheolaidd neu ddigwyddiadau eraill a gynhelir gan bartneriaethau cyfiawnder troseddol neu drwy gyfleoedd mwy ffurfiol i wirfoddoli. Y nod yw peri i'r gymuned chwarae mwy o ran mewn camau gweithredu i fynd i'r afael â throseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu dylanwad y gymuned a'i gallu i wrthsefyll.

297. Mae gwirfoddoli'n agwedd bwysig ar hyn. Mae nifer sylweddol o wirfoddolwyr eisoes yn y system cyfiawnder troseddol sydd wedi ymrwymo i wneud ein cymdeithas yn fwy diogel. Mae gennym 29,000 o ynadon gwirfoddol; 6,500 o wirfoddolwyr mewn gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr; 15,000 o gwnstabliaid arbennig; 6,000 o wirfoddolwyr cymorth yr heddlu; a mwy na 3.1 miliwn o aelodau o gynlluniau Gwarchod Cymdogaeth. Rydym hefyd yn elwa o ymroddiad gwirfoddolwyr sy'n cefnogi ein nodau i ddiogelu'r cyhoedd ac ailsefydlu troseddwyr. Mae hyn yn cynnwys aelodau o Fyrddau Monitro Annibynnol y carchardai neu Baneli Troseddwyr Ifanc a chynghorwyr lleyg ar Baneli Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd â llawer o rai eraill sy'n gweithio mewn carchardai a chyda throseddwyr a chyn-droseddwyr yn y gymuned. Rydym wedi ymrwymo i wneud gwirfoddoli'n fwy hygyrch i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n dymuno chwarae mwy o ran mewn delio â throseddau yn eu cymunedau.

298. Byddwn yn cyflwyno cynlluniau manylach ar gyfer cynyddu mynediad cymunedau at gyfiawnder troseddol lleol, drwy wybodaeth, ymgynghori a chymryd rhan yn uniongyrchol erbyn Mawrth 2011.

**Cwestiwn ymgynghori**

**C59.** Beth y gallwn ei wneud yn rhagor i gynnwys pobl yn y system cyfiawnder, i hwyluso a hyrwyddo gwirfoddoli, a'i gwneud yn fwy tryloyw ac atebol i'r cyhoedd?

### Gweithio mewn partneriaeth ar draws llywodraeth

299. Er mwyn gwireddu ein huchelgais i ddiwygio ein system cyfiawnder yn sylfaenol, gweithredu'r ystod o bolisïau sydd wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd hwn a sicrhau'r buddion yr ydym am eu gweld, mae'n hollbwysig i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gydweithio'n agos â'n partneriaid mewn adrannau ac asiantaethau llywodraeth eraill. Felly rydym wedi ymrwymo i bartneriaethau yn y meysydd canlynol, a drafodwyd yn fwy manwl yn y penodau blaenorol:

- gyda'r **Swyddfa Gartref** ar ostwng troseddu a gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu ar ddulliau integredig o reoli troseddwyr. Byddwn hefyd yn cefnogi'r gwaith ar ddiogelu rhyddid a hawliau sifil sydd wedi'i nodi yn y Mesur Rhyddid sydd ar ddod. Byddwn hefyd yn cydweithio ag **Asiantaeth Ffiniau'r DU** a'r **Swyddfa Dramor a Chymanwlad** i symud ymaith droseddwyr sy'n wladolion tramor;
- gyda **Gwasanaeth Erlyn y Goron** i sicrhau bod pob rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio mor effeithlon ag sy'n bosibl. Bydd partneriaeth â **Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol** yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn;
- gyda'r **Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol**, i ategu gwelliannau mewn mentrau lleol i ostwng troseddu ac aildroseddu ac i gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn effeithiol drwy Dimau Troseddwyr Ifanc lleol. Byddwn yn pennu sut i roi mwy o ryddid a hyblygrwydd i bartneriaid lleol, ac yn rhoi'r data a'r wybodaeth briodol iddynt, er mwyn targedu eu hadnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, a helpu i leihau'r rhwystrau rhag cael darpariaeth tai sefydlog ac addas ar gyfer y troseddwyr hynny sydd wedi dangos eu bod yn barod i newid eu hymddygiad;
- gyda'r **Adran Iechyd** i fynd i'r afael â chamddefnydd o gyffuriau ac alcohol a gwella canlyniadau iechyd meddwl i droseddwyr, yn y carchar ac yn y gymuned. Byddwn yn cydweithio ar gynlluniau i gomisiynu gwasanaethau cyffuriau ar y cyd ar sail talu yn ôl canlyniadau; yn rhoi gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio ar waith mewn llysoedd a gorsafoedd heddlu, i roi cymorth i ddargyfeirio troseddwyr sydd â salwch meddwl i gael triniaeth gan y GIG, yn y gymuned os yw hynny'n briodol;
- gyda'r **Adran Gwaith a Phensiynau** wrth roi troseddwyr mewn cyflogaeth a pheri iddynt gyfrannu i gymdeithas, drwy wella eu sgiliau a'u mynediad i swyddi. Byddwn yn cydweithio ar gynlluniau i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar sail talu yn ôl canlyniadau i wella canlyniadau i droseddwyr o ran cyflogaeth a gostwng aildroseddu. Byddwn hefyd yn dal i weithio i wella'r cydweithio rhwng NOMS a Canolfan Byd Gwaith ar lefel leol;
- gyda'r **Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau** i gyflawni ein nodau i wneud carchardai'n lleoedd ar gyfer diwydrwydd a gwaith caled, ac i wneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn ystyrlon i gymunedau lleol. Drwy gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd, byddwn yn cyhoeddi cynlluniau i wella'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau i droseddwyr i helpu i ddatblygu cyflogadwyedd a helpu i gysylltu troseddwyr â chyflogwyr;

- gyda'r **Adran Addysg** i atal pobl ifanc rhag troi at fywyd o droseddu, i wella canlyniadau i droseddwyr ifanc, i gynorthwyo plant a theuluoedd sydd mewn perygl o droseddu a sicrhau bod Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau prawf yn rhoi pwyslais ar waith ataliol;
- gyda'r **Swyddfa Cymdeithas Sifil** i hyrwyddo ein nod o agor y farchnad ar gyfer rheoli troseddwyr ac ymyriadau ailsefydlu i ddarparwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol, i hybu'r gwaith o ddatblygu ymatebion mwy hyblyg ac arloesol, gan fanteisio i'r graddau mwyaf posibl ar yr arbenigedd sydd ar gael yn ein cymunedau i fynd i'r afael â throseddau a throseddu.

300. Drwy gydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth fynd i'r afael â throseddau ac aildroseddu a gwella diogelwch y cyhoedd drwy hynny.

# 7. Ymgynghori

301. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn agored i ymgynghori cyhoeddus. Er mwyn i set o gynigion mor radicalaidd fod yn llwyddiannus, ac er mwyn ei chyflawni gan ddefnyddio swm o adnoddau sy'n sylweddol lai, bydd angen i ni ystyried syniadau a chyfraniadau gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr, dioddefwyr, a rhanddeiliaid, sy'n meddu'r profiad a'r arbenigedd y mae arnom eu hangen i wneud hyn yn iawn. Rydym hefyd yn dymuno gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ymateb gan roi eu barn am ein diwygiadau arfaethedig.

302. Byddem yn croesawu cyfraniadau sy'n ein helpu i ystyried effeithiau posibl y cynigion ar droseddwyr yn ôl eu hoedran, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, neu unrhyw nodweddion eraill sydd wedi'u diogelu a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r rhaglen ddiwygio hon yn rhoi cyfleoedd i ni ymdrin â meysydd lle mae anghyfartalwch ac anghydraddoldeb, yng nghyd-destun y meysydd yr ydym yn ymgynghori arnynt. Serch hynny, rhaid i ni gydnabod y gallai risgiau godi hefyd. Mae ymarferiad sgrinio cydraddoldeb sy'n ategu'r Papur Gwyrdd hwn wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhan bwysig o'r asesiadau effaith llawn ar y cynigion a gwblheir ar ôl yr ymgynghoriad.

303. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut i symud ymlaen â'n cynlluniau yn y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru. Byddwn yn croesawu sylwadau pellach ynghylch sut y gallwn gydweithio â gwasanaethau a darparwyr yng Nghymru ynghylch y modd y gall ein cynlluniau helpu i ostwng aildroseddu a gwella diogelwch cyhoeddus yng Nghymru.

304. Byddwn hefyd yn ymgynghori â Llywodraeth yr Alban i ddeall unrhyw effaith a allai ddeillio o'n cynigion yn yr Alban.

305. Rydym yn awyddus i gael barn gan gymunedau, ac yn enwedig y rheini sydd wedi profi effaith uniongyrchol o'r troseddau y mae troseddwyr yn eu cyflawni. Er mwyn gwneud hyn rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd Dioddefwyr er mwyn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr, a'r rheini sy'n eu cynrychioli, yn cael eu clywed yn ystod yr ymgynghoriad. Byddem yn falch o gael ymatebion hefyd gan grwpiau cymunedol a allai fod â barn ynghylch sut y gellir delio â throseddu mewn cymunedau, a sut y gellid ailintegreiddio troseddwyr â'u cymunedau.

306. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 4 Mawrth 2011, a phryd hynny bydd yr holl ymatebion a geir yn cael eu dadansoddi a'u hystyried.

307. Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol drwy wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk, drwy'r e-bost i breakingthecycle@justice.gsi.gov.uk neu drwy'r post i Breaking the Cycle, Ministry of Justice, 10.08, 10th Floor, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

# Atodiad A – Amserlen cyflawni

Mae Cynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2011-2015 yn nodi amserlen uchelgeisiol ar gyfer cyflawni'r cynigion sydd wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd hwn.

| **Pwyntiau Gweithredu'r Cynllun Busnes** | **Dyddiad** | |
|---|---|---|
| | **Dechrau** | **Gorffen** |
| 1.1 – Datblygu strategaeth gyffredinol i'r 'chwyldro ailsefydlu' ar gyfer oedolion a phobl ifanc, yn cynnwys talu cyrff preifat a gwirfoddol lleol yn ôl canlyniadau | Hyd 2010 | Tach 2011 |
| 1.2 – Cyflwyno cynlluniau talu yn ôl canlyniadau, gan weithio gyda chyrff lleol yn y sectorau gwirfoddol a phreifat sy'n arbenigo mewn ailsefydlu troseddwyr | Wedi dechrau | Awst 2016 |
| 1.3 – Cynllunio a rhedeg cynlluniau peilot i dalu contractwyr yn ôl canlyniadau i ailsefydlu troseddwyr sydd â phroblemau cyffuriau, gan gydweithio â'r Adran Iechyd ac adrannau llywodraeth eraill | Wedi dechrau | Medi 2013 |
| 1.4 – Rhoi cymhellion i ddarparwyr y Rhaglen Waith a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i roi cymorth cyflogaeth i droseddwyr di-waith, gan dalu i'r darparwyr yn ôl canlyniadau ar roi pobl mewn gwaith | Wedi dechrau | Medi 2014 |
| 1.5 – Ymchwilio i fathau amgen o lety preswyl wedi'i seilio ar driniaeth i droseddwyr sydd â salwch meddwl a phroblemau cyffuriau | Wedi dechrau | Rhag 2011 |
| 1.6 – Cynorthwyo'r Adran Iechyd i roi gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio ar waith i droseddwyr sydd â salwch meddwl | Tach 2010 | Tach 2014 |
| 1.7 – Cynyddu nifer y carcharorion sy'n gwneud gwaith ystyrlon am gyflog gwirioneddol a sicrhau eu bod yn gwneud mwy o iawn â dioddefwyr | Wedi dechrau | Mai 2011 |
| 2.1 – Cynnal archwiliad llawn o bolisi dedfrydu i sicrhau bod y system cyfiawnder yn gostwng aildroseddu drwy gyflwyno polisïau dedfrydu mwy effeithiol ac ystyried defnyddio cyfiawnder adferol ar gyfer troseddau oedolion a phobl ifanc | Hyd 2010 | Tach 2012 |
| 2.2 – Helpu i sicrhau y bydd collfarnau hanesyddol am gael rhyw hoyw cydsyniol â rhai dros 16 oed yn cael eu trin fel rhai sydd wedi'u disbyddu ac na fyddant yn ymddangos mewn gwiriadau o gofnodion troseddol, gyda'r Swyddfa Gartref | Wedi dechrau | Chwe 2011 |
| 2.3 – Ystyried diwygio gwarediadau y tu allan i'r llys, gan gynnwys dulliau cyfiawnder adferol | Wedi dechrau | Chwe 2011 |
| 2.4 – Ymchwilio i'r defnydd o Baneli Cyfiawnder Cymdogaeth i ddargyfeirio nifer o achosion lefel isel o'r llys i'w gwrando gan banel o wirfoddolwyr cymunedol ac ymarferwyr y System Cyfiawnder Troseddol | Wedi dechrau | Gorff 2011 |
| 5.1 – Gwahodd cyrff preifat a gwirfoddol a chymunedau lleol i ddarparu gwasanaethau lle gallant wneud hynny'n effeithiol ac am gost is | Tach 2010 | Gwanwyn 2012 |

# Atodiad B – Rhestr lawn o gwestiynau ymgynghori

**C1.** Sut y dylem gyflawni ein nodau i wneud carchardai'n lleoedd ar gyfer gwaith caled a disgyblaeth?

**C2.** Sut y dylem ddefnyddio arbenigedd ac arloesedd y sectorau preifat a gwirfoddol yn y modd gorau i helpu i ddatblygu'r carchar gweithio?

**C3.** Sut y gallwn ei gwneud yn bosibl i fwy o garcharorion wneud iawn, yn cynnwys gwneud iawn â dioddefwyr a chymunedau?

**C4.** Sut y gallem dargedu gorchmynion cyrffyw llym fel y byddant mor effeithiol ag sy'n bosibl?

**C5.** Beth yw'r ffyrdd gorau i wneud y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn drylwyr ac yn ymestynnol?

**C6.** Sut y gall cymunedau gymryd mwy o ran mewn dylanwadu ar y math o waith a gyflawnir gan droseddwyr dan y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned?

**C7.** Sut y dylem geisio darparu'r cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned mewn partneriaeth â chyrff y tu allan i lywodraeth?

**C8.** Beth y gall llywodraeth ganolog ei wneud i helpu i ddileu rhwystrau lleol rhag gweithredu dull integredig o reoli troseddwyr?

**C9.** Sut y gallwn ysgogi a hybu twf dulliau Rheoli Troseddwyr Integredig?

**C10.** Sut y gallwn sicrhau bod modd i ddarparwyr o'r sector gwirfoddol a chymunedol fod yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni'r dull integredig hwn?

**C11.** Sut y gallwn ddefnyddio'r adeiniau ymadfer cyffuriau peilot i ddatblygu gwell dilyniant gofal rhwng y ddalfa a'r gymuned?

**C12.** Pa gyfleoedd posibl y byddai dull talu yn ôl canlyniadau'n eu cynnig er mwyn hybu ymadfer o ddefnyddio cyffuriau ar gyfer troseddwyr?

**C13.** Sut y gallwn gynorthwyo orau y rheini yn y gymuned sydd ag angen triniaeth gyffuriau, gan ddefnyddio dull graddedig ar gyfer lefel y cymorth preswyl, gan gynnwys dull gweithredu penodol ar gyfer menywod?

**C14.** Pa wahaniaethau sydd rhwng troseddwyr benywaidd a throseddwyr gwrywaidd a sut y gallwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn rhwng y rhywiau?

**C15.** Sut y gallem ategu dull talu yn ôl canlyniadau'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhoi mwy o droseddwyr mewn gwaith?

**C16.** Beth y gallwn ei wneud i sicrhau mwy o ymrwymiad gan gyflogwyr wrth gydweithio â ni i gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio?

**C17.** Pa newidiadau yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 a fyddai orau i sicrhau'r cydbwysedd rhwng ailsefydlu a diogelu'r cyhoedd?

**C18.** Sut y gallwn gydweithio'n well â'r sector rhent preifat i atal troseddwyr rhag mynd yn ddigartref?

**C19.** Sut y gallwn sicrhau bod modd i'r arferion da presennol ddylanwadu ar y rhaglen o brosiectau iechyd meddwl peilot ar gyfer cydgysylltu a dargyfeirio i oedolion a phobl ifanc?

**C20.** Beth yw'r ffordd orau i ni gyflawni ein huchelgais o roi'r gwasanaeth cydgysylltu a dargyfeirio iechyd meddwl ar waith yn genedlaethol?

**C21.** Sut y gallwn ail-lunio gwasanaethau i ddarparu triniaeth fwy effeithiol i'r troseddwyr hynny sydd â mathau difrifol o anhwylder personoliaeth?

**C22.** A ydych yn cytuno mai'r ffordd orau i gomisiynu gwasanaethau drwy dalu yn ôl canlyniadau ar gyfer dedfrydau cymunedol yw integreiddio hynny mewn contract ehangach sy'n cynnwys camau i sicrhau bod y ddedfryd wedi'i chyflawni?

**C23.** Beth yw'r ffordd orau i adlewyrchu cyfraniad y gwahanol ddarparwyr mewn dull talu yn ôl canlyniadau ar gyfer y troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd o garchar a'u rhyddhau ar drwydded?

**C24.** Beth yw'r ffordd orau i ddatblygu'r farchnad i sicrhau sylfaen amrywiol o ddarparwyr?

**C25.** A ydych yn cytuno y dylid hepgor troseddwyr risg uchel a'r rheini sy'n llai tebygol o aildroseddu o'r dull talu yn ôl canlyniadau?

**C26.** Pa ddull mesur sy'n cydweddu orau â'r egwyddorion yr ydym wedi'u nodi ar gyfer talu yn ôl canlyniadau?

**C27.** Beth yw'r opsiwn gorau ar gyfer mesur aildroseddu a llwyddiant er mwyn hyrwyddo dull talu yn ôl canlyniadau?

**C28.** A oes dadl o blaid teilwra'r dull ar gyfer unrhyw fath penodol o droseddwr?

**C29.** Beth yw'r prif ddiwygiadau mewn safonau a threfniadau rheoli perfformiad a fydd yn sicrhau bod mwy o ryddid a disgresiwn proffesiynol gan garchardai a gwasanaethau prawf a'u bod yn gallu canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau?

**C30.** Beth yw'r prif ddiwygiadau mewn trefniadau ariannol a fydd yn helpu carchardai a gwasanaethau prawf i sicrhau canlyniadau am lai o gost?

**C31.** Sut y byddwn yn cynnwys cyrff gwirfoddol llai yn ogystal â'r rhai cenedlaethol mwy?

**C32.** Beth yw'r ffyrdd gorau i symleiddio'r fframwaith dedfrydu?

**C33.** Pa ofynion a ddylai fod ar y llysoedd i egluro'r ddedfryd?

**C34.** Sut y gallwn egluro dedfrydu'n well i'r cyhoedd?

**C35.** Beth yw'r ffordd orau i ni gynyddu dealltwriaeth o ddedfrydau carcharol?

**C36.** A ddylem roi mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd o ran y ffordd y maent yn defnyddio dedfrydau gohiriedig, a hynny'n cynnwys drwy eu hymestyn i gynnwys cyfnodau o fwy na 12 mis, a rhoi dewis ynghylch a fyddant yn gosod gofynion?

**C37.** Sut y gallwn sicrhau'r dedfrydu cymunedol mwyaf effeithiol er mwyn atal troseddu mynych?

**C38.** A fyddai gofyniad cyffredinol am driniaeth iechyd mewn gorchymyn cymunedol yn ychwanegu gwerth drwy gynyddu nifer y troseddwyr sy'n cael eu trin yn llwyddiannus?

**C39.** Pa mor bwysig yw'r gallu i bennu bod troseddwyr wedi torri amod wrth beidio â mynd am driniaeth i ddelio â'u hanghenion o ran cyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl?

**C40.** Pa gamau y gallwn eu cymryd i ganiatáu mwy o ddisgresiwn i weithwyr proffesiynol wrth reoli troseddwyr yn y gymuned, gan orfodi cydymffurfio'n fwy effeithiol yr un pryd?

**C41.** Sut y gallem dargedu dedfrydau cymunedol yn well fel y gallant helpu i ailsefydlu troseddwyr cyn iddynt gyrraedd y ddalfa?

**C42.** Sut y dylem gynyddu'r defnydd o ddirwyon a gorchmynion digolledu er mwyn talu'n ôl i ddioddefwyr am y niwed a wnaed iddynt?

**C43.** A oes mathau penodol o droseddwr y byddai atafaelu asedau'n gosb effeithiol ar eu cyfer?

**C44.** Sut y gallwn roi mwy o gymhelliad i bobl sy'n euog i gofnodi'r ple hwnnw ar y cyfle cynharaf?

**C45.** A ddylem roi pwerau i'r heddlu i awdurdodi rhybuddion amodol heb atgyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron, yn yr un modd â'u pwerau i gyhuddo?

**C46.** A ddylid gorfod cael caniatâd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer rhybudd syml am drosedd ditiol yn unig?

**C47.** A ddylem barhau i ddarparu ar gyfer rhoi rhybuddion amodol cosbol neu a ddylem gael gwared arnynt?

**C48.** Sut y gallwn symleiddio'r fframwaith gwarediadau y tu allan i'r llys i bobl ifanc?

**C49.** Beth yw'r ffordd orau i ni ddefnyddio dulliau cyfiawnder adferol i atal troseddu gan bobl ifanc a sicrhau eu bod yn gwneud iawn?

**C50.** Sut y gallwn gynyddu'r gorfodi effeithiol ar ddedfrydau i bobl ifanc?

**C51.** Sut y gallwn lwyddo i leihau'r angen am remandio pobl ifanc yn y ddalfa?

**C52.** Beth yw'r ffordd orau, yn eich barn chi, i ni roi cymhelliad i bartneriaid i atal troseddu gan bobl ifanc?

**C53.** Sut y gallwn ddarparu cyfundrefn arolygu a rheoli perfformiad sy'n cyflawni ein nod o leihau beichiau a chynyddu atebolrwydd lleol?

**C54.** Beth yw rhai o'r ffyrdd y gallem eu defnyddio i gynnwys cymunedau lleol ymhellach mewn cyfiawnder ieuenctid?

**C55.** Beth yw'r ffordd orau i swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gael eu cyflawni gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder?

**C56.** Pa fath o droseddau a throseddwyr y dylai Paneli Cyfiawnder Cymdogaeth ddelio â hwy a sut y gallai'r paneli hyn ategu prosesau cyfiawnder troseddol sydd ar gael eisoes?

**C57.** Ym mha ffyrdd eraill y gallwn weithio'n effeithiol ar draws Llywodraeth i roi mwy o hyblygrwydd lleol i fynd i'r afael â throseddu?

**C58.** Beth y gellir ei wneud yn rhagor i hybu perthnasoedd teuluol er mwyn gostwng aildroseddu ac atal troseddu sy'n pontio'r cenedlaethau?

**C59.** Beth y gallwn ei wneud yn rhagor i gynnwys pobl yn y system cyfiawnder, i hwyluso a hyrwyddo gwirfoddoli, a'i gwneud yn fwy tryloyw ac atebol i'r cyhoedd?